# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** | **CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD LLUN, 6 GORFFENNAF 2015 am 2.00 o'r gloch y prynhawn** | **MONDAY, 6 JULY, 2015 at 2:00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** — **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**ANNIBYNNOL / INDEPENDENT**

Jim Evans, Victor Hughes, G.O.Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Raymond Jones

**PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

R.Meirion Jones (Cadeirydd/Chair), Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

**GRWP CHWYLDROAD/REVOLUTIONIST GROUP**

Peter Rogers

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

R Ll Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG GYDA PHLEIDLAIS PAN YN TRAFOD MATERION YN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS WITH A RIGHT TO VOTE WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church) a Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD AC AELODAU**

Derbyn diweddariad ar unrhyw fater perthnasol yn codi.

3 **COFNODION CYFARFOD 10 MEHEFIN, 2015** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Mehefin, 2015.

4 **ENWEBIAD I'R PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL** (Tudalennau 9 - 10)

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Sgriwtini.

5 **TREFNIADAU'R AWDURDOD LLEOL I GEFNOGI DIOGELU PLANT** (Tudalennau 11 - 40)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant ynglyn â'r adolygiad gan Swyddfa Archwilio Cymru.

6 **MONITRO PERFFORMIAD - CERDYN SGORFWRDD CORFFORAETHOL CH4** (Tudalennau 41 - 44)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro.

7 **ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2014/15** (Tudalennau 45 - 84)

Cyflwyno'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol drafft am 2014/15.

8 **MATRICS SGORIO STRATEGAETH GYFALAF 2015** (Tudalennau 85 - 110)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro ynglyn â'r matrics ar gyfer sgorio bidiau cyllideb gyfalaf 2016/17.

9 **BLAEN RHAGLEN WAITH 2015/16** (Tudalennau 111 - 114)

Cyflwyno diweddariad o'r Flaen Rhaglen Waith.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin, 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd G. O. Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans, Ann Griffith, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, R. Llewelyn Jones |
| **WRTH LAW**: | Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro<br>Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd<br>Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes (GM) (ar gyfer eitem 4)<br>Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol a Thrawsnewid) (BD) (ar gyfer eitem 6)<br>Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli Trysorlys (GR) (ar gyfer eitem 5)<br>Prif Swyddog Rhiantu Corfforaethol a Phartneriaethau (LlBR) (ar gyfer eitem 4)<br>Rheolydd Tîm PGA (DR) (ar gyfer eitem 4)<br>Rheolydd Opsiynau Tai (AP) (ar gyfer eitem 4)<br>Rheolydd Sgriwtini Dros Dro (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Peter Rogers, Alwyn Rowlands (Aelod Portffolio ar gyfer Trawsnewid Perfformiad, Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Cynghorwyr Ieuan Williams (Arweinydd), H. Eifion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod -

- 16 Ebrill, 2015
- 4 Mai 2015 (ethol Cadeirydd/Is-Gadeirydd)

**3 DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD A'R AELODAU**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ei bresenoldeb mewn cyfarfodydd o Grŵp Llywio'r Gyllideb ac oherwydd newid yn y weithdrefn a benderfynwyd gan y fforwm hwnnw, na fydd angen mwyach i Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod yn bresennol ym mhob adolygiad gwasanaeth ac y byddai'r gwaith o sgriwtineiddio'r broses honno yn cael ei wneud gan y Pwyllgor yn ei gyfanrwydd ar ddiwedd y broses.

**4 MONITRO PERFFORMIAD – CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH4 2014/15**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor - adroddiad y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes yn ymgorffori'r cerdyn sgorio diwethaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15 ac yn dangos sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol ar gyfer y flwyddyn fel y cawsant eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 26 Mai, 2015. Roedd yr adroddiad yn amlygu'r rhannau hynny o'r Cerdyn Sgorio a oedd yn dangos bod y rhaglen wella a sefydlwyd gan y Weinyddiaeth gyfredol yn cael ei gwireddu ynghyd ag eithriadau lle yr oedd cofnod o danberfformiad ynghyd â'r mesurau lliniaru a gynigir i fynd i'r afael â'r meysydd hynny.



DRAFT

Rhoes y Pwyllgor sylw i’r meysydd isod mewn perthynas â Rheoli Perfformiad a oedd wedi eu dynodi’n Goch - meysydd yr oedd y Pwyllgor Gwaith wedi gofyn yn benodol i’r Pwyllgor eu sgriwtineiddio fel y gall fodloni ei hun ynglŷn â’r rhesymau am fethiant i gyflawni’r targed perfformiad a chael sicrwydd fod camau unioni wedi eu cynllunio neu ar waith-

- SCC/041a: Y ganran o blant cymwys, perthnasol a phlant a oedd yn flaenorol yn rhai perthnasol, sydd â chynlluniau llwybr yn ôl yr angen.

  Dywedodd y Prif Swyddog Rhiantu Corfforaethol a Phartneriaethau bod y mesur perfformiad hwn yn ymwneud â’r bobl ifanc hynny sydd wedi bod mewn gofal neu sy’n parhau i dderbyn gofal ac y mae’n rhaid i’r Awdurdod fod â chynlluniau llwybr ar eu cyfer er mwyn hwyluso eu trosglwyddiad i fyw’n annibynnol. Cynigiodd yr esboniadau lliniaru isod am y tanberfformiad -

  - Ar gyfer yr un cyfnod llynedd, roedd 23 o bobl ifanc yn y categori oed hwn ac roedd perfformiad yr Awdurdod yn erbyn y targed wedi llithro o 78.26% am 2013/14 i 77.28%. Er mai dim ond 4 o bobl ifanc oedd heb gynllun llwybr, mae’r ffigwr hwn yn cynrychioli canran uwch oherwydd roedd y nifer berthnasol yn isel i gychwyn ac o’r herwydd, mae’r ganran o ran perfformiad wedi cael ei sgiwio.
  - Unigolion bregus yw’r rhain sydd, yn aml, wedi cael profiadau negyddol ac maent yn glir am yr hyn y maent eisiau a dim eisiau ei wneud ac nid ydynt bob amser eisiau bod yn rhan o gynlluniau ffurfiol ar gyfer eu dyfodol. Yn aml, mae stigma ynghlwm wrth fod yn blentyn sy’n derbyn gofal ac mae rhai o’r bobl ifanc hyn yn dewis torri’r cysylltiadau hynny ar y cyfle cyntaf. O’r herwydd, mae sicrhau eu bod yn cyfranogi yn her.
  - Mae gan y Gwasanaeth raglen glir ar gyfer sicrhau y bydd cynlluniau llwybr yn cael eu cwblhau ar gyfer y 4 unigolyn yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf – mae un eisoes wedi’i gwblhau a bydd y tri arall yn cael eu cwblhau’n o fuan.
  - Mae’r Gwasanaeth yn bwriadu cynnal adolygiad o’r trefniadau ôl-ofal yn ystod y flwyddyn nesaf ac, fel rhan o’r adolygiad hwnnw, bydd yn ailedrych ar ganllawiau statudol ac arfer dda ac yn ceisio annog pobl ifanc i gymryd rhan er mwyn dylanwadau ar gynllunio gofal ac ymarfer y cynlluniau gofal. Bydd y swydd newydd, Swyddog Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yn allweddol i’r ymdrech honno.
  - Yn ogystal, bydd y Strategaeth Rhiantu Corfforaethol yn cael ei hadolygu gyda’r nod o ymgysylltu’n well gyda gwasanaethau eraill y Cyngor o ran trefniadau rhiantu corfforaethol er mwyn sicrhau nad mater i’r Gwasanaethau Plant yn bennaf fydd hwn.
  - Mae hyfforddiant ar gyfer Aelodau Etholedig ar eu cyfrifoldebau rhiantu corfforaethol wedi cael ei drefnu a bydd yn cael ei ddarparu gan berson ifanc sydd â phrofiad uniongyrchol o dderbyn gofal.
  - Er y derbynnir y dylai perfformiad yn erbyn y dangosydd fod yn 100%, nid yw’r ffigyrau moel bob amser yn cyfleu’r darlun gwirioneddol neu lawn.

  Nododd a derbyniodd y Pwyllgor yr eglurhad a gafwyd gan y Swyddog a chafwyd sicrwydd ganddo y bydd modd i’r Gwasanaeth, oherwydd bod y nifer dan sylw yn isel, gydymffurfio’n llawn gyda’r DP.

- HHA/017a: Nifer y dyddiau ar gyfartaledd y mae’r holl aelwydydd digartref yn eu treulio mewn llety gwely a brecwast.

  Dywedodd y Rheolydd Opsiynau Tai fod y dangosydd yn cyfeirio at unigolion sydd wedi treulio cryn amser mewn llety gwely a brecwast ac sy’n unigolion y mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb amdanynt, a rhoes y diweddariad isod i’r Pwyllgor -

  - Dim ond un cwpl a chanddynt blant sy’n rhan o’r grŵp hwn a bu’r teulu mewn llety gwely a brecwast am 8 diwrnod a’u bod wedi eu lletya oherwydd sefyllfa argyfyngus. Roedd gweddill y grŵp yn 8 o bobl sengl ac, oherwydd eu cefndiroedd bregus, mae’n anoddach dod o hyd i lety addas ar eu cyfer. Ychwanegwyd at yr anawsterau gyda’r newidiadau a wnaed yn ddiweddar i’r rheoliadau o ran budd-daliadau.
  - Daethpwyd o hyd i lety addas ar gyfer y rhan fwyaf o’r unigolion hyn drwy landlordiaid preifat.
  - Rhagwelir y bydd y diwygiadau i’r Ddeddf Ddigartrefedd a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2015 yn golygu y bydd llai o bobl yn cael eu lleoli mewn llety gwely a brecwast – ar hyn o bryd,

DRAFT

dim ond 3 o unigolion sydd gan y Gwasanaethau Tai mewn llety Gwely a Brecwast o gymharu â 10 efallai fel arfer. Mae'r Ddeddf yn awr yn hwyluso ymyrraeth gynharach ac yn caniatáu i'r Awdurdod gymryd camau rhesymol mewn perthynas â'r sawl sydd angen llety a rhoi cymorth iddynt yn gynt.

- Mae mesurau wedi cael eu sefydlu a chychwynnwyd ar broses o ailstrwythuro 4 o swyddi mewn ymateb i ofynion diwygiadau Llywodraeth Cymru ac er mwyn cwrdd â'r gofynion hynny.
- Oherwydd nifer yr unigolion y llwyddwyd i ddod o hyd i lety ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn – rhoddwyd sylw i 270 o geisiadau digartrefedd ac mae 250 o unigolion pellach wedi derbyn cyngor a dim ond 9 sydd ar ôl mewn llety gwely a brecwast – mae'r Gwasanaeth yn hyderus y bydd ei lefel perfformiad yn gwella erbyn y chwarter nesaf.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a chododd nifer o faterion dilynol yr oedd yn dymuno cael eglurhad yn eu cylch gan y Swyddog fel a ganlyn –

- Y modd y mae unigolion sy'n cysgu allan fel grŵp arbennig o fregus yn cael eu trin a'r cyfrifoldeb tuag atynt
- Effaith (os o gwbl) cyflwyno credyd cynhwysol a gwneud i ffwrdd â'r cymhorthdal ystafell wely sbâr
- Argaeledd opsiynau llety addas ar hyd a lled yr Ynys
- Yr effaith ar y gwasanaeth yn sgil y toriad yn y gyllideb Ddigartrefedd fel rhan o'r broses o resymoli'r gyllideb ar gyfer 2015/16. Ar y pwynt hwn, eglurodd y Pennaeth Adnoddau Dros Dro fod yr adolygiad gwasanaeth wedi sefydlu nad oedd y gyllideb hanesyddol o £250k a neilltuwyd i ddigartrefedd erioed wedi cael ei gwario'n gyfan gwbl a bod y gwariant gwirioneddol yn agosach at £50k i £60k. Gwnaed yr arbediad ar ôl alinio'r gyllideb gyda gwariant yn y gorffennol. Fodd bynnag, gan mai cyllideb sy'n cael ei harwain gan y galw amdani yw hon, mae cronfa wrth gefn sylweddol wedi cael ei sefydlu er mwyn cwrdd ag unrhyw bwysau ychwanegol ar y gyllideb hon a chyllidebau eraill sy'n cael eu harwain gan y galw amdanynt.

  Nododd a derbyniodd y Pwyllgor y diweddariad ar y sefyllfa a gyflwynwyd gan y Rheolydd Opsiynau Tai.

- DP 23 a 24: Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiad dros dro – cynradd ac uwchradd

  Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ysgrifenedig gan y Cyfarwyddwr Dysgu ac fe'i nodwyd. Nododd y Pwyllgor hefyd bod hwn yn faes y byddai'n dymuno parhau i'w fonitro yng nghyd-destun mewnbwn y Swyddog Lles.

- O ran perfformiad mewn perthynas ag absenoldeb salwch, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch lefel y gwelliant yng nghyd-destun perfformiad yn erbyn awdurdodau eraill yng Nghymru o ran y mesur hwn. Dywedodd y Rheolwr Cynllunio a Rhaglen Fusnes y gwelwyd gwelliant oddeutu 1 diwrnod fesul ALIC o gymharu â 2013/14. Ni fydd data cymharol ar gyfer awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ar gael tan yn ddiweddarach eleni ond mae cymhariaeth gydag awdurdodau eraill o faint tebyg yn seiliedig ar wybodaeth hanesyddol yn dangos fod perfformiad Ynys Môn yn salach. Er nad oes ateb syml i fynd i'r afael ag absenoldeb salwch, bydd yr Awdurdod yn ceisio sicrhau gwelliant drwy ddeall a rheoli'n well y rhesymau am yr absenoldeb salwch a thrwy ddatblygu a sylfaenu'n gadarn brosesau ac arferion rheoli da. Pwysleisiodd y Pwyllgor yr angen i roi sylw i absenoldeb salwch a dygodd sylw at y gwerth o ddysgu o arferion da mewn awdurdodau eraill.
- Nododd a chroesawodd y Pwyllgor y nifer o ganmoliaethau a dderbyniwyd ac a gofnodwyd ond awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol cael dadansoddiad o'r canmoliaethau fesul gwasanaeth neu adran. Yn ogystal, pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd cyfleu'r canmoliaethau i staff y gwasanaeth perthnasol.
- Yr un modd, nododd y Pwyllgor y byddai dadansoddiad pellach o ddangosyddion 10 ac 11 dan Rheoli Pobl o ran nifer y staff yn yr awdurdod cyfan gan gynnwys a heb gynnwys athrawon wedi bod yn ddefnyddiol. Gwnaed y pwynt cyffredinol gan y Pwyllgor y byddai efallai'n ddefnyddiol cynnwys mwy o wybodaeth yn y cerdyn sgorio fel eglurhad ynghylch arwyddocâd rhai dangosyddion.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch y fethodoleg a ddefnyddir i benderfynu ar dargedau a lefel yr her i'r gwasanaethau. Holodd y Pwyllgor a oedd rhai o'r targedau a osodwyd ar gyfer gwasanaethau wedi bod yn realistig. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes y bydd y targedau/dangosyddion a'r chwarteli y maent wedi eu gosod ynddynt yn cael eu gwerthuso mewn gweithdai gyda'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol a hefyd gyda'r gwasanaethau er mwyn penderfynu a fyddai modd gwneud cynnydd pellach. Cadarnhaodd y Swyddog y bydd perfformiad mewn awdurdodau eraill sy'n perfformio i lefel uchel yn cael eu craffu.
- Nododd y Pwyllgor fod cydymffurfio gyda chais y Pwyllgor Gwaith i ymchwilio i feysydd perfformiad 'Coch' wedi cyfyngu ar y meysydd hynny (nid rhai Coch o angenrheidrwydd) y byddai'r Pwyllgor fel arall efallai wedi dymuno ymchwilio iddynt a dwyn sylw atynt yn y cyfarfod hwn. Dywedodd y Rheolydd Sgriwtini Dros Dro y bydd y broses adrodd ar gyfer y cyfarfod nesaf yn dilyn y drefn arferol gyda'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Ch1 2015/16 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini cyn cael ei drafod gan y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn llwyddo i'w gwella ar gyfer y dyfodol fel y cânt eu nodi yn adran 4.1 yr adroddiad.**
- **Nodi a derbyn y mesurau lliniaru mewn perthynas â'r meysydd a amlinellir yn 4.1 ynghyd â'r esboniadau a gafwyd ar lafar yn y cyfarfod o ran lliniaru meysydd sy'n tanberfformio yr oedd y Pwyllgor Gwaith wedi gofyn i'r Pwyllgor eu hystyried.**
- **Nodi hefyd y bydd gweithdai pellach yn cael eu cynnal gyda'r UDA/Pwyllgor Gwaith ac Aelodau'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol er mwyn adolygu'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer 2015/16 ddiwedd mis Mai/Mehefin, 2015**

  **CAMAU GWEITHREDU YN CODI: Y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes i ddarparu ar gyfer y Pwyllgor ddadansoddiad fesul gwasanaeth mewn perthynas â DP (10) ac (11) dan Rheoli Pobl a DP (06) dan Gwasanaeth Cwsmer.**

## 5 MONITRO'R GYLLIDEB – CANLYNIADAU CYLLIDEB GYFALAF 2014/15

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor – adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro yn nodi perfformiad y Gyllideb Gyfalaf am y cyfan o flwyddyn ariannol 2014/15.

Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro fod y Cyngor wedi cymeradwyo rhaglen gyfalaf o £25m ar gyfer 2014/15 ar draws y Cronfeydd Cyffredinol a Thai gan gynnwys cyllid grant a chan gynnwys llithriad. Y canlyniad dros dro yn erbyn y gyllideb yw £21.3m sy'n cynrychioli gwariant 85%. Nid ystyrir bod y canlyniad yn broblemus oherwydd mae gwariant cyfalaf yn cynnwys eitemau a darnau o weithgaredd unwaith ac am byth sydd yn aml, yn parhau am flwyddyn neu ragor ac y gellir eu gohirio am nifer o resymau. Mae fformat y canlyniadau yn Atodiad B yn seiliedig ar y fformat a oedd yn cael ei ddefnyddio cyn 2014/15 ac o'r herwydd mae'n gyfyngedig o ran y manylion y mae'n eu darparu. Yn Atodiad C, gwelir y rhaglen gyfalaf yn y fformat diwygiedig sy'n rhoddi mwy o fanylion am y gwariant cyfalaf sydd wedi ei gynllunio. Wedi i'r broses o gymeradwyo'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2015/16 gael ei sgriwtineiddio, dywedodd y Swyddog y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf er mwyn egluro'r pwysoliadau cyfalaf a ddefnyddiwyd fel rhan o'r broses honno.

Rhoes y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaeth y pwyntiau isod –

- Roedd y Pwyllgor yn pryderu am y diffyg sy'n parhau mewn perthynas â'r rhaglen ar gyfer gwella'r mân-ddaliadau sydd, ar ôl ei gario drosodd i 2015/16 yn £1.393m a holodd am yr hyn y bwriedir ei wneud i ostwng y diffyg ac i gyflymu'r broses ar gyfer gwerthu asedau. Cyfeiriodd y Pwyllgor at lefel arwyddocaol y buddsoddiad yn y stad mân-ddaliadau ac awgrymodd y dylai'r Awdurdod fod yn edrych yn awr at sicrhau dychweliad ar yr ased hwn.



DRAFT

Dywedodd yr Aelod Portffolio, er gwaethaf y sefyllfa o ran y mân-ddaliadau, fod y sefyllfa ar y cyfan gaiff ei hadlewyrchu yn yr adroddiad yn foddhaol. Roedd yn cydnabod y pryder ynglŷn â'r rhaglen mân-ddaliadau oedd yn awr yn ei phumed flwyddyn (y flwyddyn derfynol) ac er bod perfformiad wedi gwella'n ddiweddar o ran lleihau'r diffyg a chynyddu derbyniadau cyfalaf, cadarnhaodd ei fod yn bwriadu ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 15 Mehefin i gomisiynu dadansoddiad ar gynnydd gyda'r rhaglen gwella mân-ddaliadau, yn cynnwys camau y gellid eu cymryd i bontio'r diffyg. Gan edrych i'r dyfodol, mae'n debyg y byddai hyd yn oed llai byth o arian ar gael ar gyfer y rhaglen gyfalaf sy'n golygu y bydd angen monitro pob cynllun yn ofalus, ac felly roedd y matrics sgorio ar gyfer 2015/16 yn cael ei gyflwyno. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio hefyd at fenthyca digefnogaeth fel ffordd newydd ond gostus serch hynny o ariannu gwariant cyfalaf. Rhybuddiodd, er bod y cyfraddau llog dal yn isel, na fyddant yn aros yn isel am byth sy'n golygu bod angen i'r Awdurdod fod yn ofalus o ran y modd y mae'n gwario a benthyca.

Awgrymodd y Cadeirydd efallai bod y materion ynghylch y rhaglen gwella mân-ddaliadau yn faes y byddai'r Panel Canlyniad Sgriwtini ar reoli asedau yn dymuno ei ystyried hefyd.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro y byddai'r adroddiad arfaethedig y cyfeiriodd yr Aelod Portffolio ato yn cynnwys dadansoddiad ariannol llawn o holl elfennau'r rhaglen gwella mân-ddaliadau a byddai'n ymgorffori gwerthoedd cynyddol, incwm rhent a buddsoddiad cyfalaf. Roedd yn eilio barn yr Aelod Portffolio ynglŷn â'r risgiau o fenthyca, a dywedodd fel rheol gyffredinol fod pob £1 miliwn roedd yr Awdurdod yn ei fenthyca yn ychwanegu £40k at ei gostau refeniw. Roedd angen i Aelodau fod yn ymwybodol o'r cyd-destun hwnnw wrth wneud penderfyniadau i fenthyca.

- Er yn nodi bod y lefel gwariant o 85% ar y rhaglen gyfalaf i'w weld yn dderbyniol, awgrymodd y Pwyllgor y dylai'r Awdurdod fod yn anelu am 100% o wariant ac er mwyn cyflawni hynny, roedd angen rhoi ystyriaeth i wella rheolaeth prosiectau fel y cânt eu cyflawni o fewn amserlenni a bod eu cyllidebau neilltuol yn cael eu gwario'n llawn.

Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro bod mater yn codi ynglŷn â rheoli prosiectau. Fodd bynnag, roedd peth o'r llithriad o 2014/15 yn ei gwneud yn bosib i geisiadau penodol a wnaed gan y Pwyllgor Sgriwtini gael eu hariannu fel rhan o wariant cyfalaf 2015/16, neu fel arall byddent wedi gorfod cael eu gwrthod. Byddai darparu mwy o fanylder ar gynlluniau unigol fel rhan o'r fformat adrodd diwygiedig ar y rhaglen gyfalaf yn galluogi gwell sgriwtini ar gynnydd a chyflawniad prosiectau.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd gyda gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2014/15.**
- **Argymell i'r Pwyllgor Gwaith bod proses benodol yn cael ei chyflwyno ar gyfer rheoli prosiectau fel eu bod yn cyflawni oddi mewn i'r amserlenni ac yn cael eu gwario'n llawn.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**6 MONITRO'R GYLLIDEB – CANLYNIAD DROS DRO Y GYLLIDEB REFENIW 2014/15**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro ar sefyllfa ariannol dros dro y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2014/15 i'r Pwyllgor ei ystyried.

Adroddodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro bod y Cyngor, ym mis Chwefror 2014, wedi gosod cyllideb refeniw net ar gyfer 2014/15 o £126.7m. Roedd angen gwneud arbedion o £6.3m i'r gyllideb. Y sefyllfa ariannol ddrafft yn gyffredinol yw tanwariant o £599k (0.47%) ac roedd yr adroddiad yn darparu eglurhad am amrywiaethau sylweddol rhwng y gwasanaethau. Y gwasanaeth oedd yn perfformio waethaf oedd y Gwasanaeth Cyllid, a'r prif beth oedd yn gyfrifol am hyn oedd defnyddio staff asiantaeth i gynorthwyo gyda chau cyfrifon 2013/14.

DRAFT

Nid yw'r mwyafrif o'r staff hyn ar gontract bellach. Yn ogystal â bod yn ganlyniad eithaf da i'r Cyngor, llwyddwyd i gyflawni hyn yng nghyd-destun bod rhai rheolwyr gwasanaeth yn gorfod cystadlu â symiau negyddol mawr yn eu cyllidebau ar ffurf arbedion i'w canfod. Dywedodd y Swyddog fod y Pwyllgor Sgriwtini wedi awgrymu ei fod yn dymuno parhau i fonitro'r rhaglen arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2015/16 a'i fod yn dymuno gwneud hynny ar sail chwarterol. Cynigiodd y Cadeirydd y dylid gwneud i ffwrdd â'r ymrwymiad chwarterol ac y dylai'r Panel Sgriwtini Effeithlonrwydd y Gyllideb gwrdd pan fo hynny'n briodol, a chytunwyd i hynny.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod llawer o waith wedi'i wneud i gyflawni'r rhaglen arbedion ar gyfer 2014/15. Fe wnaed y difrod i gyllideb y Gwasanaeth Cyllid yn Chwarter 1 ac ers hynny mae wedi bod yn fater o reoli a chyfyngu'r gorwariant. Mae'r canlyniadau wedi amlygu sawl maes lle bu gorwariant y byddai'n werth ymchwilio ymhellach iddynt e.e. costau trafnidiaeth addysg, Oriel Ynys Môn a chyllideb y Parc a Chyfleusterau Awyr Agored.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau a ganlyn –

- Nododd y Pwyllgor er bod yr adroddiad yn dangos gostyngiad yn nifer y staff asiantaeth oedd yn cael eu cyflogi, roedd Cerdyn Sgorio Chwarter 4 yn dangos fod y nifer wedi cynyddu mewn gwirionedd.

  Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro fod angen gwahaniaethu rhwng staff asiantaeth sy'n gweithio i gyflenwi swyddi gwag a'r rheini sydd wedi cael eu tynnu i mewn yn ychwanegol i staff y sefydliad. O ran y Gwasanaeth Cyllid roedd gorwariant o £780k wedi cael ei ragweld ar ddechrau'r flwyddyn ac roedd hynny wedi lleihau erbyn diwedd y flwyddyn. Mae costau trafnidiaeth ysgol ar hyn o bryd yn destun prosiect caffael ac mae'r gyllideb Parciau Hamdden a Chyfleusterau Awyr Agored yn enghraifft o gyllideb nad yw'n cydymffurfio â'r arbedion effeithlonrwydd a dderbyniwyd ar y pryd.

- Ceisiodd y Pwyllgor eglurhad ar raddfa'r lleihad yn staff y Sefydliad fel y maes gwariant mwyaf. Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro y byddai'n cylchredeg y wybodaeth honno i Aelodau'r Pwyllgor.

- Roedd y Pwyllgor yn bryderus y byddai'r gwasanaethau hynny oedd wedi llwyddo i aros oddi mewn i'w cyllideb neu wedi cyflawni eu harbedion yn canfod eu hunain mewn sefyllfa lle byddent yn gorfod cario a/neu wneud i fyny am wasanaethau oedd wedi gorwario. Awgrymwyd y byddai problemau'r gwasanaethau hynny ond yn gwaethygu gan y byddai'n rhaid iddynt ganfod arbedion pellach yn 2015/16 ar ben y rheini nad oeddent wedi eu gweithredu yn 2014/15. Cyfeiriwyd yn benodol at orwariant corfforaethol e.e. Adran y Dirprwy Brif Weithredwr, a'r angen i ganolbwyntio ar y meysydd hyn er mwyn lleihau'r baich ar y gwasanaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y cyhoedd.

  Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro, yn achos adran y Dirprwy Brif Weithredwr, bod hwn yn faes lle rhoddwyd cyllideb negyddol i mewn fel arbediad i'w ganfod. Gan ystyried fod hon yn adran fach a bod costau cyflog yn 60% i 70% roedd yn arbediad afrealistig i'w gyflawni heb gael gwared ar swyddi. Er yn cydnabod y pwynt a wnaed ynglŷn â gwasanaethau oedd wedi tanwario yn gorfod cario'r rheini oedd wedi gorwario, dywedodd y Swyddog nad oedd yn wir bod gwasanaethau eraill wedi gorfod sybsideiddio'r Gwasanaeth Cyllid.

  Roedd angen i'r holl wasanaethau gydymffurfio â'u cyllidebau ac roedd hynny'r un mor wir i'r Adran Gyllid. Ni fyddai unrhyw orwariant adrannol fodd bynnag yn effeithio'r arian ar gael i wasanaethau eraill. Bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â gorwariant gan unrhyw wasanaeth trwy ariannu o'r cronfeydd wrth gefn. Ni ragwelir y bydd yr un sefyllfa yn digwydd eto eleni ac nid oes unrhyw wasanaeth yn wynebu sefyllfa o orwariant ar hyn o bryd.

  **Penderfynwyd –**

  - **Nodi'r sefyllfa a roddir yng nghyswllt perfformiad ariannol 2014/15 a hefyd nodi bod y canlyniad a adroddir yn un dros dro hyd nes bod yr archwiliad statudol wedi'i gwblhau.**

- **Bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn argymell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn monitro meysydd lle bu gorwariant yn 2014/15 yn agos.**

  **GWEITHRED YN CODI: Y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro i ddarparu gwybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor am sefyllfa staffio'r sefydliad a'r gostyngiadau.**

**7 MYNYCHU CYNHADLEDD**

Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Pwyllgor adroddiad ar y cyd gan y Cadeirydd a'r Swyddog Sgriwtini ar y prif themâu o'r Gynhadledd Llwyddo Drwy Gydweithio – Rhannu Atebolrwydd i'r Cyhoedd yng Nghymru, a gynhaliwyd yn Llandrindod ar 23 Mawrth 2015. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Pwyllgor y byddai adroddiad ffurfiol ar y gynhadledd yn cael ei gyhoeddi ac awgrymodd bod y Pwyllgor yn ailymweld â themâu'r gynhadledd mewn mwy o fanylder yr adeg honno.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad.**

**8 BLAENRAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd drafft cychwynnol Blaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2015/16.

Codwyd y materion a ganlyn –

- Gofynnwyd am Ddatganiad Sefyllfa ar y Prosiect Gweithio'n Gallach i'w gynnwys ar agenda'r Pwyllgor ar gyfer 6 Gorffennaf, 2015 ac yn dilyn hynny gofynnwyd am adroddiad mwy manwl ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 14 Medi, 2015.
- Eglurder ynghylch natur a statws yr ymgynghoriad mewn perthynas â moderneiddio ysgolion yn ardal Rhosyr a fyddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 14 Medi.
- Bod y Pwyllgor yn derbyn gwybodaeth mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar oedolion gydag anghenion iechyd meddwl ac oedolion gydag anableddau dysgu fel meysydd yn y Gwasanaethau Oedolion nad oedd wedi cael eu hadrodd yn ddigonol i Sgriwtini.
- Bod cyfarfod nesaf y pwyllgor ar 6 Gorffennaf yn cael ei aildrefnu o 3:00 p.m. i 2:00 p.m. oherwydd ymrwymiadau hyfforddiant Aelodau yn hwyrach y prynhawn hwnnw.

  Rhoddodd y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro ddiweddariad i'r Pwyllgor ar y pynciau fyddai'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2015 a'r rhesymau am eu cynnwys.

  **Penderfynwyd nodi a derbyn y Blaenraglen Waith ddrafft gyda'r ychwanegiadau a gynigwyd.**

  **GWEITHRED YN CODI: Y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro i fynd ar ôl y materion a godwyd gan y Pwyllgor.**

**Y Cynghorydd R. Meirion Jones**
**Cadeirydd**



DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MôN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD AT:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **DYDDIAD:** | **6 Gorffennaf 2015** |
| **PWNC :** | **Enwebu Aelod i'r Panel Rhiant Corfforaethol** |
| **AELODAU PORTFOLLIO( AU):** | **-** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Swyddog Sgriwtini**<br>**01248752039**<br>**gwrce@anglesey.gov.uk** |

## 1.0 ARGYMHELLION

1.1 Bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn enwebu un aelod o'r Pwyllgor i eistedd ar Panel Rhiant Corfforaethol o Mai 2015 i Mai 2016.Oherwydd bod Cynghorydd Ann Griffith wedi ymgymryd â'r rôl flwyddyn ddiwethaf argymell pellach bod hi yn cael eu henwebu unwaith eto oherwydd ei fod wedi datblygu gwybodaeth o'r gwaith.

## 2.0 RHESWM

2.1 Pwrpas y Panel Rhiant Corfforaethol yw gweithredu ar ran y Cyngor i sicrhau bod yr holl wasanaethau sydd â chyfrifoldeb i blant y gofelir amdanynt, pobl ifanc a rhai'n gadael gofal o safon uchel ac yn gwella cyfleon bywyd plant y gofelir amdanynt i fod fel eu cyfoedion. Mae o ddeutu 4 cyfarfod arferol o'r Panel phob blwyddyn ond mae phosib cael cyfarfodydd ychwanegol Yr aelod a enwebwyd i eistedd ar y Panel o Mai 2014 i Mai 2015 oedd y Cynghorydd Ann Griffith.

Awdur: Geraint Wyn Roberts
Teitl Swydd: Swyddog Sgriwtini
Dyddiad: 29 Mehefin 2015

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Adroddiad at:** | **Pwyllgor Craffu Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **06 Gorffennaf 2015** |
| **Testun :** | Trefniadau'r Awdurdod Lleol i gefnogi diogelu plant - Swyddfa Archwilio Cymru Rhagfyr 2014 |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Cyng. Aled Morris Jones** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | Anwen Huws<br><br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>**01248751811**<br>**AnwenMHughes@ynysmon.gov.uk** |

**1.0 Argymhellion**

A1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu gytuno fod y camau gweithredu a nodir yn Atodiad 2, yn debygol o alluogi'r Awdurdod Lleol i gydymffurfio gyda'r argymhellion a wnaed gan Swyddfa ArchwilioCymru.

A2 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu gytuno monitro cydymffurfiad gyda'r gofynion, ac i ddal y Cyfaarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn atebol am eu cyflawni

**2.0 Rhesymau**

2.1 Yn ystod Mawrth - Mai 2014, cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o'n trefniadau sicrwydd ac atebolrwydd ar gyfer sicrhau fod trefniadau corfforaethol priodol ar gyfer diogelu plant wedi ei sefydlu ac yn gweithio'n effeithiol. Mae'r adroddiad ynghlwm yn Atodiad 1 ac yn cynnwys nifer o argymhellion gwella

2.2 Mae'r Awdurdod Lleol wedi mabwysiadu ei bolisi diogelu a'r cynllun gweithredu cysylltiedig. Mae Bwrdd Diogelu Corfforaethol wedi cael ei sefydlu. Mae cytundeb rhwng argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru a chynllun gweithredu yr Awdurdod Lleol

2.3 Gofynnir i'r Aelodau nodi fod yr Adroddiad Diogelu Plant blynyddol a gyflwynwyd i Bwyllgor Craffu ar 14 Ionawr 2015 yn dangos fod yr Awdurdod Lleol wedi cwblhau nifer o'r materion a adnabuwyd. Mae hyn hefyd wedi ei gadarnhau yn Atodiad 2.

2.4 Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn adnabod tra bod gan yr Awdurdod Lleol nifer o brosesau a threfniadau mewn lle, bod angen i'r awdurdod lleol.

i) Gwblhau ei gynllun gweithredu diogelu.
ii) Cynyddu perchenogaeth o’r agenda diogelu ar draws y sefydliad.
iii) Sefydlu’n gadarn y sicrwydd trefniadol o’i swyddogaeth diogelu yn y fframwaith rheoli perfformiad, rheoli risg a chynllunio busnes ar gyfer y sefydliad.
iv) Sicrhau y dylai sefydlu trefniadau sgriwtini ffurfiol rheolaidd o’r mesurau diogelu fod yn flaenoriaeth ynghyd â chydymffurfiaeth gyda gwaith archwilio mewnol rheolaidd ar ddiogelu.

Gweler y rhestr lawn o argymhellion ar dudalen 8 yr adroddiad yn yr atodiad.

Anwen Huws
Pennaeth Gwasanaeth
27.04.15

Atodiad 2

**Argymhellion – Trefniadau Awdurdodau Lleol I Gefnogi Diogelu Plant – Swyddfa Archwilio Cymru (Rhagfyr 2014)**

| **Beth sydd angen i ni ei wneud?** | **Sut byddwn ni'n gwneud hyn?** | **Pwy?** | **Erbyn pryd?** | **Beth yr ydym wedi ei wneud?** |
|---|---|---|---|---|
| Dylid cwblhau a gweithredu cyn gynted ag sy'n bosibl drefniadau ar gyfer y broses o sgriwtineiddio'n effeithiol yr holl agweddau ar ddiogelu plant. | Sefydlu'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol gyda Chylch Gorchwyl ac aelodaeth y cytunwyd arno. | Cyfarwyddwr Cymuned | 31.04.15 | Cwblhawyd |
| Dylid cwblhau gwaith ar y Cerdyn Sgorio Diogelu Corfforaethol cyn gynted ag sy'n bosibl a dylai gynnwys Cardiau Sgorio Diogelu penodol o bob Adran a maes gwasanaeth. | Rhaid i bob PG nodi Blaenoriaethau Diogelu a fydd yn cael eu cynnwys yn eu Cynlluniau Cyflawni Gwasanaeth 2015 - 16 a'u monitro'n unol â'r trefniadau Busnesa Rheoli Perfformiad Corfforaethol. | Pob Pennaeth Gwasanaeth | 31.04.15 | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Datblygu'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer diogelu y byddir yn adrodd arno yn unol â'r trefniadau Busnes a Rheoli Perfformiad Corfforaethol. | Pennaeth Gwasanaeth Plant a'r Rheolydd Busnes a Pherfformiad (Corfforaethol) | 31.04.15 | Cwblhawyd |
| Dylid rhoddi blaenoriaeth i sefydlu trefniadau craffu ffurfiol ar gyfer diogelu ynghyd â chadarnhau'r gwaith y mae Archwilio Mewnol yn ei wneud yn rheolaid ar ddiogelu. | Bydd Adroddiad Corfforaethol ar Ddiogelu'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol bob blwyddyn. | Pennaeth Gwasanaethau Plant | 31.03.16 | Cwblhawyd Ionawr 2015 |
| | Bydd Adroddiad Diogelu Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol bob blwyddyn. | Pennaeth Gwasanaethau Plant | 31.03.16 | Cwblhawyd Ionawr 2015 |
| | Swyddog 151 y Cyngor Sir i sicrhau bod y pwyllgor archwilio yn ystyried yr adroddiad diogelu blynyddol ac yn sicrhau bod yr aelodau yn sgriwtineiddio'n ffurfiol ac yn rheolaidd y | Swyddog 151 y Cyngor Sir | 31.03.16 | Ar y gweill |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | meysydd hynny sy'n peri pryder penodol. | | | |
| | Cytuno ar y gwaith Archwilio Mewnol y mae angen ei wneud ar ddiogelu. | Swyddog 151 y Cyngor Sir | 31.03.16 | Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol gyda swyddog archwilio. Wedi ei gynnwys yn y rhaglen archwilio ar gyfer 2016. |
| Dylid cynnwys yn y gweithdrefnau Craffu newydd ymwybyddiaeth o'r cysyniad a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â system rheoli risg gynhwysfawr. | Mae trefniadau Rheoli Risg Corfforaethol wrthi'n cael eu datblygu / eu cymeradwyo ar hyn o bryd sy'n golygu y bydd rheoli risg wedi ei alinio â'r trefniadau Busnes a Rheoli Perfformiad Corfforaethol.<br><br>Darperir hyfforddiant i PG a rheolwyr gwasanaeth allweddol.<br><br>Mae cofrestrau corfforaethol a chofrestrau gwasanaeth | Swyddog Risg y Cyngor a PG | 31.03.15 | Ar y gweill |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | wrthi'n cael eu datblygu. | | | |
| Dylid creu swydd newydd sef Prif Swyddog Diogelu a lleoli'r swyddog mewn safle priodol yn y strwythur Rheoli Corfforaethol. | Recriwtio a phenodi i'r swydd. | Pennaeth Gwasanaethau Plant | 31.03.15 | Cwblhawyd |
| Dylid cwblhau cyn gynted ag sy'n bosibl y rhaglen ar gyfer adolygu a diweddaru'r holl weithdrefnau perthnasol fel y cânt eu rhestru yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Polisi Diogelu. | Mae'r adolygiad o'r cynllun gweithredu wedi dangos bod angen o hyd rhoddi sylw i'r isod<br>- Adolygu'r Polisi Gwirfoddoli er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda Chynllun Gweithlu Diogel y Cyngor<br>- Adolygu a diweddaru'r Polisi Disgyblu. (Wedi ei gynllunio ar gyfer Mehefin | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd | I'w drefnu | Mae nifer o'r polisïau allweddol wedi cael eu hadolygu a'i diweddaru. Cwblheir y gweddill yn unol â'r amserlen |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2015)<br>- Gweithredu'r canllawiau ar gyfer mesurau ataliol ac amser allan.<br><br>. | Pennaeth AD<br><br>Pennaeth Gwasanaethau Plant | Mehefin 2016<br><br>Mawrth 2016 | |
| Dylid cwblhau gwaith ar bolisi a gweithdrefnau recriwtio diogel effeithiol a gweithredu'r gweithdrefnau ar frys. | Cymeradwyo a Gweithredu'r Polisi | Pennaeth AD<br><br>Yr Holl Benaethiaid Gwasanaeth | | Cwblhawyd |
| Dylid cwblhau'r rhaglen hyfforddiant diogelu a'i defnyddio ar draws y Cyngor a monitro presenoldeb cyn gynted ag sy'n bosibl. | Cymeradwyo Strategaeth a Fframwaith Hyfforddiant yr Awdurdod Lleol.<br><br>Sefydlu trefniadau | Pennaeth AD | Medi 2015 | Ar y gweill |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Monitro.<br><br>Dylunio Rhaglen Hyfforddiant<br>Ymestyn y rhaglen a'i gwerthuso. | | | |
| Dylid gwneud defnydd llawn o'r cyfle i elwa o brofiadau cynghorau a sefydliadau eraill o fewn y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol newydd. | Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill; bydd yn cydymffurfio gyda phrotocolau a gweithdrefnau'r Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol a'r Bwrdd Archwilio Diogelu Rhanbarthol a bydd yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw argymhellion ynghylch gwella ei bolisïau a'i weithdrefnau diogelu. | Cyfarwyddwr Cymuned | Yn mynd rhagddo | Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo aelodaeth i'r Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol a'r Grwpiau Cyflawni Lleol- mae rhai'n aelodau neu'n gadeiryddion o nifer o is-grwpiau. Mae Swyddogion yr Awdurdod Lleol wedi cymryd rhan mewn nifer o adolygiadau ymarfer gan gyfrannu at y broses ddysgu a gwella ar sail ranbarthol.<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn rhoddi cefnogaeth ariannol ac adnoddau anariannol tuag at waith |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | y Bwrdd. |

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Trefniadau Awdurdodau Lleol i Helpu i Ddiogelu Plant

## Cyngor Sir Ynys Môn

**Blwyddyn archwilio:** 2014-15

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** 327A2014

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Brian Jones a gyflawnodd y gwaith.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cefndir | 4 |
| Canfyddiadau a chasgliadau'r adolygiad | 4 |
| Cynigion ar gyfer gwella | 8 |
| Atodiadau | |
| Crynodeb o ganfyddiadau'r arolwg | 9 |

# Adroddiad cryno

## Cefndir

**1.** Mae pawb yn gyfrifol am ddiogelu plant. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i roi trefniadau diogelu ar waith sy'n cynnwys gwaith cynllunio strategol, cymorth a chanllawiau i holl ddarparwyr gwasanaethau perthnasol yn eu hardal, a darpariaeth uniongyrchol rhai gwasanaethau eu hunain. Yn arbennig, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i weithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn sicrhau diogelwch a lles plant yn eu hardal, gan gynnwys y Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

**2.** Mae gan gyflogeion a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant ddyletswyddau a chyfrifoldebau diogelu penodol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ac ysgolion sicrhau, drwy eu trefniadau Adnoddau Dynol a phersonél, fod gwiriadau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod gan gyflogeion a gwirfoddolwyr gymeriad da a bod eu harferion gwaith yn cael eu rheoli a'n monitro. Hefyd, mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod prosesau ar waith i ymchwilio i honiadau a wneir yn erbyn staff, athrawon a staff cymorth, a gwirfoddolwyr a'u cofnodi.

**3.** Mae angen i aelodau, Prif Weithredwyr ac uwch reolwyr sicrhau eu bod yn goruchwylio'r trefniadau diogelu sydd ar waith ar draws yr awdurdod mewn modd priodol. Dylent fynd ati i geisio a chael sicrwydd bod trefniadau yn gweithredu'n effeithiol oherwydd, heb y sicrwydd hwn, ni fyddant yn gallu dangos eu bod wedi cyflawni eu rhwymedigaeth statudol o ran diogelu.

**4.** Rhwng mis Mawrth a mis Mai 2014, cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau sicrwydd ac atebolrwydd Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ar gyfer sicrhau bod trefniadau corfforaethol dilys i ddiogelu ar waith ac yn gweithio'n effeithiol. Edrychodd yr astudiaeth ar yr hyn y mae'r Cyngor ei hun wedi'i wneud i geisio sicrwydd bod y trefniadau y mae wedi'u rhoi ar waith i helpu i ddiogelu plant yn effeithiol, drwy adolygu'r ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau diogelu ar bob lefel: cabinet, uwch dîm rheoli, craffu a swyddogion unigol.

**5.** Canolbwyntiodd yr astudiaeth ar ateb y canlynol: **A yw trefniadau llywodraethu a rheoli'r Cyngor yn rhoi sicrwydd bod plant yn cael eu diogelu?** Y prif gwestiynau yr oedd yr adolygiad yn ceisio eu hateb oedd:

- A oes trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli clir ar gyfer monitro a yw'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau o ran diogelu plant?
- A yw'r Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso gwybodaeth briodol, sy'n rhoi sicrwydd ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau o ran diogelu plant?
- A yw systemau sicrwydd yn gweithredu'n effeithiol?

## Canfyddiadau a chasgliadau'r adolygiad

**6.** Diwygiwyd paragraff 6 fel a ganlyn: Edrychwyd ar bolisïau sy'n berthnasol i waith diogelu; adroddiadau i'r Cyngor, y Cabinet a Chraffu; a nodwn isod ein casgliadau ar sail y graddau y mae'r Cyngor wedi rhoi ar waith brosesau a rheolaethau sicrwydd a rheoli effeithiol ym maes diogelu ac yn eu gweithredu. Fel rhan o'r astudiaeth hon,

darparwyd arolwg ar-lein i aelodaeth etholedig, uwch reolwyr, a staff addysg, ysgolion a hamdden er mwyn profi trefniadau'r Cyngor ym maes diogelu. Mae arolygon yn werthfawr am eu bod yn cynnig cipolwg ar waith y Cyngor o safbwynt y bobl sy'n gwneud penderfyniadau ac sy'n gwneud y gwaith. Mae hefyd yn ein galluogi i brofi cryfderau neu wendidau perthynol trefniadau diogelu lleol a nodi ble y gall cynghorau wneud gwelliannau. Nodir canfyddiadau manwl yr arolwg ar gyfer y Cyngor yn Atodiad 1, er ein bod yn cynnwys casgliadau pennawd lle bo'n berthnasol ym mhob un o'r adrannau canlynol.

## Mae'r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli ar gyfer monitro a yw'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau o ran diogelu plant yn cynnwys rhai gwendidau y mae'n rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy

**7.** Mae'r Cyngor wedi bod yn mynd drwy gyfnod o newid ers i Lywodraeth Cymru benodi pum comisiynydd yn lle gweithrediaeth y Cyngor yn ystod gwanwyn 2011. Mae llawer o bolisïau ac arferion wedi newid ers hynny; ac mae'r sefyllfa yn dal i fynd rhagddi. Mae'r Cyngor wrthi'n symud o ganolbwyntio'n benodol ar gamau adferol i sicrhau bod ei Arferion Gofal Plant yn cyrraedd y safon, i gam datblygu a gwella trefniadau diogelu yn fwy cyffredinol.

**8.** Mae gan y Cyngor Fwrdd Diogelu Corfforaethol sy'n gyfrifol am sicrhau bod prif ddyletswyddau'r Cyngor o ran diogelu plant ac oedolion agored i niwed yn cael eu cyflawni'n ddigonol. Mae llawer o bolisïau a gweithdrefnau cysylltiedig wedi cael eu hadolygu ar gam 'adfer' y gwelliannau o fewn y Cyngor ac mae cynllun ar waith i roi 'pecynnau cymorth' i reolwyr er mwyn egluro eu rôl yn y broses o ddilyn y prif bolisïau a gweithdrefnau cysylltiedig.

**9.** Mae'n amlwg bod y dull corfforaethol o ddiogelu wedi gwella'r cyswllt rhwng y gwasanaethau, sy'n debygol o wella diogelwch i blant, er ei bod o bosibl yn rhy gynnar i farnu i ba raddau y mae hyn yn arwain at newid arferion. Mae polisi'r Cyngor ar ddiogelu plant wedi cael ei fabwysiadu ac mae'n glir ac wedi'i ysgrifennu'n dda. Mae gan y Cyngor Gynllun Gweithredu Polisi Diogelu er mwyn sicrhau bod y polisi yn cael ei weithredu'n llawn. Eto i gyd, mae hynt y cynllun gweithredu, a fyddai'n arwain at fabwysiadu'r polisi ym mhob agwedd ar waith cynllunio gwasanaethau a gweithrediadau, wedi dioddef peth oedi yn erbyn dyddiadau targed gwreiddiol, yn rhannol achos gwaith y Cyngor ar orffen Gwerthusiadau Swyddi.

**10.** Mae Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor yn cynnwys diogelu plant fel eitem a cheir cofrestrau risg adrannol. Fodd bynnag, roedd nifer o'r staff allweddol a holwyd gennym o'r farn nad yw systemau rheoli risg wedi'u hymgorffori'n llawn yng ngweithdrefnau'r Cyngor eto er mwyn lliniaru risgiau i ddiogelu plant a phobl ifanc. Felly, ni fyddai'n ddiogel dod i'r casgliad bod gweithdrefnau rheoli risg yn gynhwysfawr nac ychwaith fod yr holl risgiau wedi'u lliniaru'n llawn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod yr uwch reolwyr a holwyd gennym yn ymwybodol o'r angen am welliannau yn y maes hwn.

**11.** Gan mai dim ond yn ddiweddar y mae rhai o'r trefniadau llywodraethu a rheoli hyn ar gyfer diogelu plant wedi'u cyflwyno a'u bod yn y cylch cyntaf o ran eu defnydd, nid ydynt wedi profi eu hunain eto. Yn ein barn ni, rhaid i'r Cyngor ymdrin â'r gwendidau a nodir uchod yn gyflym a sicrhau ei fod yn gwerthuso'r trefniadau newydd er mwyn bodloni ei hun fod y gwelliannau a ddymunir yn cael eu cyflawni.

## Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro a gwerthuso ei gyfrifoldebau diogelu plant yn cynnwys rhai gwendidau y mae'n rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy

**12.** Cynhelir arfarniad blynyddol o bob ysgol ym maes diogelu gan ddefnyddio cerdyn adrodd safonol. Hefyd, cyflwynir adroddiadau ar berfformiad ar lefel Gwasanaethau Plant ac mae'n cynnwys adrodd ar ddangosyddion perfformiad statudol. Eto i gyd, heblaw am Wasanaethau Cymdeithasol, nid yw cynlluniau busnes yn cynnwys amcanion na mesurau diogelu. Mae angen i dargedau ym maes diogelu gael eu hamlinellu ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau, ond mae cynlluniau i wneud hynny yng Nghynllun Gweithredu'r Polisi Diogelu. O fewn trefniadau rheoli perfformiad cyffredinol y Cyngor, sydd wedi bod ar waith ers tua 18 mis, cynhelir cylch heriau gwasanaeth sy'n cynnwys swyddogion ac aelodau ddwywaith y flwyddyn.

**13.** Nid yw diogelu plant wedi ymddangos ar agenda graffu yn y 12 mis diwethaf, er gwaethaf datblygu a chyflwyno'r polisi diogelu. Nid yw trefniadau newydd, a gynigiwyd yn y polisi i sicrhau y creffir yn effeithiol ar faterion diogelu wedi'u pennu'n derfynol eto.

**14.** Mae uwch reolwyr yn ymwybodol bod y rhan fwyaf o ddata a gesglir ac a ddefnyddir ar hyn o bryd yn ymwneud â dangosyddion perfformiad statudol gofal plant, ac maent yn cydnabod bod angen i waith sicrhau ansawdd gael ei ddatblygu'n llawnach y tu hwnt i gasglu dangosyddion perfformiad ac adrodd arnynt. Bydd hyn yn sicrhau bod perfformiad ac arferion yn cael eu gwerthuso'n llawnach. Mae Cerdyn Sgorio Diogelu Corfforaethol wrthi'n cael ei ddatblygu gydag ystod fwy cynhwysfawr o wybodaeth am berfformiad sy'n rhoi darlun mwy cyfoethog o ansawdd gwaith diogelu plant. Gallai hyn fod yn rhan o waith y Bwrdd Diogelu Corfforaethol. Dylid achub ar y cyfle i gynnwys y Bwrdd Lleol Diogelu Plant rhanbarthol yn hyn o beth.

**15.** Mae lefel dda o ddealltwriaeth ymhlith staff o'r newidiadau diweddaraf ym maes deddfwriaeth. Mae'r camau sydd eu hangen er mwyn diweddaru gweithdrefnau'n llawn fel y gellir rhoi system ddiwygiedig y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith yn effeithiol yng Nghynllun Gweithredu'r Polisi Diogelu ac mae adran Adnoddau Dynol y Cyngor yn gweithio ar adran recriwtio diogel i'w hychwanegu at y polisi recriwtio cyfredol. Nid yw'r polisi recriwtio diogel llawn na'r gweithdrefnau cysylltiedig wedi'u cyhoeddi eto, ac mae gan 13 o gamau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu'r Polisi Diogelu sy'n ymwneud â recriwtio diogel ddyddiadau targed sydd wedi'u pennu drwy gydol 2014. Mae angen ymdrin â'r maes hwn ar fyrder fel y gall y Cyngor fod yn siŵr bod arferion recriwtio diogel ar waith.

16. O ran monitro ymwybyddiaeth a chymhwysedd staff mewn perthynas â diogelu, dengys cofnod hyfforddi'r Cyngor fod 168 aelod o staff wedi mynychu sesiynau hyfforddi penodol ym maes diogelu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda 39 arall yn mynychu sesiwn sefydlu gorfforaethol, sy'n cynnwys amser ar ddiogelu. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddata ar berfformiad yn erbyn targed y Cyngor o 100 y cant.

17. O'n harolwg, nodwyd bod mwy o ymatebwyr ar Ynys Môn yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ar sut mae eu rôl/swydd yn cyfrannu at y gwaith o ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc na chyfartaledd yr arolwg, sef 98 y cant o gymharu â 95 y cant. Eto i gyd, roedd llai o ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod eu cyfrifoldebau ym maes diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc wedi cael eu hegluro pan wnaethant ddechrau ar eu rôl na chyfartaledd yr arolwg, sef 63 y cant o gymharu â 75 y cant.

## Mae dull y Cyngor o nodi a gweithredu ar welliannau o ran ei drefniadau diogelu yn cynnwys rhai gwendidau y mae'n rhaid iddo ymdrin â hwy

18. Mae trefniadau diogelu'r Cyngor wedi bod yn cael eu hadolygu ers mabwysiadu'r Polisi Diogelu cyfredol ym mis Rhagfyr 2012. Dywed y polisi hwnnw y caiff ei adolygu bob tair blynedd neu os bydd unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth, neu er mwyn ystyried newidiadau mewn arferion gwaith a all ddeillio o ddigwyddiadau neu honiadau. Hefyd, er mwyn sicrhau bod arferion diogelu yn effeithiol, bydd y Cyfarwyddwr Cymuned yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol er mwyn rhoi rhaglen archwilio flynyddol ar waith. Mae Rhaglen Archwilio Mewnol 2014-15 yn debygol o gynnwys diogelu.

19. Cynllun Gweithredu'r Polisi Diogelu yw'r ffordd y caiff y gwelliannau angenrheidiol i drefniadau diogelu eu dwyn ynghyd a'u cynllunio. Fodd bynnag, nid yw'r holl ddyddiadau targed yn cael eu bodloni a fydd yn arwain at oedi wrth bennu'r dulliau adrodd rheolaidd gofynnol.

20. At hynny, ceir saith pwynt gweithredu yn y cynllun sy'n ymwneud â hyfforddi staff ac Aelodau ym maes diogelu a'r angen i gofnodi perfformiad ar system Northgate. Unwaith eto, mae'r gwaith hwn 'yn mynd rhagddo' ac mae angen ei gwblhau ar fyrder er mwyn cyflawni'r ymrwymiad i sicrhau y gall pob aelod o staff gyflawni gwaith diogelu plant yn ddigonol. Mae'r Cyngor ychydig islaw cyfartaledd yr arolwg ar gyfer nifer y bobl sydd wedi cael hyfforddiant ym maes diogelu yn y chwe mis diwethaf - 31 y cant o gymharu â chyfartaledd ein harolwg sef 32 y cant - ond mae ychydig uwchlaw cyfartaledd yr arolwg ar gyfer nifer y bobl nad ydynt byth wedi cael hyfforddiant ym maes diogelu, sef 7 y cant o gymharu â 10 y cant.

21. Er bod ymrwymiad clir i wella, a thystiolaeth bod newidiadau yn cael eu cyflwyno, bu'r cynnydd yn araf. Mae cyfle, fel rhan o broses ailstrwythuro a gyflwynir maes o law i ystyried y ffordd orau i roi rheolaeth y Cyngor ar Ddiogelu yn brif-ffrwd i roi hwb i'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo, a sicrhau bod gwelliannau angenrheidiol eraill yn cael eu cyflwyno.


# Cynigion ar gyfer gwella

| | |
|---|---|
| C1 | Dylai trefniadau ar gyfer craffu'n effeithiol ar bob agwedd ar ddiogelu plant gael eu pennu'n derfynol a'u gweithredu cyn gynted â phosibl. |
| C2 | Dylai ymwybyddiaeth o gysyniad a gweithdrefnau system rheoli risg gynhwysfawr gael ei chynnwys yn y gweithdrefnau craffu newydd. |
| C3 | Dylid creu rôl newydd Prif Swyddog ym maes Diogelu a'i chyflwyno mewn man priodol yn y strwythur Rheoli Corfforaethol. |
| C4 | Dylai'r rhaglen ar gyfer adolygu a diweddaru'r holl weithdrefnau perthnasol, fel y'u rhestrir yng Nghynllun Gweithredu'r Polisi Diogelu, gael ei chwblhau cyn gynted â phosibl. |
| C5 | Dylai gwaith ar bolisi a gweithdrefn recriwtio diogel effeithiol gael ei gwblhau a dylai'r weithdrefn honno gael ei rhoi ar waith ar fyrder. |
| C6 | Dylai'r rhaglen hyfforddi ym maes diogelu gael ei phennu'n derfynol a'i rhoi ar waith ym mhob rhan o'r Cyngor gan fonitro lefelau presenoldeb yn llawn cyn gynted â phosibl. |
| C7 | Dylai gwaith ar y Cerdyn Sgorio Diogelu Corfforaethol gael ei gwblhau cyn gynted â phosibl a dylai gynnwys Cardiau Sgorio Diogelu penodol o bob Cyfarwyddiaeth a maes gwasanaeth. |
| C8 | Dylid achub ar bob cyfle i ddysgu o brofiad y cynghorau a'r sefydliadau eraill o fewn y BLlDP rhanbarthol newydd. |
| C9 | Dylai'r gwaith o bennu proses graffu ffurfiol reolaidd ym maes diogelu fod yn flaenoriaeth ochr yn ochr â chadarnhau gwaith Archwilio Mewnol rheolaidd ar ddiogelu. |

# Atodiad 1


## Crynodeb o ganfyddiadau'r arolwg

Arolwg o holl Gynghorau Cymru ar ddiogelu plant ac amddiffyn pobl ifanc: Ynys Môn





| | Cyfanswm | Heb ofyn | Dim Ateb | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 42 | - | 1 | 24 | 16 | - | - | 1 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 59% | 39% | | | 2% |
| Cymru Gyfan | 1996 | - | 6 | 1235 | 664 | 53 | 12 | 26 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 62% | 33% | 3% | 1% | 1% |


* Fel bod yr adroddiad yn haws i'w ddarllen, dangosir canrannau i'r pwynt canran cyfan agosaf. Felly, mae'n bosibl nad yw'r ffigurau unigol yn creu cyfanswm o 100% yn union.





| | Cyfanswm | Heb ofyn | Dim Ateb | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 42 | - | 1 | 10 | 16 | 11 | 2 | 2 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 24% | 39% | 27% | 5% | 5% |
| Cymru Gyfan | 1996 | - | 10 | 716 | 773 | 358 | 104 | 35 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 36% | 39% | 18% | 5% | 2% |





| | Cyfanswm | Heb ofyn | Dim Ateb | Y Prif Weithredwr | Y Tîm Rheoli Corfforaethol | Y Pennaeth Gwasanaeth yn fy adran | Fy rheolwr llinell | Arweinydd y Cyngor | Yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol /Addysg | Pob un o'r uchod | Ddim yn gwybod | Rhywun arall nad yw wedi'i restru, nodwch isod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 42 | - | 2 | 7 | 2 | 4 | 1 | - | 2 | 21 | 2 | 1 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 18% | 5% | 10% | 3% | | 5% | 53% | 5% | 3% |
| Cymru Gyfan | 1996 | - | 68 | 223 | 34 | 124 | 47 | 19 | 69 | 1231 | 115 | 66 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 12% | 2% | 6% | 2% | 1% | 4% | 64% | 6% | 3% |





| | Cyfanswm | Heb ofyn | Dim Ateb | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 42 | - | - | 30 | 12 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 71% | 29% |
| Cymru Gyfan | 1996 | - | 13 | 1337 | 646 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 67% | 33% |





| | Cyfanswm | Heb ofyn | Dim Ateb | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 42 | - | 1 | 20 | 21 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 49% | 51% |
| Cymru Gyfan | 1996 | - | 13 | 881 | 1102 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 44% | 56% |




| | Cyfanswm | Heb ofyn | Dim Ateb | 0-6 mis yn ôl | 7-12 mis yn ôl | 1-2 flynedd yn ôl | Mwy na dwy flynedd yn ôl | Methu cofio | Byth wedi cael hyfforddiant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 42 | - | - | 13 | 11 | 11 | 2 | 2 | 3 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 31% | 26% | 26% | 5% | 5% | 7% |
| All Wales | 1996 | - | 4 | 644 | 462 | 374 | 199 | 121 | 192 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 32% | 23% | 19% | 10% | 6% | 10% |





| | Cyfanswm | Heb ofyn | Dim Ateb | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 42 | - | - | 20 | 20 | 1 | - | 1 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 48% | 48% | 2% | | 2% |
| Cymru Gyfan | 1996 | - | 10 | 1266 | 628 | 27 | 4 | 61 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 64% | 32% | 1% | 0% | 3% |




| | Cyfanswm | Heb ofyn | Dim ateb | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf | Ddim yn ymwybodol o unrhyw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 42 | - | - | 11 | 25 | 2 | - | 4 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 26% | 60% | 5% | | 10% |
| Cymru Gyfan | 1996 | - | 11 | 722 | 911 | 76 | 5 | 271 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 36% | 46% | 4% | 0% | 14% |





| | Cyfanswm | Heb ofyn | Dim Ateb | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 42 | - | - | 13 | 23 | 3 | - | 3 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 31% | 55% | 7% | | 7% |
| Cymru Gyfan | 1996 | - | 20 | 665 | 1000 | 74 | 3 | 234 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 34% | 51% | 4% | 0% | 12% |





| | Cyfanswm | Heb ofyn | Dim Ateb | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 42 | - | 1 | 5 | 20 | 4 | 2 | 10 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 12% | 49% | 10% | 5% | 24% |
| Cymru Gyfan | 1996 | - | 17 | 491 | 895 | 182 | 19 | 392 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 25% | 45% | 9% | 1% | 20% |





| | Cyfanswm | Heb ofyn | Dim Ateb | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 42 | - | - | 8 | 17 | 5 | 2 | 10 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 19% | 40% | 12% | 5% | 24% |
| Cymru Gyfan | 1996 | - | 20 | 344 | 794 | 339 | 79 | 420 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 17% | 40% | 17% | 4% | 21% |





| | Cyfanswm | Heb ofyn | Dim ateb | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf | Ddim yn gwybod | Ddim yn Gymwys |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 42 | - | - | 12 | 24 | 3 | - | 3 | - |
| Barn a fynegwyd * | | | | 29% | 57% | 7% | | 7% | |
| Cymru Gyfan | 1996 | - | 39 | 701 | 942 | 114 | 14 | 160 | 26 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 36% | 49% | 6% | 1% | 8% | 1% |




| | Cyfanswm | Heb ofyn | Dim ateb | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf | Ddim yn gwybod | Ddim yn Gymwys |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 42 | 20 | 5 | 10 | 2 | - | - | - | 5 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 83% | 17% | | | | 42% |
| All Wales | 1996 | 1399 | 34 | 435 | 92 | 3 | - | 5 | 28 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 81% | 17% | 1% | | 1% | 5% |




| | Cyfanswm | Heb ofyn | Dim ateb | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 42 | - | - | 25 | 15 | 2 | - | - |
| Barn a fynegwyd * | | | | 60% | 36% | 5% | | |
| Cymru Gyfan | 1996 | - | 29 | 1174 | 683 | 64 | 8 | 38 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 60% | 35% | 3% | 0% | 2% |




| | Cyfanswm | Heb ofyn | Dim ateb | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 42 | - | 1 | 4 | 21 | 2 | 3 | 11 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 10% | 51% | 5% | 7% | 27% |
| Cymru Gyfan | 1996 | - | 27 | 269 | 816 | 213 | 29 | 642 |
| Barn a fynegwyd * | | | | 14% | 41% | 11% | 1% | 33% |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk

This page is intentionally left blank

| ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **DYDDIAD:** | **06 Gorffennaf, 2015** |
| **PWNC:** | **SGORFWRDD CORFFORAETHOL – CHWARTER 4 (2014/15): MATERION YN WEDDILL ER YSTYRIAETH SGRIWTINI** |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD ALWYN ROWLANDS** |
| **AWDUR ADRODDIAD:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Rheolwr Sgriwtini Dros Dro**<br>**01248752039**<br>**agdce@anglesey.gov.uk** |

## 1.0 ARGYMHELLION

1.1 I'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi'r cyd-destun a'r gweithredu lliniarol sy'n berthnasol i berfformiad y 3 Dangosydd Perfformiad Allweddol fel yr amlinellir ym mharagraffau 3.1, 3.2 ad 3.3 o'r adroddiad hwn;

1.2 Ystyried y priodoldeb o wneud argymhellion pellach i'r Pwyllgor Gwaith.

## 2.0 RHESYMAU

2.1 Gwelwyd y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mai, 2015 yn penderfynu cyfeirio perfformiad Chwarter 4 chwe Dangosydd Perfformiad yn Sgorfwrdd Corfforaethol y Cyngor (2014/15) er craffu gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Rhoddwyd ystyriaeth i dri o'r Dangosyddion Perfformiad yma (manylir isod) yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (a gynhaliwyd ar 10 Mehefin, 2015):

- **SCC/041a –** y ganran o blant cymwys, perthnasol a phlant a oedd yn berthnasol gynt ac sydd â'r cynlluniau llwybr gofynnol;
- **HHA/017a –** y nifer o ddyddiau ar gyfartaledd y mae'r holl deuluoedd digartref yn eu treulio mewn llety gwely a brecwast;
- **23 & 24 –** y nifer o ddyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro: cynradd ac uwchradd.

2.2 Rhoddir ystyriaeth i'r 3 Dangosydd Perfformiad yn weddill yn yr adroddiad hwn:

- **SCA/018b** – y ganran o bobl sy'n gofalu am oedolion sydd wedi cael asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn;

- **LCL/004** – y nifer o ddeunyddiau llyfrgell a fenthyciwyd yn ystod y flwyddyn;
- **LCS/002b** – y nifer o ymweliadau i ganolfannau chwaraeon a hamdden yr Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn pryd cymerodd yr ymwelwyr ran mewn gweithgareddau corfforol.

## 3.0 TRAFODAETH

Isod mae crynodeb o'r cyd-destun a'r gweithredu lliniarol mewn perthynas â'r 3 Dangosydd Perfformiad Allweddol dan sylw ac sydd wedi'u paratoi gan y meysydd Gwasanaeth perthnasol:

### 3.1 Y ganran o bobl sy'n gofalu am oedolion sydd wedi cael asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn [SCA/018b]

Fel y cofnodwyd yn y dangosydd, gwelwyd y dangosydd hwn yn tanberfformio yn ystod 2014/15, nid yn unig yr unigolion rheiny a gytunwyd i gael asesiad ond hefyd y sawl a gwrthododd gael asesiad o'u hanghenion eu hunain. Yn ei hanfod, 'roedd y rhain yn unigolion nad oeddent yn teimlo'r angen am unrhyw gymorth ychwanegol ac o ganlyniad nad oeddent yn dymuno cael eu hasesu. Yn ystod 2014/15, o'r rhai a gytunodd i dderbyn asesiad 564 (neu 92%) dderbyniodd yr asesiad hwnnw yn y flwyddyn. Daeth y ganran i lawr i 57.1% ar ôl cymryd y rheiny wrthododd asesiad (sef 348) i ystyriaeth. Y ffactor yma arweiniodd at danberfformiad yn ystod 2014/15.

Ar lefel genedlaethol, 'roedd perfformiad ar y lefel hon llynedd yn lleoli Ynys Môn ymhell uwchben y cyrhaeddiad cenedlaethol o 39.4%.

### 3.2 Y nifer o ddeunyddiau llyfrgell a fenthyciwyd yn ystod y flwyddyn [LCL/004]

<u>Cyd-destun</u>: Mae nifer y deunyddiau llyfrgell a fenthyciwyd yn ystod y flwyddyn yn ymddangos yn GOCH ar y Cerdyn Sgorio gyda nifer y deunyddiau (sef 287.5k) i lawr 21.5k o'i gymharu â 309k ym 2013/14. O'i gymharu â chanlyniadau cenedlaethol 2013/14, byddem yn gweld bod y dangosydd hwn yn y chwartel isaf ar gyfer y flwyddyn.

Er bod y dangosydd uchod wedi dirwyio, gwelwyd cynnydd o 73k yn nifer yr ymweliadau â'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd (Dangosydd 16 ar y Sgorfwrdd Corfforaethol) a hynny o 219k i 292k yn ystod y flwyddyn.

Ymateb y Gwasanaeth:

Bydd y Gwasanaeth yn adrodd ar fenthyciadau "*e-loans"* y flwyddyn yma (llyfrau electroneg). Rhagwelir y bydd gwelliant sylweddol yn y ffigyrau benthyciadau yn enwedig gyda lansiad gwasanaeth e-adnoddau newydd sydd ar fin cychwyn drwy'r Consortiwm Pwrcasu Cymru Gyfan (Bolinda digital: e-books, e-audio).

Gan fod cysylltiad clir rhwng y Gronfa Lyfrau (*"book fund"*) a'r ffigyrau benthyciadau, gwelwn fod Cronfa Lyfrau Môn yn isel fel y nodwyd yn adroddiad CyMAL ar berfformiad y Gwasanaeth ym 2013/14:

*"….[Anglesey] fails to achieve the target for expenditure on stock for adult users (part 6 (i) (a)) – it is a very weak performance throughout the period, and it is not surprising therefore that the stock replenishment target for adult stock is not met either (part (iv) (a)). Evidence shows that in time this affects usage of libraries, unless remedial action is taken…"*

(CyMAL Assessment Annual Return, 2013/14).

Er mwyn gwella hyn ar gyfer eleni ac er mwyn gwella'n perfformiad yn erbyn y Dangosydd Perfformiad yma a'r safonau cenedlaethol, gwnaed cais gan y Pennaeth Gwasaneth (Dysgu) i ddefnyddio arian canolog wrth gefn i ychwanegu at y gronfa lyfrau yn ystod 2015/16. Gwrthodwyd y cais.

Rhaid nodi nad yw'r holl o ymwelwyr ein llyfrgelloedd yn fenthycwyr ym mhob achos er i'r Gwasanaeth annog aelodaeth. Darperir ystod eang o wasanaethau eraill gan ein llyfrgelloedd ee defnyddio'r cyfrifiaduron, gwneud ymholiadau, gofyn cyngor a gwneud ymchwil.

**3.3 Y nifer o ymweliadau i ganolfannau chwaraeon a hamdden yr Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn pryd cymerodd yr ymwelwyr ran mewn gweithgareddau corfforol [LCS/002b]**

Mae'r dangosydd yn dangos tanberfformiad o 29,000 mewn perthynas â nifer yr ymweliadau â Chanolfannau Hamdden yr Awdurdod yn ystod 2014/15. Gellir crynhoi'r rhesymau am y tanberfformiad hwn fel a ganlyn:

- Ni chofnodwyd yn gywir nifer y disgyblion ysgol a fynychodd Canolfannau Hamdden Caergybi ac Amlwch yn ystod Chwarter 4 oherwydd problem dechnegol gyda'r system llogi electronig.

  Amcangyfrifir (yn seiliedig ar gofnodion blaenorol) y byddai o gwmpas 4000 o ddisgyblion ysgol wedi ymweld â Chanolfan Hamdden Caergybi yn ystod Chwarter 4; byddai nifer yr ymweliadau â Chanolfan Hamdden Amlwch wedi bod o gwmpas 3250.

  Mae'r rhifau gwirioneddol yn cael eu gwirio ar hyn o bryd gyda staff y Canolfannau Hamdden.

- 'Roedd Canolfan Hamdden Caergybi ar gau am chwe wythnos yn ystod Chwarter 4 er mwyn gwneud gwaith i wella'r cyfleusterau (Neuadd Chwaraeon, Ystafelloedd Newid y Pwll Nofio a'r Ystafelloedd Ffitrwydd) fel rhan o'r Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

  Yn seiliedig ar nifer yr ymweliadau i Ganolfan Hamdden Caergybi ar gyfartaledd yn ystod 2014/15, amcangyfrifir y byddai 18,000 – 18,500 o bobl wedi ymweld â Chanolfan Hamdden Caergybi yn ystod y cyfnod hwn pe na bai wedi cau ar gyfer gwaith gwella hanfodol.

O gofio natur eithriadol y materion hyn nid yw'r Gwasanaeth Adfywio Economiadd a Chymunedol yn ystyried bod angen cymryd unrhyw gamau lliniarol penodol.

Awdur: Anwen Davies
Teitl Swydd: Interim Scrutiny Manager
Dyddiad: 11 Mehefin, 2015

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR SGRWTINI CORFFORAETHOL** |
| **Dyddiad:** | **6ed o ORFFENNAF, 2015** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2014/15 (Drafft 1af)** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **COUNCILLOR ALWYN ROWLANDS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **n/a** |

| A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau |
|---|

**1.1** Mae angen i'r Cyngor gyhoeddi Dogfen Cyflawni Blynyddol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn, dogfen sy'n cynnwys prif flaenoriaethau ac Amcanion Gwella yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn fel amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol 4 blynedd.

**1.2** Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r cyngor hefyd lunio a chyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad blynyddol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn - dogfen sydd yn dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwellianau a blaenoriaethau amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol.

**1.3** Mae'r papur hwn yn amlinellu drafft cychwynol ein Adroddiad Perfformiad sy'n edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor ar gyfer 2014/15

**1.4** Mae'r Adroddiad yn edrych ar gynnydd y cyngor yn erbyn ein Amcanion Gwella ar gyfer 2014/15 fel amlinellwyd drwy ein 7 maes allweddol yn y Ddogfen Cyflawni Blynyddoil 2014/15:-

- Ein bod yn Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hyn
- Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi
- Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion
- Cynyddu ein Opsiynau Tai a Lleihau Tlodi
- Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd
- Canolbwyntio ar ein Cwsmeriaid, Dinasyddion a Bro
- Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

| | |
|---|---|
| **1.5** | Mae'r drafft hwn yn edrych ar yr allbynnau a'r canlyniadau yn erbyn yr hyn y dywedasom y byddem yn ei gyflawni yn ystod 2014/15 yn erbyn y 7 thema allweddol uchod. |
| **1.6** | Rhan allweddol o'r Adroddiad Perfformiad yw asesiad o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n edrych ar berfformiad blwyddyn ar flwyddyn ac wedi'w feincnodi yn erbyn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ein llwyddiannau a meysydd lle mae gwendidau fel a nodwyd drwy y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) a Mesurau Atebolrwydd Perfformiad (MACau). Mae dadansoddiad cyffredinol hefyd yn edrych ar ddangosyddion Perfformiad allweddol ar gyfer gwasanaethau fel y mesurir drwy'r Setiau Data Gwella Gwasanaeth (DGG). |
| **1.7** | Fodd bynnag, nid yw Gwybodaeth Perfformiad yn cael ei ryddhau gan Llywodraeth Cymru ar gyfer ei gyhoeddi a'i ddadansoddi cyn mis Awst / Medi bob blwyddyn, ac fel y cyfryw bydd y gwybodaeth cymharol hwn yn cael ei gynnwys yn y fersiwn derfynol o'r adroddiad fydd yn cael ei gyflwyno a'i gyhoeddi erbyn y dyddiad statudol yn mis Hydref 2015. |
| **1.8** | Dylid nodi felly bod yr holl wybodaeth Dangosyddion Perfformiad a gynhwysir yn yr adroddiad drafft yn seiliedig ar ein cyfrifiadau mewnol ein hunain ac nid ydynt, hyd yma, wedi cael eu gwirio gan Llywodraeth Cymru. |
| **1.9** | Gofynir i'r Pwyllgor felly :<br>• Graffu canlyniadau a'r allbynnau fel yr amlinellir yn yr Adroddiad Perfformiad a nodi unrhyw faterion i'w dadansoddi au herio ymhellach.<br>• Cytuno bod fersiwn terfynol o'r Adroddiad Perfformiad 2014/15 i'w gysidro ymhellach gan y Pwyllgor Gwaith cyn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn a'i gyhoeddi cyn y dyddiad statudol yn mis Hydref. |
| **B -** | **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
| | d/b |
| **C -** | **Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith??** |
| | d/b |
| **CH -** | **A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| | Ydi |
| **D -** | **A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| | Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**<br>(mandadol) | Cytundeb bod angen unioni strwythur a chynnwys yr adroddiad wedi derbyn data DPC ym mis Awst / Medi. |

| | | |
|---|---|---|
| 2 | **Cyllid / Adran 151**<br>(mandadol) | Fel yr uchod |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro**<br>(mandadol) | Fel yr uchod |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | Bydd y fersiwn terfynol yn datgan cyrhaeddiad yn erbyn ein CC |
| 7 | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2014/15 (Drafft) | | |
| **FF - FF – Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| • Dogfen Cyflawni Blynyddol 2014/15<br>• Cynllun Busnes Corfforaethol 2013/17 | | |

# Cyngor Sir Ynys Môn

# ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2014/15

Cyngor Sir Ynys Môn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
Ffon: (01248) 752111

## ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2014-2015

## CYFLWYNIAD

Y nod ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn fel y nodwyd yn ein Cynllun Corfforaethol 2013-2017 yw y erbyn 2017-

**“Y byddwn yn gyngor proffesiynol sy’n cael ei redeg yn dda, yn arloesol yn ein hymagwedd ac yn edrych tuag allan, yn ymrwymedig i ddatblygu ein pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o ansawdd da, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ein dinasyddion”**

Amlinellwyd sut y byddem yn cyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol yn ein Dogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2014-15. Bydd y ddogfen hon felly yn amlinellu sut y gwnaethom gyflawni ar ein haddewidion dros y deuddeg mis diwethaf (2014/15) ac yn dangos ein parodrwydd i yrru a chyflawni ein dyletswydd o sicrhau gwelliant parhaus, sef yr hyn a ddisgwylir o bob Awdurdod Lleol yn unol â Mesur Llywodraeth Cymru 2009.

Dyma oedd 7 maes allweddol yr oeddem yn canolbwyntio ar eu gwella yn ystod 2014-15, fel yr amlinellwyd yn ein Cynllun Corfforaethol 4 blynedd (2013-2017) ac yn ein Dogfen Gyflawni Flynyddol (2014/15) oedd: -

1. Ein bod yn Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn
2. Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi
3. Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion
4. Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi
5. Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd
6. Canolbwyntio mwy ar y Cwsmer, y Dinesydd a’r Gymuned
7. Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Yn yr adroddiad hwn, byddwn yn edrych yn ôl ar yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud dan y saith maes thematig allweddol hyn ac yn cymharu hynny gyda’r hyn a wnaethpwyd mewn gwirionedd, yn ogystal â dadansoddi’r data perfformiad sy'n dangos ac sy’n cefnogi’r hyn a wnaed gennym i gyflawni ein canlyniadau yn lleol a chenedlaethol.

DRAFT

# Ein bod yn Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn

Mae pobl yn byw'n hirach ac o’r herwydd, rydym yn disgwyl gweld cynnydd o tua 70 % yn nifer y bobl dros 85 sy'n byw ar yr Ynys dros y 10 mlynedd nesaf *. Mae gan Ynys Môn un o'r poblogaethau pobl hŷn mwyaf yng Nghymru. Mae cynnydd hefyd yn niferoedd y bobl sydd â chyflyrau cymhleth tymor hir gan gynnwys dementia. Er mwyn darparu'r lefel angenrheidiol o gefnogaeth sydd ei hangen i gwrdd â'r cymhlethdodau cynyddol yn y galw (yn nhermau cyllid a gweithlu), mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo newid y ffordd y mae'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2014/15?**

| **Ein Haddewid: Byddwn yn datblygu ac yn sefydlu ar y cyd â phartneriaid 2 gynllun tai gofal ychwanegol yng Ngogledd a chanol yr Ynys ac yn cynllunio ar gyfer cynllun tai gofal ychwanegol pellach yn Ne’r Ynys drwy:** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Nodi safleoedd addas a phartner datblygu, a chytuno ar fodel gwasanaeth a dylunio ar gyfer Gofal Ychwanegol mewn cydweithrediad ag anghenion y gymuned leol | • Cynhyrchwyd Datganiad o Sefyllfa’r Farchnad ynghylch y sefyllfa gyfredol a chwblhawyd Asesiad Angen. Yn ychwanegol at hyn, cynhyrchwyd manyleb ar gyfer Model Gwasanaeth a meini prawf cymhwyster mewn perthynas â Gofal Ychwanegol ac adroddwyd ar arfer orau o ran ailfodelu Tai Gwarchod yn Ofal Ychwanegol ac ar gyfer symud preswylwyr, gan gynnwys cynllun Adleoli.<br>• Partner, Model Gwasanaeth a'r safle i gyd mewn lle ar gyfer Llangefni datblygiad Gofal Ychwanegol arfaethedig |
| Sicrhau bod Cynlluniau, gan gynnwys caniatâd angenrheidiol, wedi eu sefydlu ar gyfer dechrau adeiladu Tai Gofal Ychwanegol | • Cwblhawyd gwerthusiad o’r safleoedd oedd ar gael a chynhyrchwyd cynigion terfynol mewn perthynas â’r safleoedd arfaethedig a’r cynlluniau cyllido ar gyfer Amlwch a Llangefni (Hydref 2014)<br>• Fel yr uchod, cynlluniau ar gyfer Gofal Ychwanegol Llangefni yn mynd rhagddynt yn dda, cais cynllunio i'w gyflwyno yn yr Haf 2015 |
| Gweithredu'r opsiwn mwyaf ymarferol o safbwynt ariannol ar gyfer Llawr Y Dref, Llangefni fel y | • Cynhaliwyd Gwerthusiad o’r Opsiynau ar gyfer Gofal Ychwanegol a datblygwyd Cynllun |

DRAFT

| | |
|---|---|
| nodwyd hynny mewn Gwerthusiad o’r Opsiynau | Busnes.<br>• Safleoedd sy'n cael eu ffafrio yn cael eu hystyried. Mae gwaith pellach angen ei wneud ar drafod argaeledd tir**.** |
| Nodi’r posibiliadau o ran datblygu a safle ar gyfer Gofal Ychwanegol yn Ne’r Ynys | • Cwblhawyd asesiad o anghenion lleol (Tachwedd 2014) ac asesiad o’r safleoedd a oedd ar gael (Rhagfyr 2014). |

| **Ein Haddewid: Gwella’r amrediad o wasanaethau sydd ar gael yn y gymuned ar gyfer pobl hŷn a’u hargaeledd gan leihau'r ddibyniaeth ar gartrefi gofal preswyl drwy a’r galw amdanynt:** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Cytuno ar strategaeth a chynllun clir i alluogi pobl hŷn i aros yn eu cartrefi am gyfnod hwy, fel y nodwyd yn y Strategaeth ‘Does Unman yn debyg i Gartref’ | • Strategaeth anffurfiol wrthi’n cael ei gweithredu<br>• Yn ymarferol mae camau clir i gyflawni annibyniaeth wedi cael eu rhoi ar waith gan gynnwys cynyddu opsiynau llety, cryfhau gwasanaethau ail-alluogi a gwella opsiynau gofal y sector annibynnol. |
| Datblygu, cytuno a dechrau gweithredu’r model ‘Hyb Cymunedol' erbyn Rhagfyr 2014, lle bydd ystod eang o gefnogaeth a gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan gymunedau lleol (ac yn aml yn anffurfiol) yn cael eu gwella a’u "cyd-gysylltu" fel bod gwell cefnogaeth a gofal yn cael ei darparu i'r person hŷn mewn angen gan a thrwy'r gymuned leol. | • Model Hyb Cymunedol yn weithredol sy’n cynnwys y Canolfannau Heneiddio’n Dda yn Amlwch a Llangefni gyda Chydlynydd Ardal Leol yn ardal Seiriol.<br>• Adeiladwyd ar yr egwyddor o Canolbwynt Cymuned fel rhan o'r Tendr Gofal Ychwanegol. Mae'r egwyddor hon yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Gofal Ychwanegol Llangefni. |

DRAFT

| **Ein Haddewid: Ailddatblygu ein gwasanaeth ailalluogi i gefnogi a helpu pobl i wella ac adennill annibyniaeth trwy ddefnyddio cynlluniau cymorth sy'n seiliedig ar ganlyniadau trwy:** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Datblygu a sefydlu rhaglen ail-lluogi sy'n galluogi pobl sydd angen gofal a chefnogaeth i aros neu ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain a symud allan o'r ysbyty neu leoliadau gofal eraill | • Wedi ei weithredu’n llawn<br>• Mae gennym wasanaeth ail-alluogi sy'n darparu ail-alluogi tymor byr ar ryddhau o ysbyty neu yn dilyn dirywiad ar gyfer yr holl |

| | |
|---|---|
| | ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n gymwys |
| Gwella integreiddiad gwasanaeth ailalluogi gyda phob rhan o'r ddarpariaeth ar gyfer diwallu anghenion gofal a llety pobl hŷn | • Wedi ei weithredu'n llawn<br>• Mae ail-alluogi yn gysylltiedig â ysbyty dwys, Gwasanaeth Gofal Môn ac yn rhyngweithio â'r holl wasanaethau a ddarperir drwy Oofal Canolraddol. |

| **Ein Haddewid: Mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd, datblygu trefniadau i reoli a darparu gwasanaethau ar y cyd, yn enwedig mewn perthynas â dementia, gwasanaethau i bobl hŷn yn gyffredinol a chymorth i ofalwyr trwy:** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Datblygu prosiect sy'n gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau cymorth Dementia drwy adolygu trefniadau trothwy ac erbyn Gorffennaf 2014, cytuno ar gynllun prosiect ar gyfer camau a fydd yn gwella gwasanaethau a gweithio ar y cyd ag Iechyd | • Cynnydd cyfyngedig oherwydd diffyg capasiti<br>• Mae Gwasanaethau'r Sector Gwirfoddol, gan gynnwys Caffis Dementia & Seibiant Dydd Cynhalwyr wedi cael eu cychwyn yn ystod y flwyddyn. Mae angen gwaith pellach i gadarnhau strategaeth a gwella gwasanaethau yn unol a hyn |
| Cynnal archwiliad o ofalwyr teulu a'r cymorth y maent ei angen erbyn Hydref 2014 | • Cynnydd cyfyngedig oherwydd diffyg capasiti |

| Disgrifiad DP | 2013/14 | 2014/15 | Tuedd Bl ar fl | Chwarteil ar sail 14/15 |
|---|---|---|---|---|
| **SCA/001: Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd** | 0.55 | | | |
| **"SCA/002a: Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth** | 54.41 | 49.5 | ↓ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **SCA/002b: Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth** | 18.16 | 23.28 | ↑ | |
| **"SCA/007: Canran y cleientiaid â chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu ac a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn** | 87.86 | 92.2 | ↑ | |
| **SCA/018a: Canran y gofalwyr sy'n gofalu ar ôl oedolion a gafodd gynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn** | 91.28 | 92.9 | ↑ | |
| **SCA/018b Canran gofalwyr oedolion a gafodd gynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn** | 63.2 | 57.1 | ↓ | |
| **SCA/018c Y ganran o ofalwyr oedolion a gafodd asesiad neu ailasesiad fel hawl eu hunain yn ystod y flwyddyn a wnaeth dderbyn gwasanaeth** | 73.9 | 96 | ↑ | |
| **SCA/019: Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion a gwblhawyd lle rheolwyd y risg** | 88.89 | 91.92 | ↑ | |
| **SCA/020: Canran y cleientiaid (oedolion) sy'n cael cefnogaeth yn y gymuned yn ystod y flwyddyn** | 80.37 | 79.1 | ↓ | |

**Dadansoddi Perfformiad a Data cymaradwy pellach**

*** I'w gwblhau unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data Dangosyddion Perfformiad ar gyfer 2015/16**

# Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi

Mae'r Cyngor yn dymuno gweld dyfodol lle mae cymunedau lleol , mentrau cymdeithasol , busnesau a'r sector cyhoeddus yn dod at ei gilydd i gytuno a rhoi sylw i flaenoriaethau adfywio. Yn ogystal, anelwn at weithio mewn partneriaeth i ddefnyddio'r buddsoddiad economaidd arfaethedig i wella ansawdd bywyd. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i ni feddwl yn greadigol, rhannu adnoddau a chydweithio i wella bywydau a chyfleoedd i bobl leol.

Mae'r economi yn fater o bwys i lawer ac mae ein dinasyddion yn ystyried bod creu swyddi yn hollbwysig i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer gwella ansawdd bywyd . Er y cydnabyddir mai'r sector preifat yw'r prif sbardun economaidd a chyfoeth ar yr Ynys, mae gan y Cyngor rôl yn sefydlu amgylchedd ar gyfer twf lle gall busnesau lleol dyfu ac ehangu a lle gall mwy o fusnesau newydd sefydlu eu hunain a ffynnu.

Mae'r Rhaglen Ynys Ynni a'r statws Parth Menter yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i greu swyddi newydd sylweddol yn sgil y buddsoddiad arfaethedig a photensial y sector ynni carbon isel i dyfu. Fe ddywedom y buasem yn edrych ar ddatblygu cynlluniau sy'n cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc, gwella seilwaith a chefnogi'r gadwyn gyflenwi. Yn ogystal, gwnaethom ddatgan y byddai y Cyngor hefyd yn parhau i gefnogi a datblygu sectorau allweddol eraill, megis twristiaeth, sy'n gyrru economi'r Ynys.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2014/15?**

| **Ein Haddewid: Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gryfhau cystadleurwydd economi'r ynys drwy wella seilwaith, argaeledd sgiliau a chefnogi cwmnïau lleol drwy;** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Gwneud y mwyaf o arian Ewropeaidd a domestig allanol ( gan gynnwys cronfeydd Strwythurol yr UE a Chynllun Datblygu Gwledig 2014-2020) i fanteisio ar gyfleon adfywio a buddsoddi, gan gynnwys darparu a chau 16 o brosiectau UE presennol a datblygu 15 o achosion busnes newydd mewn perthynas â Seilwaith Strategol , Safleoedd ac Adeiladau, Adfywio Ffisegol , Twristiaeth a Chefnogi Busnes | • Datblygwyd wyth o achosion busnes yn unol â blaenoriaethau allweddol – gan gynnwys<br>➢ Canolfan Fusnes Estyniad<br>➢ Safleoedd ac Adeiladau (Cam 2)<br>➢ Gweithgareddau Adfywio Ffisegol<br>➢ Cerdded a Beicio Llangefni<br>➢ Cronfa Fuddsoddi Caergybi<br>➢ Ffordd Gyswllt Llangefni<br>➢ Cynllun Gwella Seilwaith Ynys Môn<br>• Cyrchfan Rhyngwladol Caergybi Porth / Datblygu'r Economi Cruise yr Ynys<br>Llwyddwyd i gyflawni'n effeithiol a chau 9 o brosiectau **a** oedd yn cael eu hariannu drwy'r UE, gan gynnwys<br>➢ Llwyddo'n Lleol<br>➢ Taith Trawsnewid Cludiant<br>➢ Gwella Rhwydwaith Cydweithio<br>➢ Ymweld â Môn |

| | |
|---|---|
| | ➢ Mentergarwch<br>➢ Potential NEETs<br>➢ 3 Tref Ynys Mon<br>➢ CDG Gwasanaethau Bro<br>➢ Cysylltiadau Gwaith Newydd<br><br>• Datblygwyd 5 o astudiaethau dichonoldeb fel rhan o brosiect adfywio cymdeithasol-economaidd y Gwasanaeth (ariannwyd drwy'r NDA), gan gynnwys Datblygiadau Ynni Morol, Datblygiadau Digwyddiadau, Prosbectws / astudiaeth Sylfaenol cyfleusterau Arforol CSYM, Twristiaeth Gynaliadwy, sylfaen a llwybrau astudio STEM<br><br>• Ymrwymwyd a llwyddwyd i wario 100% o'r Gyllideb Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (LlLlLlA) ar gyfer 2014/15<br><br>• Darparwyd cymorth technegol SETs i'r holl brosiectau<br><br>• Paratowyd diweddariadau ar gyllideb UE yn chwarterol i Barteriaeth Economaidd ac Adfywio Economaidd Ynys Môn a chydranddeiliaid yn ehangach<br><br>• Paratowyd Cynllun Datblygu Gwledig (GDG) a Strategaeth Ddatblygu Leol (SDdL)<br><br>• Cyflwynwyd 6 o geisiadau newydd am gymorth ariannol (dim UE), gan gynnwys<br><br>➢ Cyllid etifeddiaethTaith Prydain<br>➢ Cynllun Gweithredu Canol y Dref Llywodraeth Cymru<br>➢ Ffordd Gyswllt<br>➢ Cynllun Gwella Seilwaith<br>➢ Estyniad Canolfan Fusnes Môn<br>➢ Prif Gynllun Gaerwen<br><br>• Cefnogwyd 8 o bartneriaid mewnol ac allanol i ddatblygu a chyflwyno ceisiadau am gymorth ariannol, gan gynnwys Morlais (Menter Môn); Parc Gwyddoniaeth Menai; Prosiect Anelu NEETS; Ynni Morol; Prosiect Anweithgarwch anwaithgarwch Economaidd |

| | |
|---|---|
| | • Cynhaliwyd trafodaethau (sy'n parhau i fynd rhagddynt) gyda datblygwyr ynghylch Cyfraniadau Budd Cymunedol Gwirfoddol (yn unol â Strategaeth CSYM) |
| Dylanwadu , hyrwyddo a chyd -drefnu gweithgareddau cefnogi busnes a menter – gan gynnwys cefnogi 18 o fusnesau presennol a newydd a chreu 25 o swyddi newydd mewn mentrau bach a chanolig eu maint ( sy'n cyflogi llai na 250 o bobl ) drwy'r Gronfa Fuddsoddi Leol | • Cefnogwyd 20 o fusnesau drwy'r Gronfa Fuddsoddi Leol (CFL); a cynorthwyo i greu 30 o swyddi newydd (ee Enochs y Fali a bragdy a Becos newydd yn Amlwch<br>• Mynychwyd 17 o ddigwyddiadau busnes a menter lleol a rhanbarthol<br>• Dabtlygwyd cynllun achredu Caffael<br>• Ymgysylltwyd gyda 111 o fusnesau'r Ynys er mwyn deall eu hanghenion datblygu |
| Gwella a datblygu safleoedd ac adeiladau seilwaith a busnes strategol newydd ac adeiladau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys adeiladu 4 uned busnes newydd yn Llangefni i fynd i'r afael â diffyg buddsoddiad mewn adeiladau ar Ynys Môn | • Adeiladwyd 4 o Unedau Busnes newydd yn Llangefni<br>• Codwyd arwyddion i'r unedau busnes newydd ym Mhenyrorsedd<br>• Aseswyd a rhoddwyd sgôr i 100% y ceisiadau am unedau / plotiau diwydiannol |
| Sicrhau bod Ynys Môn yn manteisio'n llawn ar y dynodiad Parth Menter gan Lywodraeth Cymru trwy ymateb i bob cais mewnfuddsoddi | • Mynychwyd nifer o gyfarfodydd i gefnogi Llywodraeth Cymru i sicrhau cynnydd o ran y Parth Menter<br>• Ymatebwyd i 100% o ymholiadau i fewnfuddsoddi |

| **Ein Haddewid: Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo delwedd a chryfderau arbennig Ynys Môn ar gyfer ymwelwyr i hyrwyddo delwedd a chryfderau hynod Ynys Môn;** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Datblygu a hyrwyddo delwedd a chryfderau hynod Ynys Môn drwy ddenu 250,000 o ddefnyddwyr unigryw i ymweld â CroesoMon.com a 95,000 o ddefnyddwyr unigryw yn ymweld a TreftadaethMon.com | • Wedi ymdrin â 21,975 o geisiadau ar gyfer gwybodaeth yng Nghanolfannau Croeso'r Ynys<br>• Wedi argraffu a chylchredeg 60,000 o gyhoeddiadau Cyrchfan yn hyrwyddo'r Ynys a choi gwybodaeth i ymwelwyr (gan gynnwys 20,000 o Lawlyfrau Cyrchfan, 20,000 o |

| | |
|---|---|
| | daflenni Cylchdeithiau Cerdded a 20,000 o daflenni Creigiau ac Adfeilion.<br><br>• 501,701 o ddefnyddwyr unigol wedi ymweld â gwefan CroesoMon yn ystod 2014-15<br><br>• 10,004 o ddefnyddwyr unigol wedi ymweld â gwefan TreftadaethMôn.com yn ystod 2014-15.<br><br>• Datblygwyd a chylchredwyd canllawiau brand/logo ymwelwyr drwy Gymdeithas Dwristiaeth Ynys Môn a Phartneriaeth Cyrchfan Ynys Môn fel anogaeth i ddatblygu brand cyson ar gyfer Ynys Môn.<br><br>• Mynychwyd 21 o ddigwyddiadau yn y Ganolfan Groeso symudol yn ystod 2014-15 i hywrwyddo digwyddiadau ac atyniadau ynys Mon, gan gynnwys gan gynnwys<br><br>➢ Digwyddiad GeoMôn – Cemaes<br>➢ Ymweliadau Llongau Mordeithio – Caergybi<br>➢ Gwyl Gerdded Ynys Môn<br>➢ digwyddiadau Beicio - Mynydd Parys a Llangefni<br>➢ “Queens Baton Relay” – Biwmares<br>➢ Ras yr Wyddfa – Llanberis<br>➢ Gŵyl Gardd Goll<br>➢ Sioe Môn<br>➢ Tour de Mon<br>➢ Gŵyl Bwyd Môr Menai<br>➢ Gŵyl Fwyd Biwmares<br>➢ Triathlon Sandman Ynys Môn. |
| Cefnogi digwyddiadau twristiaeth strategol a phrosiectau gan gynnwys -<br><br>○ gwelliannau i gylchdeithiau cerdded/ llwybrau beicio,<br><br>○ gwella ‘Apps’ ar gyfer Ffonau Symudol drwy gyfryngau digidol<br><br>○ parhau i farchnata a hyrwyddo Geo Môn<br><br>○ Tour de Môn, Gŵyl Feicio Cymru, Triathlon Llanc y Tywod Ynys Môn, Gŵyl Gardd Goll | • Cefnogwyd 2 ddigwyddiad drwy’r prosiect Ymweld â Môn - Sportif Seiclo Tour de Môn a Gŵyl Gerdded Ynys Môn<br><br>• Cefnogwyd 6 o ddigwyddiadau twristiaeth strategol<br><br>➢ Gwyl Gardd Goll<br>➢ Copperfest<br>➢ Gwyl Bwyd Mor<br>➢ Miwsig Moelfre<br>➢ Gwyl Fwyd Biwmares<br>➢ Gwyl Ffilmiau SeeMor |

DRAFT

| | |
|---|---|
| (gŵyl gerddoriaeth) Gŵyl Fwyd Môr, Copperfest, Miwsig Moelfre a Gŵyl Ffilm SeeMor | • Cafodd 3 o gylchdeithiau cerdded / llwybrau beicio eu gwella yn geo-trail Cemaes, Llwybr Brickshed – Parc Gwledig Caergybi a Lon Las Cefni<br>• Cyhoeddwyd a chylchredwyd llyfryn marchnata a hyrwyddo GeoMôn<br>• Hwyluswyd gweithdy Cyfryngau Cymdeithasol / Digidol gydag Aelodau Cymdeithas Dwristiaeth Ynys Môn |
| Datblygu economi Mordeithio'r ynys drwy groesawu 15 o longau mordeithio i Borthladd Caergybi | • Ymwelodd 14 o longau mordeitho â Phorthladd Caergybi yn ystod 2014 (canslwyd un ymweliad oherwydd diffyg galw) |
| Gweithredu cynlluniau gwella cyfalaf pellach yn Porth Dafarch, Bae Trearddur, Rhosneigr, Cemaes ac Afon Menai a darparu sesiynau rhoi cynnig ar chwaraeon dŵr | • Cwblhawyd 5 o gynlluniau gwella cyfalaf (Rhan 2 y Prosiect Amgylchedd Arfordirol)<br>• Hwyluswyd 1055 o sesiynau cynefino â chwaraeon dŵr yn ystod 2014-15 |
| Prydlesu 400 o angorfeydd blynyddol a chofrestru 1,000 o gychod a badau dŵr personol | • Gosodwyd 346 o lecynnau angori blynyddol a chafwyd 1275 o gofrestriadau ar gyfer cychod a badau dŵr |
| Darparu gwasanaeth diogel, effeithiol a chydlynol i gwrdd ag anghenion cymunedau arfordirol ac ymwelwyr drwy gwblhau gwelliannau i'r seilwaith yn Noc Pysgod Caergybi | • Cyflogwyd 26 o Wardeiniaid Traeth a Goruchwylwyr Llithrfeydd er mwyn hyrwyddo diogelwch cyffredinol a mwynhad pawb sy'n defnyddio'r traethau mewn lleoliadau allweddol yn ystod tymor yr haf<br>• Cwblhawyd gwaith gwella yn Noc Pygod Caergybi a Phorth Amlwch<br>• Tynnwys y Pontŵns ar gyfer eu hadnewyddu a gosodwyd Ystolion newydd a chychwynnwyd gwaith ar y Golau Uchel yn Noc Pysgod Caergybi<br>• Cwblhawyd Prosbectws Arforol |



DRAFT

| Ein Haddewid: Gweithio gyda phartneriaid i oresgyn cyfyngiadau seilwaith (er enghraifft, lled band eang a thechnolegau symudol) i alluogi datblygiad a buddsoddiad ac i greu swyddi drwy; | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Cydweithio gyda datblygwyr prosiect a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i fuddsoddi mewn pobl, busnes a seilwaith cystadleuol i fanteisio ar gyfleoedd lleol a rhanbarthol ar gyfer swyddi, twf a ffyniant | • Hwyluswyd cyfarfodd chwarterol gyda Scottish Power Energy Networks (SPEN) i drafod cyfyngiadau capasiti a gwelliannau posibl sydd eu hangen i'r rhwydwaith trydan i ateb y galw yn y dyfodol ar yr Ynys (i wneud y gorau o gyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r sector ynni) |
| Sicrhau sgiliau ac adnoddau i foderneiddio seilwaith i gefnogi datblygiadau ynni carbon isel a chodi ymwybyddiaeth o botensial cyfleoedd cyflogaeth i ddenu pobl yn ôl i Ynys Môn , a sicrhau fod gan y gweithlu a phobl ifanc leol y sgiliau a'r galluoedd priodol trwy baratoi busnesau lleol i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir trwy ddatblygiadau mawr | • Sicrhawyd bod Swyddogion yn mynychu yn rheolaidd yr holl gyfarfodydd Rhaglen Ynys Ynni (RhYY) gyda datblygwyr i gefnogi cyflogaeth, y gadwyn gyflenwi a chyfleoedd mewnfuddsoddi bydd yn cael eu cyflwyno<br>• Mynychodd Swyddogion RhYY gyfarfodydd datblygu Ôl-19, cyfarfodydd i gydlynu partneriaid allweddol i sicrhau bod sgiliau ac anghenion addysg pobl ifanc yr Ynys yn cael eu bodloni gan eu galluogi i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â datblygiadau carbon isel a gynigir.<br>• Rhoes Swyddogion y Rhaglen Ynys Ynni gyngor i Fwrdd Gweithgaredd Economaidd Gogledd Cymru ar gyflogaeth a sgiliau<br>• Hwyluswyd grwpiau cyflawni Sgiliau<br>• Trefnwyd digwyddiad CodiSTEM i godi ymwybyddiaeth o bynciau STEM a’u manteision<br>• Aeth Swyddogion RhYY i ysgolion i hyrwyddo egwyddorion y RhYY<br>• Adolygwyd y ffrwd gwaith Addysg |
| Paratoi'r Prosbectws Seilwaith Ynys Môn i amlinellu gofynion a gwelliannau ar gyfer y dyfodol a sicrhau gwell gwasanaethau i safleoedd Parth Menter sydd wedi eu blaenoriaethu | • Sicrhwyd cyllid drwy’r Rhaglen Parth Menter LlC er mwyn symud ymlaen gyda’r Prosbectws Seilwaith (sy'n cynnwys gofynion adfywio, seilwaith ac eiddo, yn ogystal â chyfathrebu TGCh, |



DRAFT

| | |
|---|---|
| | pwer, cludiant a dŵr ar gyfer safleoedd allweddol)<br>• Cynhyrchwyd drafft terfynol y Prosbectws Seilwaith<br>• Cwblhawyd a phrydleswyd Unedau Busnes Newydd ar safle Parth Menter Bryn Cefni |
| **Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer Ffordd Gyswllt Llangefni - llwybr newydd i wella cysylltiadau a chysylltedd rhwng Parc Busnes Bryn Cefni a Choleg Menai a ddylai hefyd agor ardaloedd newydd sylweddol o dir cyflogaeth** | • Cyflwynwyd cais cynllunio ar gyfer Ffordd Gyswllt Llangefni a chwblhawyd Asesiad o'r Effaith Economaidd fel rhan o'r broses gynllunio |

| **Ein Haddewid: Ymgymryd â'n cyfrifoldebau cynllunio yn effeithiol mewn perthynas â'r holl brosiectau mawr ar Ynys Môn, gan sicrhau bod yr effeithiau negyddol posibl yn cael eu lleihau i'r eithaf a sicrhau'r budd cymunedol mwyaf posib trwy:** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Nodi, diffinio a datblygu dyheadau Cyngor Sir Ynys Môn o ran etifeddiaeth prosiectau ynni mawr (statudol ac anstatudol - ee Pŵer Niwclear Horizon a Celtic Array) a sicrhau adnoddau trwy Gytundebau Cynllunio Perfformiad gyda datblygwyr mawr fel y gellir cyfrannu at y broses gynllunio statudol mewn modd gwybodus ac amserol | • Cynhaliwyd trafodaethau (ac maent yn parhau) gyda datblygwyr (gan gynnwys Pŵer Niwclear Horizon) ynghylch dyheadau CSYM o ran etifeddiaeth<br>• Mabwysiadwyd Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Gorsaf Wylfa Newydd<br>• Amlinellwyd y disgwyliadau anstatudol yn y Strategaeth Buddion Cymunedol Gwirfoddol<br>• Cafodd gweithgareddau cymwys eu cyllido drwy'r Cytundebau Polisi Cynllunio gyda Horizon, Centrica a'r Grid Cenedlaethol |
| Sicrhau bod Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer yr Orsaf Niwclear Newydd yn Wylfa yn cael eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor Sir | • Mabwysiadwyd yn ffurfiol gan y Cyngor Sir y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer yr Orsaf Niwclear Newydd (Gorffennaf 2014) |
| Paratoi a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu Rhaglen Ynys Ynni a'r Cynllun Cyflawni a pharhau i gydweithio gyda'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd a Llywodraeth Cymru | • Cwblhawyd Strategaeth Ddrafft – cychwynnodd y rhaglen waith a llwyddwyd i gyflawni camau allweddol gan gynnwys presenoldeb ar Facebook/Twitter a mynychu digwyddiadau ac ati. |



DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Penodwyd Swyddog Cyfathrebu a datblygwyd rhaglen waith.<br>• Parhawyd i gydweithio gyda'r Adran Ynni & Newid Hinsawdd (AYNH) a chyda Llywodraeth Cymru. |

| **Ein Haddewid: Gweithio gyda'r Brifysgol i ddatblygu parc gwyddoniaeth yn Ne'r Ynys gan ychwanegu gwerth i'r datblygiadau ynni arfaethedig, creu swyddi ac arallgyfeirio'r economi leol drwy** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Cefnogi Prifysgol Bangor i ddatblygu eu Parc Gwyddoniaeth a sefydlu Rhaglen Ynni Arforol Gogledd Cymru | • Buom yn cydweithio gyda Phrifysgol Bangor ar y Parc Gwyddoniaeth, gyda swyddogion o'r Gwasanaeth E&AC yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Cydranddeiliaid Parc Gwyddoniaeth Menai yn rheolaidd ym Mhrifysgol Bangor. |

| **Ein Haddewid: Gyrru adfywiad cymunedol gan ddatblygu cynlluniau tref a chymuned cyfannol ar gyfer y prif aneddiadau ar yr ynys gan roddi blaenoriaeth i Gaergybi, Llangefni ac Amlwch drwy;** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Datblygu achosion busnes adfywio ffisegol ar gyfer Llangefni ac Amlwch yn dilyn gwerthusiadau cadarn o'r opsiynau er mwyn nodi gweithgareddau adfywio ffisegol, cymdeithasol ac economaidd a ddylai gael boaenoriaeth er mwyn rhoi sylw i anghenion a gofynion penodol y ddwy dref | • Datblygwyd nifer o achosion busnes / astudiaethau dichonoldeb adfywio ffisegol:<br>➢ Ffordd Gyswllt Llangefni<br>➢ Cynllun Gwella Seilwaith Ynys Môn<br>➢ Llwybrau Cerdded a Beicio yn Llangefni<br>➢ Ehangu'r Ganolfan Fusnes<br>➢ Safleoedd ac Eiddo (Cam 2)<br>➢ Gweithgareddau Adfywio Ffisegol |
| Gweithredu yn effeithiol y Rhaglen Adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yng Nghaergybi a chytuno ar ganlyniadau gyda Llywodraeth Cymru. | • Llwyddwyd i weithredu'n effeithiol nifer o brosiectau Adfywio a Thai yn ystod 2014-15. |
| Datblygu dealltwriaeth gadarn o holl asedau a gwasanaethau Cyngor Sir Ynys Môn y gellid eu trosglwyddo/allanoli i bartneriaid a chyrff eraill | • Aethpwyd ati i Allanoli Clwb Golff Llangefni gan drosglwyddwyd wedi hynny i fenter gymdeithasol gyda ystyriaeth bellach i'w roi i'w ddyfodol tymor hir |

| | |
|---|---|
| | • Gwnaed gwaith i nodi opsiynau posibl ar gyfer Oriel Môn a Charchar Biwmares<br>• Penodwyd Wales Co-operative fel ymgynghorwyr i edrych ar elfennau o'r Gwasanaethau Cymdeithasol |

DRAFT

# Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion

Mae'r Cyngor eisiau i bob plentyn, pob person ifanc, pob dysgwr, lle bynnag y maent, waeth beth fo'u cefndir a'u hamgylchiadau gyflawni eu potensial llawn a bod yn barod i chwarae rôl weithredol fel dinasyddion cyfrifol ac eiriolwyr cymunedol yn y dyfodol. Er mwyn gwireddu hyn, ac i gyfrannu at weledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru, rydym yn derbyn bod angen i ni godi safon addysg yn Ynys Môn. Yn hyn o beth, derbynnir mai un o'r blaenoriaethau i'r Cyngor yw herio syniadau cyfredol, annog arloesedd a datblygu seilwaith ysgolion a fydd yn codi safonau addysgu a chyrhaeddiad, lleihau lleoedd gwag, gwella canlyniadau addysgol i blant a phobl ifanc a bod yn ymatebol yn gymdeithasol-economaidd i'n rhaglen gwella cymunedol.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2014/15?**

| **Ein Haddewid: Parhau i godi safonau o ran cyrhaeddiad addysgol a phresenoldeb drwy** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Weithredu'r Cytundeb Partneriaeth yn gyson a thargedu cymorth a her i ysgolion penodol er mwyn sicrhau eu bod yn atebol ar gyfer gwelliannau a gwneud defnydd addas o'r holl ddata sydd ar gael i gytuno ar dargedau heriol ar gyfer pob ysgol gynradd ac uwchradd. | • Defnyddiwyd y Model Categoreiddio Cenedlaethol newydd i adolygu categorïau ysgolion a sicrhawyd bod yr holl ysgolion yn ymwybodol o'r categoreiddiad newydd a goblygiadau hynny o ran y lefel o gefnogaeth a her a fyddai ar gael o ganlyniad<br>• Cytuno ar dargedau ar gyfer yr holl ysgolion fel rhan o'r ymweliadau Monitro a Herio tymhorol |
| Sicrhau bod pob ysgol yn glir ar y camau i'w cymryd i gynyddu lefel yr her i ddysgwyr mwy galluog a thalentog . | • Adolygwyd y broses gosod targedau er mwyn sicrhau targedau uchelgeisiol ar gyfer disgyblion unigol<br>• Aethpwyd ati i gasglu ynghyd yn ganolog dargedau'r ysgolion ar gyfer perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig ac uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig<br>• Wedi perfformio'n well mewn rhai Cyfnodau Allweddol na'r perfformiad cyfatebol ar lefel Cymru gyfan |
| Adolygu prosesau i safoni asesiadau diwedd Cyfnod Sylfaen a CA2 mewn ysgolion cynradd. | • Cymerwyd camau i sicrhau fod ysgolion dalgylch, yn ychwanegol at drefniadau mewnol ac arfer dda yn yr ysgolion, yn cael cyfleon penodol i safoni darnau o waith y disgyblion er mwyn gwella'r ddealltwriaeth gyffredinol o'r hyn sy'n |

| | |
|---|---|
| | nodweddu perfformiad ar wahanol lefelau<br>• Rhoddwyd cydweithrediad llawn a chanllawiau atodol i ysgolion ar gofynion cymedroli a fydd yn cael eu gweithredu yn 2015 |
| Sicrhau bod gan bob ysgol gynlluniau priodol ar waith i wneud defnydd effeithiol o ddata mewn perthynas ag oedran darllen a gwybodaeth am arferion effeithiol i wella safonau darllen, a bod yr Awdurdod yn gwneud defnydd effeithiol o ddata oedran darllen i herio ysgolion unigol. | Cyfrannwyd yn llawn at drefniadau rhanbarthol yr Awdurdodau Lleol drwy:<br>➢ Neilltuo adnoddau i ddarparu dull rhanbarthol cyffredinol<br>➢ Cefnogi datblygu strategaeth llythrennedd ranbarthol gan GwE<br>➢ Dadansoddi data profion darllen ar lefel Awdurdod Lleol fel rhan o'r gwaith o ddadansoddi perfformiad a'i ddefnyddio wedyn i herio ysgolion unigol |
| Datblygu rôl y Pwyllgor Sgriwtini mewn perthynas ag Addysg  ac 'ysgolion sy'n peri pryder'  a sicrhau bod Cyrff Llywodraethol yn cyflawni eu swyddogaethau statudol mewn perthynas â gweithredu fel cyfaill beirniadol i herio Prifathrawon. | • Gwnaed cynnydd da o ran datblygu rôl yr aelodau etholedig hynny a enwebwyd i weithredu fel "Grŵp Adolygu Cynnydd mewn Ysgolion"<br>• Cafwyd cyfarfodydd gyda Phenaethiaid a Chadeiryddion Cyrff Llywodraethu ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn ystyried perfformiad yr ysgolion<br>• Sefydlwyd panelau gwella ac arnynt aelodau'r Cyrff Llywodraethu ar gyfer ysgolion a oedd yn cymryd camau dilyn-i-fyny ar ôl arolwg |

DRAFT

| **Ein Haddewid: Datblygu a chytuno ar strategaeth moderneiddio ysgolion i arwain penderfyniadau tymor hir a fydd yn cynnwys agor ein ysgol anghenion arbennig – Canolfan y Bont a darparu 2 ysgol gynradd ardal newydd drwy:** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Datblygu Rhaglen gynhwysfawr ac uchelgeisiol ar gyfer Moderneiddio Ysgolion ac ymgynghori yn ei chylch a'i mabwysiadu. | • Trafodwyd/mabwysiadwyd Rhaglen Foderneiddio ar gyfer ysgolion yn Ardaloedd y Llannau a Chaergybi |
| Agor Canolfan Addysg y Bont yn swyddogol ar 15 Mai, 2014 | • Agorwyd Canolfan Addysg y Bont yn swyddogol ar 15 Mai 2014 |

| | |
|---|---|
| Trefnu fod digwyddiadau ymgynghori yn cael eu cynllunio ar gyfer ysgolion ardal newydd yn y Llannau (Llanfachraeth, Llanfaethlu a Llanrhuddlad ardal) ac yn ardal Caergybi yn ystod y flwyddyn, ac wedi hynny bod adroddiadau llawn ac achosion amlinellol strategol yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a Llywodraeth Cymru | • Cynhaliwyd yr ymarfer ymgynghori ar gyfer Ysgolion Ardal y Llannau a Chaergybi |

| **Ein Haddewid: Mabwysiadu a chyflwyno strategaeth sgiliau rhanbarthol sy'n fodd i Ynys Môn a Gogledd Cymru wella sgiliau'r gweithlu ac alinio eu hunain gyda chyfleoedd yn y dyfodol drwy:** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Alinio'r rhaglen sgiliau 14-19 gyda chyfleoedd cyflogaeth sy'n esblygu a'r Strategaeth Datblygu Sgiliau Rhanbarthol a sicrhau bod llythrennedd a rhifedd yn cael sylw priodol ym mhob cyfnod allweddol | • Gwnaed cynnydd da o ran datblygu stategaeth addysg a sgiliau ar gyfer yr ardal. Mae'r Grŵp Sgiliau Ynys Ynni wedi hwyluso ymagwedd bartneriaethol rhwng Addysg, Grŵp Llandrillo/Menai, Prifysgol Bangor ac eraill – gan weithio gyda'n gilydd i nodi materion allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt os yw pobl ifanc am ennill y sgiliau angenrheidiol i fod yn weithgar yn y gweithlu.<br>• Gwnaed cyfraniad sylweddol drwy brosiectau megis Cwmni Prentis Menai i sicrhau fod gan bobl ifanc y sgiliau angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth. |

| Disgrifiad DP | 2013/14 | 2014/15 | Tuedd bl ar fl | Chwarteil ar sail 14/15 |
|---|---|---|---|---|
| EDU/002i: Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); a sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | 0.00 | 0.3 | ↓ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| EDU/002ii: Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | 0.00 | 14.3 | ↓ | |
| EDU/003: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | 87.98 | 87.8 | ↓ | |
| EDU/004: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | 81.46 | 83.6 | ↑ | |
| EDU/006ii: Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 | 61.75 | 67.2 | ↑ | |
| EDU/011: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol | 593.55 | 598.3 | ↑ | |
| EDU/015a: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau gan gynnwys eithriadau | 59.09 | 38.5 | ↓ | |
| EDU/015b: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau b) heb gynnwys eithriadau | 100.00 | 84.6 | ↓ | |
| EDU/016a: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | 94.41 | 94.6 | ↑ | |
| EDU/016b: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | 93.24 | 93.4 | ↑ | |
| EDU/017: Canran y disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg | 54.20 | 53.8 | ↓ | |

DRAFT

**Dadansoddi Perfformiad a Data cymaradwy pellach**

*** I'w gwblhau unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data Dangosyddion Perfformiad ar gyfer 2015/16**

# Cynyddu ein Opsiynau Tai a Lleihau Tlodi

Mae cael lle fforddiadwy safonol i fyw yn bwysig i sicrhau bod ein holl ddinasyddion yn byw mewn cartref diogel ac addas sy'n eu galluogi i gael y budd mwyaf ar gyfer mynediad i swyddi, hamdden, a mwynderau ac addysg. Yn ogystal, mae'r sylfaen bwysig hon yn eu galluogi i gael y manteision cymdeithasol ac economaidd y maent yn dyheu amdanynt ac yn eu haeddu. Gyda chwmnïau ynni mawr byd-eang yn gweithio tuag at fuddsoddi'n sylweddol yn Ynys Môn, byddwn yn parhau i weithio gyda landlordiaid yn y sector cymdeithasol / preifat i sicrhau'r nifer uchaf posib o gartrefi o safon ar gyfer contractwyr. Dywedwyd y byddwn hefyd yn parhau â'n hymdrechion i ddatblygu'r farchnad dai ar gyfer pobl leol gyda phwyslais arbennig yn cael ei roi ar weithio gyda phartneriaid i gynllunio, datblygu a sefydlu mwy o opsiynau tai fforddiadwy ar gyfer ein dinasyddion.

**Sut y byddwn yn gwneud hyn yn 2014/15?**

| **Ein Haddewid: Gweithio gyda phartneriaid i foderneiddio a chydlynu'r gwasanaeth cyngor budd-daliadau er mwyn gwella annibyniaeth a gweithio tuag at ein strategaeth gwrthdlodi a lliniaru effeithiau diwygio lles drwy** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Taclo tlodi yn Ynys Môn drwy ddatblygu Strategaeth Gwrthdlodi gydag asiantaethau partner dan gyfarwyddyd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol | • Sefydlwyd proffiliau ar gyfer 97% o denantiaid y Cyngor (Hydref 2014)<br>• Sefydlwyd rhaglen hyfforddiant ar gyfer staff<br>• Sefydlwyd 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli Incwm'<br>• Datblygwyd polisi ar ailddynodi ystafelloedd<br>• Sefydlwyd mecanweithiau i fesur effaith y Dreth Ystafell Wely gan gynnwys ymuno â chlwb meincnodi Housemark<br>• Cydleolwyd swyddogion y Gronfa Cymorth Dewisol a'r Taliadau Tai Dewisol gyda Chymunedau'n Gyntaf Môn er mwyn cynnig cymorth i ddinasyddion bregus sydd angen arian o'r gronfa caledi<br>• Cynnal nifer y rhai a oedd yn manteisio ar Ginio am Ddim yn yr ysgol a grantiau gwisg ysgol<br>• Sefydlwyd Fforwm Cynhwysiad Ariannol a Digidol ar y cyd rhwng Ynys Môn a Gwynedd |

| | |
|---|---|
| Sefydlu tudalennau Diwygio Lles penodol ar wefan y Cyngor a chyhoeddi taflenni gwybodaeth ar reoli cyllidebau ar gyfer tenantiaid tro cyntaf (pob deiliadaeth) i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i'r rhai sydd ei angen ar Ynys Môn | • Cysylltwyd â 100% o'r hawlwyr er mwyn scirhau eu bod yn deall effaith y Cap ar Fudd-daliadau<br>• Sefydlwyd tudalennau penodol ar Ddiwygio Lles ar wefan y Cyngor gyda dolen i'r Gwasanaeth Cyngor Ariannol i gynnig diweddariadau awtomatig er mwyn sicrhau fod gwybodaeth gyfredol ar gael bob amser. Hefyd, gwelwyd cynnydd yn yr ymweliadau â'r tudalennau ar y wefan sy'n ymwneud â Budd-daliadau a Diwygio Lles gyda dros 8,950 o ymweliadau yn ystod 6 mis diwethaf y flwyddyn o gymharu â 6,012 o ymweliadau yn ystod y chwe mis cyntaf i'r tudalennau a oedd ar y we yn flaenorol.<br>• Dyluniwyd ac argraffwyd amrediad o daflenni a phosteri ar:<br>➢ Cinio Ysgol am Ddim<br>➢ Taflen Deall eich Budd-daliadau<br>➢ Taflen cyn-Tenantiaeth<br>➢ Cynilo ar gyfer Credyd Cynhwysol<br>➢ Ymgeisio am Gredyd Cynhwysol<br>➢ Newyddlen i Denantiaid<br>• Hyfforddwyd staff y Cyngor i ddelio gyda'r newidiadau o ran Diwygio Lles<br>• Prynwyd meddalwedd TG cymunedol er mwyn sicrhau cynnydd yn nifer y bobl sy'n ymweld â'r wefan Gorfforaethol ac ychwanegu at eu sgiliau ariannol drwy ddarparu ciosgau â sgriniau cyffwrdd |
| Sicrhau 75 % o geisiadau llwyddiannus ar gyfer arian o'r Gronfa Cymorth Dewisol sy'n cael eu cefnogi a'u harwyddo gan yr Awdurdod Lleol | • Llwyddwyd i gefnogi a chyfeirbwyntio 86% o geisiadau i'r Gronfa Lwfans Dewisol (CLD)<br>• Datblygwyd Cynllun Gweithredu 'Ymateb i'r Adnoddau Cyfredol o ran Twyll' a datblygwyd achos mewnol ar gyfer 'Cadw Busnes Adnoddau Twyll yn fewnol neu gydweithio'<br>• Adolygwyd ein Polisi Adennill Dyledion |

| **Ein Haddewid:Cynyddu'r opsiynau o ran tai fforddiadwy sydd ar gael ar hyd a lled yr ynys a dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |

| | |
|---|---|
| Dod â 75 o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd | • Daethpwyd â 109 o dai gwag yn ôl i ddefnydd mewn cymuedau a lleoliadau ar drws yr ynys |

| **Ein Haddewid: Archwilio opsiynau i gefnogi pobl ifanc i gael i mewn i'r farchnad dai trwy** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Gynorthwyo ymgeiswyr i gael grantiau prynwyr tro cyntaf ar gyfer eiddo gwag a'u prynu drwy Gymorth Prynu Cartref Ynys Môn | • Cefnogwyd 22 o brynwyr tro cyntaf drwy'r broses ymgeisio, ac fe gymeradwywyd grantiau iddynt<br>• Llwyddodd 7 i brynu cartref drwy Gymorth Prynu Cartref Ynys Môn |
| Cynyddu nifer yr ymgeiswyr am dai fforddiadwy sydd wedi eu cofrestru gyda Tai Teg | • Mae ymgyrch farchnata gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol wedi gweld cynnydd cyson ers y Flwyddyn Newydd gyda dros 1,500 o 'likes' ar gyfrif Trydar y Cyngor neu negeseuon Tai Teg – a gyfrannodd tuag at 325 o gofrestriadau ar gyfer Ynys Môn erbyn diwedd Mawrth 2015. |

| **Ein Haddewid: Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cyfleoedd prentisiaeth i bobl ifanc drwy** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Archwilio'r posibilrwydd y gall contractwyr gynnig prentisiaethau ac/neu gyfleoedd hyfforddi i bobl leol | • Gweithio gyda Chymunedau'n Gyntaf Ynys Môn i ddatblygu Buddion Cymunedol gan gynnwys Buddion Cymunedol yn yr holl Gontractau Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ar y thema Tai gyda'r holl gynlluniau Cyfalaf CRT dros £500k yn cael eu hasesu drwy becyn cymorth Gwerth Cymru. |

| **Ein Haddewid: Cefnogi'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac sydd yn ddigartref i ddod o hyd i gartrefi parhaol drwy:** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Gynyddu nifer y landlordiaid sydd â statws achrediad i ddarparu cartrefi o safon uchel sy'n cael eu rheoli'n dda | • Aethpwyd ati i weithio'n rhagweithiol gyda Landlordiaid Preifat i sicrhau cynnydd yn nifer y landlordiaid a chanddynt statws Achrediad ar yr Ynys – trefnwyd ar y cyd gydag Achrediad Landlordiaid Cymru 4 o gyrsiau. Mae 83 o landlordiaid newydd (allan o gyfanswm o 123 landlordiaid achrediedig) wedi ennill statws achrediad ar yr Ynys yn ystod y cyfnod hwn. |

| | |
|---|---|
| Adeiladu 23 o dai fforddiadwy newydd | • Cwblhawyd 43 o dai fforddiadwy newydd yn Llangefni, Cargybi, Amlwch a Dwyran |
| Sefydlu cronfa ddata gynhwysfawr o landlordiaid sy'n gweithredu ar yr ynys | • Llwyddwyd i nodi, drwy'r Swyddog Cyswllt Landlordiaid Preifat, 98 o landlordiaid newydd nad oeddynt yn hysbys eisoes i'r Cyngor a'u hychwanegu at y data-bas er mwyn sicrhau fod gennym rhestr gynhwysfawr o landlordiaid sy'n gweithredu ar yr Ynys. |
| Cynyddu nifer y landlordiaid sydd wedi derbyn anogaeth i ddarparu llety i gleientiaid a gyfeiriwyd gan y Gwasanaethau Tai | • Cynorthwywyd 8 o aelwydydd digartref i gael llety yn y sector preifat yn ystod 14/15 gyda chymorth anogaeth ariannol a a chefnogaeth i sefydlu tenantiaethau. |

DRAFT

| **Disgrifiad o'r DP** | 2013/14 | **2014/15** | **Tuedd bl ar fl** | **Chwarteil ar sail 13/14** |
|---|---|---|---|---|
| HHA/002 Cyfartaledd nifer y diwrnodau gwaith rhwng cyflwyniad digartrefedd a chyflawni dyletswydd i aelwydydd sy'n statudol ddigartref | 531 | 362 | ↑ | |
| HHA/013: Canran yr holl aelwydydd a allai fod yn ddigartref ac yr ataliwyd iddynt fod yn ddigartref am 6 mis o leiaf. | 88.18 | 68.3 | ↓ | |
| HHA/017a Nifer cyfartalog y diwrnodau y mae'r holl aelwydydd digartref yn dreulio mewn llety Gwely a Brecwast | 90.8 | 76.9 | ↑ | |
| HHA/017b Nifer cyfartalog y diwrnodau y holl aelwydydd digartref yn eu treulio mewn mathau eraill o lety dros dro | 621.6 | 650 | ↑ | |
| PSR/002: Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 213.11 | 229 | ↓ | |
| PSR/004: Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | 11.98 | 13.15 | ↑ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| PLA/006b: Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | 83.97 | 39 | ↓ | |

**Dadansoddi Perfformiad a Data cymaradwy pellach**

*** I'w gwblhau unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data Dangosyddion Perfformiad ar gyfer 2015/16**

DRAFT

# Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd

Rydym wedi cydnabod fod cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn chwarae rhan sylweddol yn iechyd y gymuned ac o ran gwneud pobl yn fwy hunan-hydersu. Byddwn yn gweithio tuag at fabwysiadu ymagwedd fwy integredig o ran materion lles yn y dyfodol a fydd yn fodd i adolygu ac ailddiffinio rôl chwaraeon a hamdden. Wrth i rôl y gymuned a grwpiau eraill gynyddu o ran darpariaeth, byddwn yn sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei gynnig o ran hamdden yn addas i'r pwrpas ac yn sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian wrth i ni geisio gwella iechyd a lles ein dinasyddion.

Nodwyd ein bod yn awyddus i gadw ein lle a'n presenoldeb yng nghalon ein cymunedau drwy sicrhau bod ein llyfrgelloedd yn gweithio mewn partneriaeth a rhannu adeiladau, er mwyn sicrhau mynediad symlach, gwell a di-dor i bobl leol i'r wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

DRAFT

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2014/15?**

| **Ein Haddewid: Datblygu a gweithredu strategaeth hamdden ar gyfer y tymor canol i arwain penderfyniadau a lleihau'r angen i'r Cyngor fuddsoddi yn ystod oes y cynllun hwn drwy** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Datblygu Strategaeth Hamdden tymor hir a rheoli'r cyfleusterau a'r ddarpariaeth o weithgareddau yn effeithiol yng Nghanolfannau Hamdden Amlwch, Caergybi a Llangefni i annog trigolion Ynys Môn i fod yn fwy egnïol, yn fwy aml | Mabwysiadwyd y Cynllun Hamdden gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror 2014. Egwyddor graidd y Cynllun yw'r angen i fabwysiadu ymagwedd a diwylliant mwy masnachol i atgyfnerthu'r gwaith o foderneiddio a gwella'r ddarpariaeth hamdden. Mae'n cyflwyno opsiynau cysyniadau lefel uchel, tymor byr ar gyfer moderneiddio, gwella a gwarchod darpariaeth hamdden y Cyngor Sir yn y dyfodol. |
| Cynyddu presenoldeb a chyfranogiad yn y Canolfannau Hamdden a chreu incwm yn sgil hynny a chyflwyno system fodern ar gyfer llogi gweithgareddau a gwneud taliadau yn y Canolfannau Hamdden | • Cyfanswm o 502,204 wedi mynychu a chyfranogi yng Nghanolfannau Hamdden Ynys Môn yn 2014-15<br>• Gwelwyd cynnydd o £86,000 yn incwm y Canolfannau Hamdden o gymharu â'r flwyddyn flaenorol<br>• Cyflwynwyd systemau talu ar-lein ac maent yn cael eu defnyddio gan y Canolfannau Hamdden<br>• Cyfleusterau yng Nghanolfan Hamdden Caergybi (neuadd chwaraeon, ystafelloedd newid y pwll nofio a'r ystafell ffitrwydd) wedi cael eu hadnewyddu a'u moderneiddio |
| Gwella dulliau marchnata a hyrwyddo er mwyn annog mwy o gyfranogiad mewn gweithgareddau cymunedol presennol er mwyn cynyddu presenoldeb | • Wedi gwella'r gweithgareddau cymunedol presennol ac yn sgil hynny, gwelwyd cynnydd yn y nifer a oedd yn mynychu ac yn cyfranogi<br>• Ymgymerwyd â 50 o fentrau yn ystod 2014-15 er mwyn annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn |

| | |
|---|---|
| | gweithgareddau hamdden |

| **Ein Haddewid: Cydgysylltu ein cyfleusterau neuaddau chwaraeon dan do gyda'n darpariaeth yn yr ysgolion uwchradd a thrafod gyda darparwyr allanol cymunedol i redeg y cyfleusterau gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau Ysgol drwy** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Ystyried a datblygu modelau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y cyfleusterau mewn ffyrdd gwahanol fel rhan o ddatblygu'r Strategaeth Hamdden tymor hir | • Cynhaliwyd Gwerthusiad Opsiynau a nododd mai Newid Diwylliant Masnachol oedd y ffordd ymlaen yr oedd y Gwasanaeth yn ei ffafrio oherwydd y bydd yn cefnogi ac yn arwain at greu swyddogaeth Hamdden sy'n fwy cynaliadwy o safbwynt ariannol gyda systemau a phrosesau cadarn a modern i wella perfformiad; gwella'r modd o gynhyrchu incwm er mwyn lleihau dibyniaeth ar gymhorthdal y Cyngor Sir, cyfrannu tuag at arbedion effeithlonrwydd a sicrhau mwy o aliniad gydag anghenion y cwsmeriaid a'r cydranddeiliaid sy'n newid yn gyson. |

| **Ein Haddewid: Annog datblygu a chefnogi'r ddarpariaeth o weithgareddau chwaraeon a hamdden yn y cymunedau, gan y cymunedau** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Ystyried a datblygu modelau ar gyfer darparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol a manteisio ar amgylchedd naturiol yr ynys i gyflwyno cyfleoedd o ran gweithgareddau awyr agored | *Gweler isod wybodaeth ynghylch cyfleusterau Awyr Agored Caergybi a Chlwb Golff Llangefni* |
| Allanoli nifer o gyfleusterau awyr agored / cymunedol yng Nghaergybi | • Wedi cychwyn y broses o allanoli cyfleusterau awyr agored er mwyn sicrhau dyfodol cyfleusterau craidd y Gwasanaeth. (ee Caeau Chwarae Trearddur ) |
| Sefydlu Rhaglen i gynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau awyr agored | • Nifer y sawl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau awyr agored wedi cynyddu i 6,519 |
| Adnabod model newydd ar gyfer darparu gwasanaeth yng Nghwrs Golff Llangefni | • Aethpwyd ati i Allanoli Clwb Golff Llangefni gan drosglwyddwyd wedi hynny i fenter gymdeithasol gyda ystyriaeth bellach i'w roi i'w ddyfodol tymor hir |

DRAFT

| **Ein Haddewid: Ymchwilio i opsiynau a gweithredu model diwygiedig ar gyfer darparu gwasanaeth Llyfrgelloedd** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Sefydlu a chyflwyno gwerthuso opsiynau posibl ar gyfer cynnal Gwasanaeth Llyfrgell mewn modd cynaliadwy yn y dyfodol a chynllunio a chytuno ar fodel addas sy'n gweddu orau i anghenion trigolion Ynys Môn a'r adnoddau sydd ar gael. | • Parhawyd i weithio ar Adroddiad ar fodel Gwasanaeth Llyfrgelloedd a ffefrir |

| **Ein Haddewid: Ymchwilio i opsiynau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth yn ein safleoedd treftadaeth ddiwylliannol a gweithredu trefniadau rheoli newydd (os yw'n berthnasol)** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| • Asesu'r opsiynau gorau posibl ar gyfer rheoli a hyrwyddo ein holl Safleoedd Treftadaeth yn y dyfodol | • Datblygwyd model a ffefrir a fydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yn ystod Mawrth/Ebrill 2015 |

| Disgrifiad DP | 2013/14 | 2014/15 | Tueddiad bl ar fl | Chwarteil ar sail 13/14 |
|---|---|---|---|---|
| LCS/002b: Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol | 8767.29 | 8434 | ↓ | |
| LCL/001b: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | 4024.47 | 4166 | ↑ | |
| LCL/004: Nifer y deunyddiau llyfrgell a gyhoeddwyd, yn ystod y flwyddyn, fesul 1,000 o'r boblogaeth | 309 | 287.5 | ↓ | N/A |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| No of attendances (young people) at sports development/outreach activity programmes | 130K | 144K | ↑ | N/A |

**Dadansoddi Perfformiad a Data cymaradwy pellach**

*** I'w gwblhau unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data Dangosyddion Perfformiad ar gyfer 2015/16**

# Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a Chymunedau

Fe wnaethom ddatgan fod gennym lawer i'w wneud eto i safoni a symleiddio prosesau a thrwy ein gwaith gyda Chynghorau eraill, rydym yn rhagweld y byddwn yn sicrhau effeithlonrwydd pellach yn ein swyddogaethau cefnogi a gwell gwydnwch o ran gwasanaethau arbenigol a sgiliau prin. Dywedasom mai rhan hanfodol o drawsnewid ein Cyngor yw gwrando ar yr hyn y mae ein dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a busnesau yn ei ddweud - a gweithredu ar hynny. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol tuag at ddarparu gwasanaethau'n well a bydd hyn ond yn gwella eto. Fe ddywedasom hefyd y byddwn yn gwneud y mwyaf o'n technegau cyfathrebu dwyieithog trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel 'Facebook' a Trydar yn ogystal â grwpiau traddodiadol wyneb yn wyneb, grwpiau ffocws, paneli dinasyddion a sioeau teithiol cyhoeddus.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2014/15?**

| **Datblygu , cytuno a llofnodi siarter cwsmer gadarn a dilys sydd yn gosod disgwyliadau penodol ar ein staff wrth ddelio â chwsmeriaid** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Cymeradwyo a mabwysiadu Siarter Cwsmer yn dilyn ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori ffurfiol | • Archwiliwyd ac adolygwyd ein sefyllfa gyfredol a chytunwyd ar safonau sylfaenol ar gyfer mynediad i'n hadeiladau a chyflwr yr adeiladau hynny<br>• Ymgynghorwyd ynghylch a mabwysiadwyd Siarter Gwasanaeth Cwsmer a lansiwyd yn ffurfiol yn Rhagfyr 2014 – a chynhaliwyd cynllun peilot mewn dau wasanaeth rheng flaen yn ystod Ionawr 2015 a byddir yn ei ymestyn i'r holl wasanaethau eraill erbyn Gorffennaf 2015 |
| Gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor er mwyn recriwtio staff a dylunio a mabwysiadu arferion gwaith sy'n bodloni anghenion ein cwsmeriaid orau yn y dyfodol | • Cynhaliwyd Gwerthusiad Dichonoldeb o Opsiynau yn ystod y flwyddyn a nodwyd mai'r opsiwn gorau fyddai gweithio gyda chwmni marchnata lleol yn amodol ar gytundeb mewn perthynas â manyleb a chost |

| **Ein Haddewid: Datblygu a chryfhau ein hymgysylltiad gyda dinasyddion Ynys Môn a'u cynnwys ym mhrosesau'r Cyngor o ran atebolrwydd a gwneud penderfyniadau drwy** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |

| | |
|---|---|
| Gefnogi’r Prosiect partneriaeth 4 blynedd Lleisiau Cymunedol "Gwrandewch” (a gychwynnodd yn Ebrill 2013) er mwyn ymgysylltu mwy ag unigolion a chymunedau wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus ar Ynys Môn | • Sefydlwyd mewn partneriaeth â Medrwn Môn, Fwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori i yrru gwaith ymgysylltu<br>• Cadarnhawyd trwy’r Bwrdd, galendr cynhwysfawr o ran ymgysylltu ac ymgynghori ar lefel gorfforaethol<br>• Llwyddwyd i sicrhau, drwy Lleisiau Cymunedol, bartneriaid ymgynghori ar gyfer y dyfodol<br>• Sefydlwyd, trwy Lleisiau Cymunedol, ymagwedd bartneriaethol tuag at anghenion a gofynion yn y dyfodol o fewn ac o gwmpas Ward Seiriol, Ynys Môn<br>• Ymgysylltwyd ac ymgynghorwyd ar strategaeth effeithlonrwydd newydd yn amlinellu meysydd o bwys ac arbedion ar gyfer ein trigolion |

| **Ein Haddewid: Archwilio ansawdd yr adeiladau y mae cwsmeriaid yn derbyn gwasanaethau ynddynt, gan anelu at gyrraedd safon gyson ar draws y Cyngor sy'n cyflwyno’r ddelwedd gywir ar gyfer y gwasanaethau sydd ar gael drwy** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Archwilio opsiynau o ran dyluniad prif adeilad swyddfa’r Cyngor gan ganolbwyntio i ddechrau ar y dderbynfa gyda golwg ar greu ardal amlswyddogaethol yn seiliedig ar y safonau a gynigir yn y Siarter Gwasanaeth Cwsmeriaid | • Cynhyrchwyd a gweithredwyd Achos Busnes Llawn (Medi 2014) ar gyfer ailfodelu’r brif dderbynfa, ailstrwythuro’r gofod sydd ar gael yn y swyddfeydd (ar gyfer Gweithio Hyblyg) ac ailfodelu’r gweithlu gweinyddol.<br>• Y nod yn y tymor hwy yw cyflawni’r isod:<br>    ➢ Cwsmeriaid yn derbyn cyfarchiad CSYM cyson gan y staff yn yr un brif dderbynfa<br>    ➢ Cwsmeriaid yn derbyn ateb i’w hymholiadau (sylfaenol) yn y pwynt cyswllt cyntaf – ateb sydyn mwy derbyniol<br>    ➢ Mae gan gwsmeriaid fynediad i wasanaethau drwy’r cyfrifiaduron sydd ar gael i’r cyhoedd gan annog newid |

| | |
|---|---|
| | sianel tuag at hunan-wasanaeth a datblygu sgiliau i gael at wasanaethau o leoliadau sydd fwyaf cyfleus iddynt hwy<br>➢ Mae cwsmeriaid yn derbyn cymorth gan swyddogion pan fydd angen hynny i lenwi ffurflenni, hawliadau budd-daliadau a llogi cyfleusterau ac ati<br>➢ Mae cwsmeriaid yn awr yn cael ymateb mwy cyson o safon uwch i'w galwadau ffôn |

| **Sicrhau hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig drwy greu a gweithredu ar strategaeth iaith Gymraeg ddatblygedig** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Sy'n nodi'r  prif flaenoriaethau ar gyfer y Strategaeth Iaith Gymraeg trwy gyfarfodydd rheolaidd o'r Fforwm Iaith Gymraeg | • Wedi gweithio ochr yn ochr â phartneriaid eraill (e.e. Horizon – sydd wedi penodi Swyddog Iaith penodol) i edrych ar ddylunio a cynnal astudiaeth gwaelodlin o'r iaith Gymraeg ar Ynys Môn |

DRAFT

# Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu ( TGCh )

Wrth drawsnewid ein gwasanaethau, bydd adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon ac effeithiol i gyflawni targedau a nodir a chynllunio'n unol â hynny. Bydd y Cyngor yn dod yn sefydliad 24/7 drwy ddefnyddio sianeli megis gwefannau a chyfryngau cymdeithasol, dulliau sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan ein cwsmeriaid i ddiwallu llawer o'u hanghenion personol neu fusnes fel bancio neu siopa. Fel hyn, gall ein cwsmeriaid gael mynediad at yr hyn y maent ei angen, pan fyddant ei angen, ble bynnag y maent ac yn eu dewis iaith.

Gellir rhyngweithio yn electronig, yn fewnol ac yn allanol ac ar bob lefel. Bydd cyfathrebu wyneb yn wyneb a ffyrdd eraill ar gael ar gyfer y rhai sydd eu hangen. Drwy newid systemau, byddwn yn rhyddhau staff i 'wneud eu gwaith' o fewn ffiniau clir gan ddefnyddio prosesau sy'n gadarn eto'n ystwyth. Bydd ein systemau yn cefnogi ein blaenoriaethau a byddir yn rhesymoli'n drylwyr i sicrhau nad yw'r systemau hynny nad ydynt yn cefnogi'n blaenoriaethau yn cael eu defnyddio mwyach.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2014/15?**

| **Ein Haddewid: Galluogi staff i gael mynediad at y systemau cyfrifiadurol sydd eu hangen arnynt yn ddiogel o unrhyw leoliad drwy:** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Gweithredu'r weledigaeth Prosiect Gweithio'n Gallach i alluogi staff i gyflawni eu dyletswyddau mewn modd mwy hyblyg | • Cwblhawyd cam 1 y prosiect i ailfodelu ardal y brif dderbynfa a gofod yn y swyddfeydd i hwyluso gweithio hyblyg ac, yn ogystal ailfodelwyd ein gweithlu gweinyddol. |

| **Ein HaAddewid: Galluogi cwsmeriaid a dinasyddion i gyfathrebu gyda'r Cyngor yn electronig dros y we ar amser ac mewn lleoliad sy'n gyfleus iddynt drwy:** | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Cyflwyno 'System strategol ar gyfer Rheoli'r Berthynas gyda'r Cwsmer (CRM)' sy'n galluogi cwsmeriaid i gynnal eu trafodion o'r dechrau i'r diwedd heb unrhyw ymyrraeth, os o gwbl, gan swyddogion | • Mae grŵp Tasg a Gorffen wedi bod yn edrych ar y broses ar gyfer Rheoli'r Berthynas gyda'r Cwsmer ar draws y Cyngor ac wedi penderfynu cynnal archwiliad o ymarferoldeb y systemau cyfredol drwy nodi bylchau ac yna baratoi achos busnes ar gyfer yr opsiwn gorau i fynd â'r rhaglen hon yn ei blaen. |



DRAFT

| Ein Haddewid: Sicrhau bod gwasanaethau yn defnyddio technoleg yn fwy eang i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol drwy: | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Weithredu'r cynnig Gweithio'n Gallach/Gweithio Hyblyg a sicrhau bod gan ein staff ddyfeisiau symudol priodol fel y gallant gyflawni eu dyletswyddau mewn modd effeithlon ac effeithiol | • Mae'r Cyngor wedi symud y rhaglen hon yn ei blaen drwy ymestyn ymhellach offer symudol (e.e. Vasco=60, Helix=35 a Tablets=14). Yn ychwanegol at hyn, gwnaed datblygiadau o ran galluedd symudol drwy'r System Orchard (Tai) ynghyd â'r System Cronfa Gofal Integredig (Gwasanaethau Cymdeithasol) sy'n galluogi cydweithio agosach gyda Chydweithwyr Iechyd |
| Ymchwilio i ddatrysiadau ar gyfer gwella mynediad diogel o bell at systemau corfforaethol a darparu cymorth busnes wrth wneud penderfyniadau i hyrwyddo gwasanaethau awtomataidd ac opsiynau hunanwasanaeth wrth adolygu datrysiadau TG cyfredol | • Datrysiadau TGCh VASCO – a CITRIX wrthi'n cael eu hystyried i gefnogi'r rhaglen gweithio'n gallach yn y dyfodol |
| Hyrwyddo'r angen i sefydlu rhyngwynebau, lle bo hynny'n bosibl, rhwng systemau TGCh gwahanol i gael mwy o elw ar fuddsoddiad a chael cael gwared ar ddyblygu a gwallau a rhannu asedau corfforaethol lle bynnag y bo modd | • Sefydlwyd grŵp tasg i ddatblygu dogfen TGCh strategol sy'n amlinellu dull yr awdurdod tuag at dechnoleg a'r defnydd ohoni er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau a sicrhau fod busnes yn gwella. |

| Ein Haddewid: Chwilio am dechnolegau TGCh newydd i gwrdd ag anghenion y Cyngor a dinasyddion yr Ynys rŵan ac yn y dyfodol drwy: | |
|---|---|
| **Gweithredu Arfaethedig** | **Yr hyn a wnaethom** |
| Ddatblygu a darparu datrysiad wrth gefn cadarn i gefnogi'r systemau TG sy'n hanfodol ar gyfer busnes ac a fydd yn cefnogi trawsnewid yr Awdurdod | • Gweithredu prosiect i gytuno ar y fanyleb ar gyfer system gyflogres ac AD hollol integredig a dwyieithog<br>➢ Manyleb System Cyflogres (Ionawr 2015)<br>➢ Manyleb System Adnoddau dynol (Iawst 2014) |
| Datblygu a defnyddio e-ffurflenni drwy wefan gorfforaethol yr Awdurdod er mwyn galluogi dinasyddion Ynys Môn, partneriaid busnes a'r | • Addaswyd 26 o ffurflenni papur yn ffurflenni electronig drwy gynllun graddedigion "Go- |

| | |
|---|---|
| gymuned ehangach i gyfathrebu a chael gafael ar wybodaeth yn ystod a'r tu allan i oriau busnes arferol | Wales"<br>• Datblygu ffurflenni ar-lein dwyieithog drwy FIRMSTEP (Llwyfan i wella rhyngweithio gyda'r dinasyddion, gwella effeithlonrwydd ac arbed costau drwy symud gwasanaethau ar-lein). |
| Cefnogi a gwella cysylltedd rhwydweithiau band eang cyflym a symudol  ar gyfer dinasyddion Ynys Môn | • Defnyddiwyd cymorth grant gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu band eang cyflymach ar gyfer ysgolion<br>• Gweithio gyda darparwyr rhwydwaith i gael y fargen orau bosibl o ran gwasanaeth ffôn a chostau ar gyfer 3G/4G yn Ynys Môn |

DRAFT

# Perfformiad Corfforaethol

Dyma'r ail flwyddyn ers i'r Cyngor fabwysiadu'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol - dull sy'n edrych ar sut yr ydym yn cyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol ac yn monitro dangosyddion iechyd corfforaethol sy'n sail i holl waith y cyngor. Mae'r cerdyn sgorio terfynol ar gyfer 2014/15 yn edrych ar ddata diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15, ac yn rhoi darlun o leoliad y Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol ar gyfer y flwyddyn.

Mae'n dangos bod yr agenda gwelliant parhaus y mae'r Gweinyddiaeth presennol wedi sefydlu yn cael ei wireddu yn hynny -

- Mae cyfraddau salwch staff wedi gwella – mae gwybodaeth diwedd y flwyddyn yn dangos ffigwr o 3,886.81 diwrnod sydd yn welliant eto o'r un cyfnod y llynedd (4,446.54 diwrnod) sydd yn dangos salwch tymor byr cyffredinol o 12,777, gwelliant o 3,500 o ddiwrnodau salwch o gymharu â 13/14 (16,272 diwrnod). Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gennym llawer i'w wneud i gymharu'n ffafriol a mwyafrif Awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

- Mae glynu at bolisïau a rheoli salwch drwy gwblhau cyfweliadau dychwelyd i waith (DIW) yn gwella - gyda data Chwarter 4 yn dangos y bu i 85% DIW ei gynnal yn ystod 2014/15 o'i gymharu â 77% ar gyfer yr un cyfnod yn 2013/14

- Mae nifer y pryderon a godwyd a nifer yr atgyfeiriadau i'r ombwdsmon wedi lleihau- erbyn diwedd y flwyddyn derbyniwyd 65 o gwynion ffurfiol a bu i gyda 61 o'r 65 wedi cael ymateb - ac o'r holl gwynion dim ond 5 a gafodd eu cadarnhau yn llawn, 11 eu cadarnhau yn rhannol a'r 45 sy'n weddill ddim yn cael eu cadarnhau. Mae'r ffigwr terfynol o 65 o gwynion yr un fath ag yr oedd ar gyfer 13/14. Yn ogystal, mae cyfanswm o 90.8% o gwynion yn cael eu hateb o fewn yr amserlen, gyda dim ond 6 ymateb hwyr.

- Mae targedau perfformiad wedi cael eu cyrraedd yn y mwyafrif o'r dangosyddion gyda 20 allan o 27 o ddangosyddion a gydnabyddir yn y cerdyn sgorio yn gweld gwelliant



DRAFT

# Manylion Pellach

**I gael mwy o wybodaeth am unrhyw beth yn y ddogfen hon neu i wneud unrhyw sylwadau, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:**

**Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr**
**Cyngor Sir Ynys Môn**
**Swyddfeydd y Cyngor**
**Llangefni Ynys Môn**
**LL77 7TWF**
**fôn - 01248 752111E**
**-bost - GethinMorgan@ynysmon.gov.uk**

**Mae'r ddogfen hon ar gael ar dâp, mewn braille ac ar y wefan y Cyngor:**
**www.ynysmon.gov.uk/cynlluncorfforaethol**

**Gellwch gael mwy o wybodaeth hefyd fel a ganlyn:**
**Gellir gweld polisïau, cynlluniau a strategaethau a gyhoeddir gan y Cyngor www.ynysmon.gov.uk**

**Mae'r Cynllun Gwella Blynyddol ar gael ar wefan y Cyngor trwy glicio ar y ddolen a ganlyn:**
**www.ynysmon.gov.uk/AGBSAC**

**Mae Adroddiadau Archwilio ac Arolygu a gynhyrchwyd gan Reoleiddwyr y Cyngor ar gael ar eu gwefannau unigol fel a ganlyn:**

- **Swyddfa Archwilio Cymru:**
  **www.wao.gov.uk**
- **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:**
  **www.cssiw.org.uk**
- **Estyn:**
  **www.estyn.gov.uk**

**Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, neu i gael dogfen nad yw wedi ei rhestru uchod, cysylltwch â'r Cyngor os gwelwch yn dda trwy'r manylion cyswllt a amlinellir ar frig y dudalen hon.**



DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI** |
| **Dyddiad:** | **6 GORFFENNAF 2015** |
| **Pwnc:** | **MATRICS SGORIO STRATEGAETH GYFALAF 2015** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD H. E. JONES** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **RICHARD MICKLEWRIGHT (Est. 2601)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Bethan H. Owen<br>01248 52663<br>BethanHughesOwen@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

- Argymhellir nodi a chymeradwyo'r matrics sgorio ar gyfer y strategaeth gyfalaf a TG am flwyddyn ariannol 2016/17.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Ym mis Chwefror 2016, bydd y Cyngor yn gosod cyllideb gyfalaf oddeutu £7m, ac eithrio llithriad ac unrhyw Grantiau eraill a ddyfernir ar ôl y dyddiad hwn.
- Yn yr adroddiad hwn, nodir y matrics sgorio ar gyfer y bidiau cyllideb gyfalaf am y flwyddyn ariannol 2016/17.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydyw

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol

| | **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151**(mandadol) | d/b – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (**mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| | **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - | Atodiadau: |
|---|---|
| | Atodiad A – Gwybodaeth Gefndir<br>Atodiad B – Strategaeth Gyfalaf 2015<br>Atodiad C – Matrics Sgorio 2015 |
| **FF –** | **Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| | • Cyllideb Gyfalaf 2015/16, fel y cafodd ei hargymell gan y Cyngor ar 26 Chwefror 2015; a<br>• Strategaeth Gyfalaf 2015/16 - 2014 |

## 1. CEFNDIR

**1.1** Nodwyd Strategaeth Gyfalaf 2014 mewn adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar 14 Gorffennaf 2014 ac, yn y strategaeth hon, amlinellwyd y weithdrefn ar gyfer sgorio'r bidiau unigol a'r gwerthusiad o'r opsiynau.

**1.2** Pwrpas yr adroddiad hwn yw mofyn cymeradwyaeth gan Sgriwtini ar fethodoleg sgorio'r matrics sgorio cyfalaf fel sylfaen ar gyfer cychwyn y broses o gytuno ar rhaglen gyfalaf ar gyfer y Strategaeth Gyfalaf am 2015 a fydd yn cynnwys blwyddyn ariannol 2016/17.

## 2. STRATEGAETH GYFALAF

**2.1** Hon fydd yr ail flwyddyn ariannol i'r Cyngor fod â Strategaeth Gyfalaf ffurfiol, mae mabwysiadu Strategaeth Gyfalaf ffurfiol wedi gwella proses rheolaeth ariannol y Cyngor.

**2.2** Mae Strategaeth Gyfalaf 2015 ynghlwm fel Atodiad B. I grynhoi, mae'n pennu proses ar gyfer nodi a chyflwyno i'r Aelodau i'w hystyried, restr o gynlluniau cyfalaf posibl ar gyfer y flwyddyn i ddod ond wedi eu gosod yng nghyd-destun y modd y bydd y cynlluniau arfaethedig o gymorth i gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol (neu ofynion statudol eraill) y mae'r Aelodau wedi eu pennu ar gyfer y Cyngor.

## 3. CYLLID CYFALAF

**3.1** Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi cytuno ar Raglen Gyfalaf bob blwyddyn, yr un modd â'r Gyllideb Refeniw, gyda phob blwyddyn yn cael ei hystyried ar wahân i flynyddoedd eraill.

**3.2** Bydd y cynigion cyfalaf a gyflwynir yn newid hyn i drefniant a fydd yn cynllunio mwy ar gyfer y tymor canol ac a fydd yn edrych ymlaen i'r ychydig flynyddoedd nesaf. Mae hyn yn cyd-fynd yn well â natur cynlluniau cyfalaf sydd, yn aml, yn rhedeg dros ragor nag un flwyddyn ariannol oherwydd materion yn ymwneud â maint ac / neu gymhlethdod.

**3.3** Bydd rhestr o gynlluniau posibl i'r Aelodau i ystyried eu gweithredu o 1 Ebrill 2016 yn cael ei datblygu dros yr haf a bydd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn gynnar yn yr hydref - yn fras, o gwmpas yr amser ar gyfer gosod y gyllideb refeniw.

## 4. GWERTHUSIAD O'R OPSIYNAU

**4.1** Mae'r mecanwaith sgorio a weithredwyd gan y Grŵp Prosiect Cyfalaf i asesu cynlluniau cyfalaf posibl yn seiliedig ar asesu:-

- Ei gyfraniad o ran cyflawni blaenoriaethau corfforaethol;
- Y lefel o risg gorfforaethol y mae'r cynllun yn ei lliniaru;
- Yr angen i gyflawni'r cynllun er mwyn cydymffurfio gyda gofynion statudol, iechyd a diogelwch, cyfrifoldebau Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd neu debyg er mwyn lliniaru her;
- Lefel y cyllid allanol/cyllid ar y cyd neu gyllid cyfatebol sydd ar gael;
- Effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu botensial y cynllun o ran "buddsoddi i arbed".

**4.2** Mae'r meini prawf hyn yn adlewyrchu'r angen i ganolbwyntio adnoddau cyfalaf ar brosiectau a chynlluniau a fydd yn cyflawni amcanion yr Awdurdod, yn lliniaru eu risgiau mawr ac yn darparu cymorth neu'n lleihau'r pwysau ariannol ar y gyllideb refeniw. Y rhain yw'r ystyriaethau allweddol i sicrhau fod adnoddau yn cael eu canolbwyntio ar brif anghenion y Cyngor.

**4.3** Yn ychwanegol at y meini prawf hyn, bydd asesiad o risg o ran cyflawni yn cael ei gynnal ar gyfer pob cynllun, unwaith y byddant wedi eu cymeradwyo (gan ddefnyddio dadansoddiad CAG), er mwyn darparu trosolwg o gynnydd y cynlluniau yn erbyn targedau ac i nodi lle byddai angen diwygio targedau a chyllidebau.

**4.4** Gwelir y canllawiau ar gyfer sgorio pob un o'r meini prawf yn Atodiad C:-

# STRATEGAETH GYFALAF 2015

**Cyngor Sir Ynys Môn**
**Swyddfeydd y Sir**
**Llangefni**
**Ynys Môn**
**LL77 7TW**

**Rhif Ffôn : 01248 750057**

**Ffacs : 01248 752696**

# CYNNWYS


**1. Cyflwyniad a Chyd-destun**

- **1.1 Cyflwyniad**
- **1.4 Fframwaith Corfforaethol**
- **1.7 Gweledigaeth Gorfforaethol**

**2. Polisi Asedau Corfforaethol**

- **2.1 Amcanion Asedau Eiddo Corfforaethol**

**3. Paratoi Rhaglen Gyfalaf a Dyrannu Adnoddau Cyfalaf**

- **3.3 Y Broses Fidio**
- **3.9 Gwerthuso Opsiynau**
- **3.13 Blaenoriaethau Corfforaethol**
- **3.15 Cydymffurfio â Statud a Rheoliadau**
- **3.17 Ariannu'r Cynllun**
- **3.18 Effaith y Cynllun ar y Gyllideb Refeniw**
- **3.20 Rheoli Prosiectau**


**ATODIADAU**


**Atodiad A Ffurflen Bidiau Cyfalaf**
**Atodiad B Cylch Gorchwyl Grŵp Asedau Tir ac Adeiladau Corfforaethol**

## 1. CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

### Cyflwyniad

**1.1** Mae'r ddogfen hon yn nodi'r modd y mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn rheoli ei asedau eiddo ac yn dyrannu a rheoli adnoddau cyfalaf. Drwy reoli ei asedau eiddo yn effeithiol, mae'r Cyngor yn anelu at gael y lle iawn, ar yr adeg iawn, yn y lleoliad iawn ac am y pris iawn gyda hynny'n cefnogi ei Flaenoriaethau ac Amcanion Corfforaethol.

**1.2** Mae'r prif gyfrifoldeb am y Strategaeth Rheoli Asedau a'r Strategaeth Gyfalaf yn disgyn i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) a'r Grŵp Rhaglen Gyfalaf (GRhG) sy'n cael eu cadeirio gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yn y drefn honno.

**1.3** Athroniaeth y Cyngor yw cynnal lywodraeth leol gref, annibynnol, effeithiol a moesegol ar gyfer y bobl, sy'n cynrychioli holl bobl ac yn mynd i'r afael ag anghenion. Bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu arweiniad drwy fod yn arloesol a thrwy gynrychioli anghenion lleol ar lefel ranbarthol a chenedlaethol yn egnïol. Byddwn yn gosod y cyflymder ar gyfer newid, cydweithrediad rhwng yr holl asiantaethau cyhoeddus ac yn ceisio gweithio'n agos gyda'r cymunedau gwirfoddol a busnes.

### Fframwaith Corfforaethol

**1.4** Mae'r Cynllun Corfforaethol 2013/2017 yn nodi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y sefydliad. Mae'n dangos sut y byddwn yn cyrraedd lle yr ydym eisiau mynd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae hefyd yn gosod y cyd-destun ar gyfer cynlluniau gwasanaethau'r Cyngor a chynlluniau gwaith unigol sy'n troi hyn yn realiti.

**1.5** Mae'r Cynllun yn dempled ar gyfer y Cyngor, ond mae hefyd yn arf pwysig i ddangos i staff, preswylwyr a phartneriaid lle mae Cyngor Sir Ynys Môn yn mynd yn ystod 2013/2017.

**1.6** Mae'r Cyngor wedi sefydlu ystod eang o bolisïau a rheolau ar safonau ymddygiad sydd, gyda'i gilydd, yn darparu polisïau moesegol sy'n llywodraethu'r ffordd y mae'r Cyngor yn cynnal ei fusnes.

### Gweledigaeth Gorfforaethol

**1.7** Mae'r Cynllun Gwella a Thrawsnewid yn nodi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y sefydliad. Mae'n dangos sut y bydd y Cyngor yn cyrraedd y lle y mae'n dymuno mynd yn ystod y pedair blynedd nesaf.

**1.8** Blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor yw: -

- trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn;
- adfywio ein Cymunedau a datblygu'r economi;
- gwella Addysg, Sgiliau a moderneiddio ein hysgolion;
- cynyddu ein dewisiadau Tai a lleihau tlodi;
- trawsnewid ein darpariaeth o Lyfrgelloedd a Chyfleusterau Hamdden;
- canolbwyntio ar ein Cwsmeriaid, ein Dinasyddion a'r Gymuned;
- trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu.

**1.9** Mae strwythurau gwleidyddol a rheolaethol y Cyngor wedi'u cynllunio i hwyluso'r broses o gyflawni amcanion allweddol i sicrhau'r blaenoriaethau hyn. Mae targedau sy'n sail i'r amcanion yn cael eu gosod allan yn y Cynllun Corfforaethol. Mae'r targedau hyn wedyn yn cael eu rhannu drwy'r Penaethiaid Gwasanaeth i uwch reolwyr a staff drwy baratoi Cynlluniau Gwasanaeth a phroses gwerthuso staff y Cyngor. Yr un modd, mae'r egwyddor rhaeadru yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r modd y mae eu swyddogaethau'n ffitio i mewn i gyfeiriad cyffredinol y Cyngor.

**1.10** Yn ogystal â'r blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol, mae'r Cyngor yn sicrhau bod adnoddau cyfalaf priodol yn cael eu cyfeirio at ei asedau presennol i sicrhau bod y rhain mewn cyflwr da ac i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r asedau hyn i ddarparu gwell gwasanaethau.

**1.11** Er mwyn sicrhau cysondeb a chyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol, mae'r UDA yn ganolog i'r broses o ddyrannu adnoddau.

**1.12** Wrth ystyried y Rhaglen Gyfalaf ddrafft ac asesu blaenoriaethau cysylltiedig, mae disgwyl i bob aelod o'r UDA roi sylw i flaenoriaethau gwasanaeth a nodwyd a Dogfennau a Strategaethau Corfforaethol, gan gynnwys y Strategaeth Gyfalaf a Rheoli Asedau, y Strategaeth Dai, y Cynllun Trafnidiaeth Lleol a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

**1.13** UDA y Cyngor yw: -

- Y Prif Weithredwr;
- Swyddog Adran 151;
- Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygu Cynaliadwy;
- Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedol;
- Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro).

**1.14** Mae meysydd cyfrifoldeb a phwerau'r Swyddogion hyn a'u staff wedi'u nodi yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

## 2. POLISI ASEDAU CORFFORAETHOL

### 2.1 Amcanion Asedau Eiddo Corfforaethol

Mae'r Cyngor yn dal asedau eiddo am y rhesymau canlynol: -

- Darparu gwasanaeth;
- Dibenion Datblygu Economaidd;
- Creu incwm refeniw;
- Caffael strategol at ddibenion ailddatblygu;
- O ganlyniad i gytundeb Adran 106;
- Asedau treftadaeth;
- Asedau Cymunedol;
- Stad fân-ddaliadau fawr.

## 3. PARATOI'R RHAGLEN CYFALAF A DYRANNU ADNODDAU CYFALAF

**3.1** Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn awdurdod cymharol fychan ac, o'r herwydd, adnoddau cyfalaf a refeniw cyfyngedig sydd ganddo. Mae'n hanfodol bod yr Awdurdod yn sicrhau bod ganddo broses gwneud penderfyniadau cadarn er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu yn y ffordd fwyaf effeithiol.

**3.2** Er mwyn sicrhau fod adnoddau prin yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, mae Ffurflenni Bidiau Cyfalaf yn cael eu cwblhau ar gyfer pob prosiect dan ystyriaeth y byddai angen buddsoddiad cyfalaf ar ei gyfer. Mae methodoleg sgorio ar gyfer bidiau cyfalaf wedi cael ei ddatblygu sy'n sicrhau bod adnoddau cyfalaf yn cael eu cyfeirio i'r prosiectau hynny sy'n cyd-fynd yn dda â'n Blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol a materion perthnasol eraill. Mae'r broses bidio yn cael ei hesbonio yn fanwl isod. Mae Ffurflen Bid Cyfalaf ynghlwm fel Atodiad A.

### Y Broses Fidio

**3.3** Mae'r GRhG yn goruchwylio'r broses ar gyfer asesu bidiau cyfalaf a pharatoi'r rhaglen gyfalaf. Mae'r GRhG yn cynnwys y Swyddogion a ganlyn: -

- Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) (Cadeirydd);
- Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg;
- Cyfrifydd Cyfalaf;
- Cyfarwyddwr Strategol (Datblygu Cynaliadwy);
- Rheolwr y Rhaglen Gorfforaethol (Trawsnewid).

**3.4** Rôl y GRhG yw derbyn a choladu cynigion am fidiau cyfalaf, gan eu prosesu a mynd â Rhaglen Gyfalaf ddrafft trwy'r broses gymeradwyo. Mae'r GRhG hefyd yn monitro'r rhaglen a gymeradwywyd drwy gydol y flwyddyn.

**3.5** Mae'r broses flynyddol ar gyfer cyflwyno bidiau cyfalaf yn cynnwys methodoleg Rheoli Prosiectau Prince 2 ac fe'i hamlinellir isod: -

**3.6** Bob blwyddyn, gofynnir i Swyddogion ystyried prosiectau posibl ar gyfer y pum mlynedd nesaf. O bryd i'w gilydd, fodd bynnag, rhaid cymeradwyo prosiectau "brys" ychwanegol yn ystod y flwyddyn; yn yr achosion hyn, parheir i lynu wrth y gweithdrefnau uchod ond dros gyfnod byrrach, e.e dau fis.

**3.7** Mae'r GRhG yn asesu'r bidiau ac achos busnes pob cais. Bydd y GRhG yn gofyn i swyddogion gyfiawnhau ac esbonio unrhyw fidiau lle bo angen. Mae'r GRhG yn blaenoriaethu'r bidiau gan ddefnyddio meini prawf gwerthuso sy'n cynnwys sgorio yn erbyn y Cynllun Corfforaethol a materion pwysig eraill ac unrhyw wybodaeth/ blaenoriaethau perthnasol eraill. Efallai na fydd bidiau na sgori'n dda yn cael eu hargymell ar gyfer eu cynnwys yn y rhaglen.

**3.8** Yn seiliedig ar yr ymarfer gwerthuso a'r asesiad gan Reolwyr Ariannol ynghylch lefel yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael a'r gost o ariannu prosiectau, bydd y GRhG wedyn yn llunio rhaglen ddrafft i'w hargymell i'r grŵp Penaethiaid Gwasanaeth a'r UDA ac, ar ôl i hynny, i'r Grŵp Arweinydd / Dirprwy Arweinyddion neu i'r Pwyllgor Gwaith anffurfiol. Bydd y UDA, yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinyddion yn trafod y rhaglen arfaethedig a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol yn seiliedig ar eu barn am flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol ac unrhyw faterion eraill y maent yn dymuno rhoi sylw iddynt.

**Gwerthuso Opsiynau**

**3.9** Mae'r mecanwaith sgorio a weithredir gan y GRhG i asesu cynlluniau cyfalaf posibl yn seiliedig ar asesu: -

- Ei gyfraniad at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol;
- Lefel y risg gorfforaethol y mae'r cynllun yn ei lliniaru;
- Yr angen i gyflawni'r cynllun mewn modd sy'n cydymffurfio â gofynion statudol, iechyd a diogelwch, cyfrifoldebau DDA neu anghenion tebyg i liniaru her;
- Lefel y cyllid allanol neu gyllid ar y cyd / cyllid cyfatebol sydd ar gael o bosibl;
- Yr effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu botensial "buddsoddi i arbed" y cynllun.

**3.10** Mae'r meini prawf hyn yn adlewyrchu'r angen i ganolbwyntio adnoddau cyfalaf ar brosiectau a chynlluniau sy'n cyflawni amcanion yr Awdurdod, lliniaru ei brif risgiau a darparu cefnogaeth neu leihau'r pwysau ariannol ar y gyllideb refeniw. Y rhain yw'r ystyriaethau allweddol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu canolbwyntio ar brif anghenion y Cyngor.

**3.11** Yn ychwanegol at y meini prawf hyn, bydd asesiad o'r risg o ran cyflawni yn cael ei gynnal ar gyfer pob cynllun, ac ar ôl ei gymeradwyo (gan ddefnyddio dadansoddiad CAG), er mwyn darparu trosolwg o gynnydd y cynlluniau yn erbyn targedau ac i nodi lle y gallai fod angen diwygio'r targedau a chyllidebau.

**3.12** Ceir isod ganllawiau ar gyfer sgorio pob maen prawf:-

**Blaenoriaethau Corfforaethol**

**3.13** Ni fedr unrhyw gynllun symud ymlaen i gael ei sgorio'n llawn oni bai fod y Pennaeth Gwasanaeth yn sicr y bydd y cynllun yn helpu i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau corfforaethol a'i fod yn cydymffurfio ag amcanion corfforaethol yr Awdurdod. Bydd y ffactor yn cael ei sgorio ar amrediad o 0 (dim yn berthnasol i flaenoriaethau) i 10 (hanfodol bwysig i gyflawni blaenoriaethau).

**Risg Gorfforaethol**

**3.14** Mae'r sgôr hwn yn adlewyrchu i ba lefel y byddai gweithredu'r cynllun yn lleihau'r risg gorfforaethol a wynebir gan yr Awdurdod. Lle bo modd, dylid cyfeirio at y gofrestr risg gorfforaethol. Mae risg i enw da a risg i barhad busnes hefyd yn cael eu hystyried yn yr adran hon. Bydd y ffactor yn cael ei sgorio gan ddefnyddio'r ystodau canlynol:-

| | | |
|---|---|---|
| 0 | = | Dim risg o gwbl |
| 1-3 | = | tebygolrwydd lefel isel ac / neu effaith fach |
| 3-6 | = | Posibilrwydd tebygol ac / neu effaith ganolig |
| 6-10 | = | Digwyddiad mwyaf tebygol ac / neu effaith lefel uchel |

**Cydymffurfio â statud a rheoliadau**

**3.15** Mae gan y Cyngor Sir rwymedigaethau y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â nhw dan statud yn y ddarpariaeth o wasanaethau a rheoliadau, megis Iechyd a Diogelwch, Gwahaniaethu ar sail Anabledd a gofynion y Comisiynydd Gwybodaeth.

**3.16** Mae'n hanfodol bod y dyletswyddau hyn yn cael eu cyflawni er mwyn osgoi unrhyw her ac erlyniad posibl. Mewn ffordd debyg i'r fframwaith rheoli risg a ddefnyddir ar gyfer y gofrestr Risg Corfforaethol, mae'r lefel o debygolrwydd ac effaith yr heriau hyn yn cael eu hystyried a'u hadlewyrchu yn y sgôr.

**Ariannu'r cynllun**

**3.17** Lle ystyrir bod cyllid allanol neu botensial i rannu cyllid (a risg) i ddarparu'r cynllun yn debygol, yna rhoddir sgôr sy'n amodol ar lefel y gefnogaeth a'r tebygolrwydd o sicrhau'r cyllid.

| | | |
|---|---|---|
| 0 | = | Dim cyllid o gwbl, y cyfan yn cael ei gyllideo o gronfeydd Cyfalaf y Cyngor Sir |
| 1 - 5 | = | hyd at 50% o'r cyllid yn debygol o ddod o ffynonellau allanol neu fod y cynllun hwn yn brosiect ar y cyd â sefydliad arall |
| 6 - 10 | = | Lefel uchel o gyllid ac yn debygol iawn o gael ei gyflawni, hyd at 10 ar gyfer cynlluniau a ariennir yn llawn yn allanol |

**Effaith y cynllun ar y gyllideb refeniw**

**3.18** Yn y sefyllfa ariannol bresennol, dylid annog cynlluniau all ddangos y byddant yn lliniaru'r pwysau ar y gyllideb refeniw yn y dyfodol neu a allai gynhyrchu incwm (buddsoddi i arbed).

**3.19** Os oes effaith sylweddol ar y gyllideb refeniw, yna bydd y cynllun yn sgorio 10. Os nad oes unrhyw effaith ar y gyllideb refeniw, yna bydd y cynllun yn sgorio 0.

Bydd effaith pob cynllun yn cael ei asesu a sgôr perthnasol sy'n adlewyrchu effeithiau refeniw yn cael ei rhoi.

**3.20** Mae adnabod risgiau posibl prosiect yn rhan o'r broses bidio cyfalaf ac mae'n rhaid i swyddogion ystyried yr holl faterion hyn wrth gyflwyno bid. Bydd Cynlluniau Gwasanaeth hefyd yn ystyried unrhyw risgiau posibl i ddarpariaeth gwasanaeth y gall bod angen mynd i'r afael â nhw a bydd y mecanwaith sgorio yn cydnabod prosiectau sydd wedi eu hadnabod trwy'r broses hon. Mae'r ffurflen fidio hefyd yn ffactora risg y prosiect ei hun i mewn i'r broses sgorio. Mae'r Adroddiad Cynnydd ar y Rhaglen Gyfalaf, a gyflwynir yn chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith a'r Bwrdd Rhaglen Trawsnewid, hefyd yn amlygu unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig gydag oedi o ran cwblhau prosiect.

**Rheoli Prosiect**

**3.21** Bydd angen awdurdod un o'r tri *Bwrdd Rhaglen Trawsnewid* corfforaethol ar gyfer unrhyw Raglenni a Phrosiectau newydd, oni bai y gall y prosiect gwrdd â'r holl feini prawf canlynol *(yn yr achos hwn gellir ei awdurdodi gan y PG a'r Swyddog Adran 151)*:-

- gellir eu cyflwyno a'u cynnal yn gyfan gwbl o fewn cyllideb y Gwasanaeth ei hun;
- nid oes angen cefnogaeth gan Wasanaeth arall (e.e. TGCh, Adnoddau Dynol, Cyllid, Cyfreithiol); a
- bod yr holl risgiau'n cael eu nodi fel rhai mewnol i'r Gwasanaeth ei hun.

Nid yw hyn yn berthnasol i raglenni gwaith cyfalaf treigl, e.e. adnewyddu cegin ysgol, ond bydd yn cynnwys unrhyw brosiect newydd sy'n gofyn am fuddsoddiad cyfalaf gan yr Awdurdod.

Mae arferion rheoli prosiect da yn bwysig i gyflwyno prosiectau cyfalaf yn effeithiol. Mae adnoddau sydd wedi eu cyfyngu mewn rhyw fodd neu'i gilydd, yn gosod cyfyngiadau ar y gwaith sydd i'w gyflawni ac yn tanlinellu'r angen am reolaeth arbennig - dyna pam mae angen Rheoli Prosiect.

Bydd y gwerthusiad cychwynnol o fidiau Cyfalaf arfaethedig yn cynnwys asesiad o gadernid y trefniadau rheoli prosiect arfaethedig, a gymerwyd o'r Ddogfen Cychwyn Prosiect (DCP). **Bydd cynlluniau arfaethedig sy'n dangos dull rheoli prosiect da ac a gynlluniwyd yn dda yn sgorio 10; fel arall, 0**.

Mae cefnogaeth ar gyfer datblygu DPC ar gael gan y Swyddfa Rheoli Rhaglen Gorfforaethol yn dexce@anglesey.gov.uk.

**Pwysoliadau**

**3.22** Bydd pob un o'r rhannau uchod yn amodol ar bwysiad fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| • Blaenoriaethau Corfforaethol | 30% |
| • Risg Corfforaethol | 20% |
| • Cydymffurfiaeth â statud a rheoliadau | 15% |
| • Cyllido'r cynllun | 10% |
| • Effaith ar y Gyllideb Refeniw | 20% |
| • Cadernid Rheolaeth Prosiect | 5% |

**De Minimus**

**3.23** Mae'n arferol i awdurdod i weithredu gwerth de minimus ac ni fydd cynlluniau'n cael eu hystyried ar gyfer cyllid cyfalaf os ydynt islaw'r gwerth hwnnw. O ystyried ei faint, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu gwerth de minimus o £30,000.

## 4. DARPARU'R RHAGLEN GYFALAF

**4.1** Mae'r diweddariadau hyn, ynghyd â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf, dyddiadau targed ac asesiadau risg ar gyfer pob prosiect a chrynodeb o'r rhaglen gyffredinol, yn ffurfio adroddiad sydd wedyn yn cael ei gyflwyno gan y swyddog arweiniol i'r GRhG, yr UDA ac Aelodau. Mae system "goleuadau traffig" yn cael ei defnyddio, lle priodolir lliw i gynlluniau gan ddibynnu ar eu sefyllfa ddiweddaraf fel a ganlyn:-

Gwyrdd = i'w gwblhau yn unol â'r targed
Ambr = disgwylir oedi/gorwariant ar y prosiect
Coch = problem sylfaenol gyda chynllun ac / neu gorwariant sylweddol

**4.2** Mae'r Swyddog Arweiniol ar gyfer pob prosiect yn atebol i'r GRhG ar gyfer cyflawni eu prosiectau'n effeithiol. Bydd y GRhG yn monitro ac yn asesu cynnydd a chydymffurfiaeth â'r achos busnes gwreiddiol ac yn argymell camau adferol, os yw o'r farn bod hynny'n briodol, i'r UDA. Bydd y Swyddog Adran 151 yn adrodd ar berfformiad yn erbyn y Rhaglen Gyfalaf i'r Aelodau gan gynnwys, lle bo angen, sylwebaeth ar berfformiad yn erbyn amcanion ac unrhyw gamau y byddai'n ddymunol eu cymryd o ganlyniad.

**4.3** Er bod Rhaglen Gyfalaf y Cyngor yn ymwneud ag asedau yn ychwanegol at ei asedau tir ac adeiladau yn unig, mae rheolaeth effeithiol o asedau o'r fath yn bwysig a bydd yn nodwedd bwysig o'r Rhaglen Gyfalaf. Mae'r GRhG, felly'n, gweithio ar y cyd â Grŵp Asedau Adeiledig a Thir Corfforaethol (GAATC) y Cyngor sydd wedi cael y dasg o reoli ac adolygu Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor, gan gynnwys cyflwyno gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Mae cylch gorchwyl y GAATC ynghlwm fel Atodiad B.

**ATODIAD A**

# CYLLID CYFALAF: FFURFLEN FIDIO

---

**TEITL Y PROSIECT:**

**ADRAN/ASIANTAETH SY'N NODDI:**

**UWCH SWYDDOG CYFRIFOL:**

**LLOFNOD:** **DYDDIAD:**

---

**PENNAETH GWASANAETH SY'N CYMERADWYO :**

**LLOFNOD:** **DYDDIAD:**

---

## Adran 1: Cefndir y Prosiect, Cyd-destun Strategol ac Angen

- *Eglurwch y cefndir i'r cynllun gan gynnwys ei berthnasedd i nodau strategol ac amcanion polisi.*
- *Nodwch y cydranddeiliaid allweddol ac eglurwch eu hymrwymiad ac unrhyw faterion sy'n parhau i fod angen sylw.*
- *Gan fod mor benodol â phosibl, eglurwch natur yr anghenion neu'r galwadau a fydd yn cael sylw a nodwch unrhyw ddiffygion yn y gwasanaeth fel y mae'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd neu unrhyw ymrwymiad statudol na fyddai, fel arall, yn cael ei fodloni.*
- *Ceisiwch gynnwys feintoliad addas o'r anghenion/galwadau/diffygion lle bynnag y mae hynny'n bosibl.*

---

## Adran 2: Nodwch yr Amcanion a'r Cyfyngiadau

- *Eglurwch a rhestrwch amcanion y prosiect mewn termau mesuradwy penodol.*
- *Ceisiwch gynnwys targedau y mae modd eu meintoli lle bynnag y mae hynny'n bosib.*
- *Nodwch unrhyw gyfyngiadau tebygol i'r prosiect, e.e. materion amseru, gofynion cyfreithiol, safonau proffesiynol, cyfyngiadau cynllunio ac ati.*

| **Amcanion y Prosiect** | **Targedau Mesuradwy** |
|---|---|
| 1. | 1.1<br>1.2 |
| 2. | 2.1<br>2.2 |
| 3. | 3.1<br>3.2 |
| 4. | 4.1<br>4.2 |
| **Cyfyngiadau** | **Mesurau i roi sylw i'r Cyfyngiadau** |
| 1. | |
| 2. | |
| 3. | |

---

## Adran 3: Nodwch a thynnwch Restr Fer o'r Opsiynau

- *Ystyriwch ffyrdd gwahanol o gwrdd â'r amcanion, e.e. amrywiadau o ran maint, ansawdd, techneg, lleoliad, amseriad ac ati.*
- *Cychwynnwch gyda 'rhestr hir' o opsiynau a'u hidlo i ddarparu rhestr fer. Cofnodwch yr holl opsiynau a ystyriwyd ynghyd â'r rhesymau am wrthod y rheiny nad ydynt ar y rhestr fer.*
- *Dylai'r rhestr fer o opisynau gynnwys gwaelodlin Status Quo neu opsiwn 'Gwneud y Lleiaf Posibl' a nifer addas o opsiynau 'Gwneud Rhywbeth' (o leiaf dau fel arfer).*

| **Rhif/Disgrifiad o'r Opsiwn** | **Rhestr Fer (F) neu Gwrthodwyd (G)** | **Rheswm am eu Gwrthod** |
|---|---|---|
| **1) Status Quo** | S | |
| **2)** | | |

## Adran 4: Costau Ariannol a Manteision yr Opsiynau

**1)** *Dylai gwerthusiadau gynnwys yr holl gostau a manteision i'r Cyngor yn codi o'r prosiect, nid yn unig i sefydliad neu sector penodol, e.e. dylid cynnwys yr holl gostau a manteision i'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector*

**2)** *Dylid gwerthuso costau a manteision o safbwynt cost economaidd sydd, fel arfer, yn cael eu hadlewyrchu gan ddefnyddio prisiau cyfredol y farchnad.*

**3)** *Dylid costio'r holl asedau ac adnoddau eraill a ddefnyddir gan bob opsiwn hyd yn oed os ydynt eisoes wedi cael eu prynu. Mae hyn oherwydd bod ganddynt werth o ran cyfle, h.y. os nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer y prosiect hwn, gellid eu defnyddio i ddiben arall.*

**4)** *Gweithiwch allan y Gost Net Bresennol (CNB) ar gyfer pob opsiwn:-*
- *Defnyddiwch y daenlen CNB ac atodwch y clandriad CNB ar gyfer pob opsiwn i'r ffurflen.*
- *Yn yr achosion symlaf, gellir defnyddio'r tabl isod yn lle hyn. Dylid creu tabl ar gyfer pob opsiwn, gan addasu nifer y colofnau i adlewyrchu nifer blynyddoedd oes y prosiect.*

**5)** *Dylid trin y flwyddyn ariannol gyfredol fel blwyddyn 0.*

**6)** *Nodwch y costau cyfalaf a'r costau refeniw blynyddol disgwyliedig ar gyfer pob opsiwn.*

**7)** *Mynegwch y ffigyrau mewn termau real h.y. yn gyson â phrisiau heddiw.*

**8)** *Y rhestr wirio o gostau nodweddiadol.*

**9)** *Bydd arbedion ariannol sy'n codi o'r opsiwn yn cael eu hadlewyrchu yn ei gostau is o gymharu â'r Status Quo. Peidiwch â'u cyfrif ddwy waith gan eu cynnwys hefyd ar wahân fel manteision.*

**10)** *Gellir cymryd manteision 'troi asedau ac ati yn arian' (monetise) i ystyriaeth ond go brin y byddai modd gwneud hyn mewn achosion lle mae'r gwariant yn isel. Bydd y rhan fwyaf o'r manteision yn cael eu cynnwys yn yr adran anariannol, sef 5 isod.*

**11)** *Yn achos rhagdybiaethau ariannol arbennig o ansicr, ystyriwch ddefnyddio dadansoddiad o sensitifrwydd er mwyn dangos sut y mae CNB a ranciau opsiynau'n cael eu heffeithio drwy amrywio'r rhagdybiaethau hyn.*

**12)** *Am ganllawiau manylach, gweler Cam 5 a Cam 8.*

| Osiwn 1: Status Quo | Bl 0 | Bl 1 | Bl 2 | Bl 3 | Bl 4 | Bl 5 | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau Cyfalaf** | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **(a) Cyfanswm y Gost Gyfalaf** | | | | | | | |
| **Costau Refeniw** | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **(b) Cyfanswm y Gost Refeniw** | | | | | | | |
| **(c) Cyfanswm y Gost = (a) + (b)** | | | | | | | |
| **(ch) Ffactor Disg @ 3.5%yf** | 1.0000 | .9662 | .9335 | .9019 | .8714 | .8420 | |
| **(d) CNB = (c) x (ch)** | | | | | | | |

**Rhagdybiaethau Cost:**

### Adran 5: Costau a Manteision Anariannol

- *Rhestrwch a disgrifiwch y costau a'r manteision anariannol perthnasol, e.e. effaith ar iechyd, addysg, yr amgylchedd, cludiant, cydraddoldeb, cynaliadwyedd ac ati.*
- *Defnyddiwch dabl fel yr un isod i ddangos sut y mae pob ffactor yn effeithio ar bob opsiwn.*
- *Ceisiwch feintioli'r effeithiau os yn bosibl a nodi'r gwahaniaethau pwysig rhwng yr opsiynau.*

| **Ffactor Anariannol** | **Effaith ar Opsiwn 1** | **Effaith ar Opsiwn 2** | **Effaith ar Opsiwn 3** | **Effaith ar Opsiwn 4** |
|---|---|---|---|---|
| **1.** | | | | |
| **2.** | | | | |
| **3.** | | | | |
| **4.** | | | | |

---

### Adran 6: Asesu Risgiau ac Ansicrwydd

- *Nodwch a disgrifiwch y risgiau y gall y prosiect eu hwynebu.*
- *Eglurwch sut y mae'r rhain yn cymharu dan y gwahanol opsiynau gan ddefnyddio'r tabl isod.*
- *Nodwch fesurau i sicrhau fod pob risg yn cael ei rheoli a'i lliniaru mewn modd priodol.*
- *Eglurwch y lwfans wrth gefn sydd wedi ei chynnwys ar gyfer risgiau wrth gostio'r opsiynau.*
- *Fel arfer, ni fydd angen addasiadau mwy soffistigedig ar gyfer optimistiaeth ond efallai y byddant yn berthnasol mewn rhai achosion, e.e. prosiectau TGCh neu achosion gyda chostau cyfalaf sylweddol.*

| Disgrifiad o'r Risg | Effaith debygol y Risg U/C/I | | | | Nodwch sut y mae'r opsiynau'n cymharu a nodwch y mesurau rheoli risg / lliniaru perthnasol |
|---|---|---|---|---|---|
| | Op 1 | Op 2 | Op 3 | Op 4 | |
| 1. | | | | | |
| 2. | | | | | |
| 3. | | | | | |
| 4. | | | | | |
| Risg Gyffredinol (U/C/I): | | | | | |

**ALLWEDD:** **U = Uchel** **C = Canolig** **I = Isel** **D/B = Dim yn berthnasol**

## Adran 7: Rhowch grynodeb o'r Cymariaethau o'r Opsiynau a Nodwch Opsiwn a Ffefrir

- *Rhowch grynodeb o'r prif wahaniaethau rhwng yr opsiynau, e.e. o ran rhagdybiaethau allweddol, CNB, effeithiau anariannol, risgiau a ffactorau eraill.*
- *Nodwch yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio ac eglurwch pam.*

## Adran 8: Aseswch Fforddiadwyedd a'r Trefniadau Ariannu

- *Nodwch yr anghenion blynyddol o ran cyfalaf ac adnoddau ar gyfer yr opsiwn a ffefrir, yn unol â'r tabl isod.*
- *Dylai ffigyrau ganiatáu ar gyfer chwyddiant, arian wrth gefn a (lle bo'n briodol) rhagfarn optimistiaeth.*
- *Dylai'r ffigyrau adnoddau gynnwys lwfans priodol ar gyfer dibrisiant/amhariad.*
- *Nodwch y ffynonellau cyllido disgwyliedig a lefel ymrwymiad pob ariannwr.*
- *Ymgynghorwch ag arbenigwr ariannol petai raid.*

| | **Bl 0**<br>**£000's** | **Bl 1**<br>**£000's** | **Bl 2**<br>**£000's** | **Bl 3**<br>**£000's** | **Cyfan-swm**<br>**£000's** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm sydd ei Angen:** | | | | | |
| Cyfalaf | | | | | |
| Adnoddau | | | | | |
| *Lwfans ar gyfer dibrisiant/amhariad* | | | | | |
| **Y Ddarpariaeth Gyfredol:** | | | | | |
| Cyfalaf | | | | | |
| Adnoddau | | | | | |
| *Lwfans ar gyfer dibrisiant/amhariad* | | | | | |
| **Y swm ychwanegol sydd ei angen:** | | | | | |
| Cyfalaf | | | | | |
| Adnoddau | | | | | |
| *Lwfans ar gyfer dibrisiant/amhariad* | | | | | |

| Corff Cyllido | Swm a ariannwyd a'r % o'r cyfanswm | Cyllid wedi ei sicrhau? Ydy/Nac Ydy | Os nad ydyw, nodwch statws y trafodaethau |
|---|---|---|---|
| | £ ( %) | | |
| | £ ( %) | | |
| | £ ( %) | | |

## Adran 9: Rheoli Prosiect

- *Eglurwch y strwythur rheoli prosiect arfaethedig (e.e. defnyddio PRINCE 2), staff rheoli allweddol ac amserlen y prosiect.*
- *Lle mae hynny'n berthnasol, nodwch y dulliau caffael y bwriedir eu defnyddio.*
- *Ystyriwch y ddarpariaeth ar gyfer rheoli a gwireddu manteision.*
- *Nodwch unrhyw faterion rheoli o bwys, e.e. cyfreithiol, contractyddol, llety, staff neu faterion TUPE.*
- *A oes angen cefnogaeth gan ymgynghorwyr allanol.*

**Adran 10: Trefniadau Monitro a Gwerthuso**

- *Nodwch y trefniadau ar gyfer monitro cynnydd y prosiect yn rheolaidd.*
- *Nodwch y trefniadau gwerthuso arfaethedig, e.e. pryd fydd hyn yn digwydd, pwy fydd yn ei wneud a pa ffactorau fydd yn cael eu gwerthuso?.*

**Prif Adrannau'r Ffurflen Brîff Prosiect Bidiau Cyfalaf**

**Adran A – i'w gwblhau ar gyfer CYFLWYNO Bid**

**i. Enw'r Prosiect, Disgrifiad ac Amcanion**
Crynodeb byr o'r prosiect a'i amcanion h.y. beth fydd y prosiect yn ei gyflawni.

**ii. Cyfiawnhad a Rhesymau dros y Prosiect**
Gosod allan y rhesymau pam mae'r prosiect yn angenrheidiol a sut y mae'n helpu i gyflawni Amcanion Corfforaethol ac Amcanion Gwasanaeth ac yn mynd i'r afael ag eitemau yn adroddiad blynyddol y Dirprwy Arweinydd. Mae'r opsiynau amrywiol sydd wedi eu hystyried a'r opsiwn a argymhellir hefyd yn cael eu nodi.

**iii. Sgorio yn erbyn Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a Materion Eraill**
Er mwyn sicrhau bod prosiectau'n cael eu gwerthuso ar sail gyson a gwrthrychol a'u bod wedi eu halinio i flaenoriaethu'r Cynllun Corfforaethol. Mae materion pwysig eraill nad ydynt yn cael eu crybwyll yn benodol yn y Cynllun Corfforaethol hefyd yn cael eu cymryd i ystyriaeth e.e. materion Iechyd a Diogelwch a Rheoli Risg. Byddir yn pwysoli'r sgoriau a bydd blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a gofynion statudol yn cario'r pwysau mwyaf.

**iv. Proffil Cost a Chyllido**
Amcangyfrifon o gostau'r prosiect ac amseru'r costau hyn a'r ffynonellau cyllid a ymchwiliwyd ac a nodwyd.

**v. Effaith Cyllideb Refeniw Ychwanegol y Prosiect**
Costau refeniw am oes cyfan y prosiect

**vi. Ymgynghori**
Sydd wedi ei gynnal gyda grwpiau cymunedol ac ati.

**Adran B – i'w gwblhau ar gyfer Bidiau llwyddiannus**

**vii. Canlyniadau a Sgôp y Prosiect**
Y deilliannau / cynhyrchion / canlyniadau a ddisgwylir ac sydd eu hangen ac y bydd yn rhaid i'r prosiect arfaethedig eu creu neu eu prynu a'r meysydd, swyddogaethau a phrosesau mawr a fydd yn cael sylw yn ystod y prosiect, beth ydyw, beth sydd "i mewn" a beth sydd "allan"**.**

**viii. Cynllun Prosiect Amlinellol**
Prif gamau'r prosiect yn cael eu gosod gyda'i gilydd gyda dyddiadau targed ar gyfer eu cwblhau.

**ix. Cyfyngiadau Prosiect, Tybiaethau a risgiau**
Cyfyngiadau a disgwyliadau o ran amser, adnoddau, cyllid ac/neu'r canlyniad a'r risgiau allweddol sy'n wynebu'r prosiect.

**x. Achos Busnes/Manteision Busnes Amlinellol**
Crynodeb byr o'r manteision busnes a ddisgwylir o'r prosiect.

**xi. Proffil Gwariant**
Yn rhoi'r ffigyrau gwariant a ddisgwylir ar gyfer pedwar chwarter pob blwyddyn ariannol.

**xii. Caniatâd Cynllunio a Chymeradwyaeth Rheoli Adeiladu**
Yn cadarnhau a oes angen caniatâd cynllunio ai peidio ac a yw wedi ei roi ac a yw caniatâd Rheoliadau Adeiladu wedi ei roi. Os nad yw'r un o'r ddau wedi eu rhoi rhaid dweud beth yw'r amserlen ar gyfer gwneud y cyflwyniad.

**Atodiad B**

# Grŵp Asedau Adeiledig a Thir Corfforaethol

## Cylch Gorchwyl (drafft)

Pwrpas y ddogfen hon yw nodi'r cylch gorchwyl cyffredinol ar gyfer y *Grŵp Asedau Adeiledig a Thir Corfforaethol* (y *Grŵp*). Mae'r ddogfen hon yn cynnwys:

1. Cyd-destun y *Grŵp*
2. Gweledigaeth
3. Pwrpas a Rôl y *Grŵp*
4. Aelodaeth a Gweithrediad y *Grŵp*
5. Atebolrwydd
6. Mabwysiadu ac Adolygu Cylch Gorchwyl
7. Model Llywodraethu

### 1. Cyd-destun y *Grŵp*

Gweithgor ymgynghorol lefel uchel yw'r Grŵp Asedau Adeiledig a Thir Corfforaethol sy'n eistedd ochr yn ochr â'r Grŵp Adolygu a Dyrannu Cyfalaf Corfforaethol, yn ystyried gwaith y grŵp hwnnw ar y rhaglen gyfalaf a'r cynigion prosiect sy'n codi o'r rhaglen gorfforaethol.

### 2. Gweledigaeth y *Grŵp*

*"Byddwn wedi gweithredu rhaglen radical o adeiladu a phrosiectau rheoli eiddo sydd wedi chwyldroi'r defnydd o asedau'r Cyngor a rhaglenni corfforaethol a gefnogir i alluogi trawsnewid gwasanaethau allweddol i'r cyhoedd."*

*"Bydd ein stad wedi ei hintigreiddio o fewn ein gwasanaethau ar lefel gorfforaethol, gan olygu y bydd yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda, yn addas i'r pwrpas, yn ariannol gynaliadwy ac yn hyblyg o ran defnydd ar draws nifer o wasanaethau."*

### 3. *Pwrpas* a Rôl y *Grŵp*

**3.1** *Pwrpas* y G*rŵp* yw sicrhau, trwy ymarferion effeithiol a rheolaeth holistig, y defnydd gorau o asedau adeiledig a thir yr Awdurdod (yn cynnwys rhai a werthir).

**3.2** *Rôl y Grŵp yw:*

**3.2.1** Adolygu ac argymell Cynllun Rheoli Asedau'r Awdurdod (fydd yn cynnwys strategaeth gwella a chynnal a chadw asedau'r Awdurdod).

**3.2.2** Adolygu achos busnes llawn rhaglenni, prosiectau neu dasgau (cynigion) yn codi o'r rhaglen gorfforaethol a sicrhau bod pob achos busnes yn unol â:

- Gofynion statudol,
- Blaenoriaethau cytunedig y Cyngor,
- Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol,
- Cyfleon a nodwyd ar gyfer defnydd a rennir o asedau gan ystod o wasanaethau a darparwyr gwasanaeth,
- A chyfrannu at well darpariaeth o wasanaeth, cynaliadwyaeth, gostwng costau.

#### 3.2.3 Herio / adolygu:

- Pob bid am gyllid refeniw allanol.
- Gwariant refeniw mewn perthynas ag ased a darparu prosiect ar sail reolaidd.
- Arferion rheoli yn ymwneud ag asedau o fewn yr Awdurdod.
- Defnydd arfaethedig o ased a'r posibilrwydd i amrywiaeth o wasanaethau gael eu darparu o safleoedd gan sicrhau'r defnydd mwyaf o asedau'r Cyngor.
- Y posibilrwydd o resymoli asedau a gwerthiannau.
- Unrhyw fidiau ar gyfer prynu asedau.

### 3.3 Nodau'r *Grŵp*

- Sicrhau bod prosiectau a strategaethau yn ymwneud â thir ac asedau adeiledig yn gwneud synnwyr corfforaethol ar draws yr holl raglenni a'u bod yn gwneud y mwyaf o'r manteision ar gyfer darparu gwasnaeth a chynhyrchu incwm.
- Sicrhau hyder gyda gwerthu a phrynu tir ac asedau adeiledig ar draws yr holl raglenni.
- Gyrru newid a gwelliant yn y ffordd y mae asedau adeiledig a thir yn cael eu defnyddio a'u rheoli i helpu gyda darparu'r Cynllun Corfforaethol.

## 4. Aelodaeth a Gweithrediad y *Grŵp*

### 4.1 Aelodaeth

Cyfarwyddwr/aelod UDA (cadeirydd)
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) (is-gadeirydd)
Dirprwy Brif Weithredwr
Uwch Swyddog (Eiddo/Asedau)
Rheolwr Strategaeth Asedau

Cefnogaeth i'r *Grŵp*
Swyddog Cefnogi *Grŵp*

Bydd cefnogaeth ychwanegol yn cael ei darparu gan gynrychiolwyr adrannau allweddol o'r Cyngor a Rhaglenni/Prosiectau fel bydd angen.

### 4.2 Gweithrediad

Bydd y *Grŵp* yn cyfarfod bob dau fis yn ei adolygiad blwyddyn gyntaf.  Bydd cworwm yn y grŵp lle ceir 3 aelod yn bresennol, yn cynnwys yr aelod UDA.  Bydd rhaglen ysgrifenedig ar gyfer y cyfarfodydd a chaiff yr aelodau gyfle i gynnig eitemau ymlaen llaw i'w rhoi ar raglen y cyfarfod. Bydd cofnodion cryno'n cael eu cymryd ym mhob cyfarfod yn cynnwys crynodeb o'r prif bwyntiau trafod, penderfyniadau ac argymhellion a wnaed, a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt a bydd log gweithredu'n cael ei gadw gan y Swyddog Cefnogi *Grŵp*.

### 4.3 Adrodd yn ôl

Bydd canfyddiadau'r *Grŵp* yn cael eu hadrodd i'r *Byrddau Rhaglen* perthnasol, y Grŵp Adolygu a Dyrannu Cyfalaf a byrddau/grwpiau eraill fel y gwelir bod angen.

Bydd y *Grŵp* yn adrodd yn flynyddol i'r UDA/Penaethiaid yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd ar fusnes y flwyddyn flaenorol, a bydd yr adroddiad yn cynnwys y Cynllun Rheoli Asedau wedi'i ddiweddaru.

### 4.4 Rhannu gwybodaeth

Bydd y *Grŵp* yn derbyn cyngor gan y *Rheolwr Rhaglen Gorfforaethol* (RRC) o achosion busnes (a bidiau mewn perthynas ag asedau eraill lle bo'n briodol) all fod angen i'r Grŵp eu sgriwtineiddio.  Bydd y RRC hefyd yn rhoi gwybodaeth ar gynnydd prosiectau a ganiatawyd yn flaenorol.

Bydd y *Grŵp* yn derbyn cyngor gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ar wariant prosiect, a gwariant cyllideb refeniw (fel eu bod yn berthnasol i reoli asedau).  Bydd yr Uwch Swyddog (Eiddo/Asedau) hefyd yn rhoi diweddariad ar gynnydd gweithgareddau cyfredol yn gysylltiedig â refeniw.

## 5. Atebolrwydd

### 5.1 Gwneud Penderfyniadau

Mewn termau eang, bydd penderfyniadau sydd o fewn y gyllideb ac o fewn y fframwaith polisi yn disgyn o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Gwaith, a bydd materion yn ymwneud â staff / materion rheoli yn cael eu cyfeirio i'r UDA.

### 5.2 Materion Brys

Os ceir achos lle bo materion brys angen sylw'r *Grŵp* y tu allan i drefn cyfarfodydd y *Grŵp,* bydd y *Swyddog Cefnogi Grŵp* yn codi *'Mater'* drwy e-bost i holl *Aelodau'r Grŵp,* fydd yn cynnwys y manylion canlynol:

- natur y mater;
- y cyfyngiadau amser;
- y canlyniadau os na chaiff sylw o fewn y cyfyngiadau amser;
- y camau lliniaru arfaethedig i'r *Grŵp* eu hystyried; a
- y dyddiad y mae angen i *Aelodau'r Grŵp* ymateb iddo.


Bydd yr ymatebion wedyn yn cael eu hystyried gan y *Cadeirydd* a'r *Is-Gadeirydd*, fydd wedyn yn cytuno ac yn hysbysu *Aelodau'r Grŵp* a'r *Swyddog Cefnogi Grŵp* o'r camau a argymhellir. Cyfrifoldeb y *Swyddog Cefnogi Grŵp* yw ceisio cael cyngor gan y *Rheolwr Rhaglen Gorfforaethol* a sicrhau y caiff ef/hi ei hysbysu.

## 6. Mabwysiadu ac Adolygu'r Cylch Gorchwyl

Bydd y Cylch Gorchwyl hwn yn cael ei adolygu a'i gwblhau mewn cyfarfod o'r *Grŵp*.

Bydd y Cylch Gorchwyl hwn yn cael ei adolygu yn chwarterol ar y cychwyn, ac wedyn yn flynyddol.

# 7 Model Llywodraethu 'Grŵp Tir Corfforaethol ac Asedau Adeiledig' a Rhaglen Gyfalaf




**Pwyllgor Gwaith**
Yr awdurdod a'r oruchwyliaeth gyffrediol. Y Byrddau Rhaglen Drawsnewid yn trosglwyddo materion uwch i'r Pwyllgor Gwaith yn unol â'r Cynllun Dirprwyo a'r Cyfansoddiad.

**Byrddau Rhaglen Trawsnewid**
Gwireddu buddion y Cynllun Trawsnewid. Sicrhau fod rhaglenni/prosiectau yn cael eu rheoli a'u cyflwyno. Blaenoriaethu a dyrannu cyllid.

**Byrddau Rhaglen/Prosiect** - Rheoli'r Rhaglenni/Prosiectau unigol, adrodd ar gynnydd i'r Bwrdd Rhaglen Trawsnewid neilltuol.

**Grŵp Tir Corfforaethol ac Asedau Adeiledig** - rheoli cyfannol er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o asedau'r Awdurdod (gan gynnwys gwaredu) monitro cynlluniau mawr llety.

**Grŵp Rhaglen Cyfalaf** - (yn seiliedig ar geisiadau Achos Busnes) dyrannu'r Gyllideb Gyfalaf tymor byr, canolig a hirach ac adolygu'r gwariant.

**Rhaglen Gyfalaf (Cyllideb)**
Cofnod o Gyllideb Gyfalaf yr Awdurdod.

**Cynnal a Chadw Parhaus**
Cynnal a chadw asedau cynllunedig a heb eu cynllunio.

**Strategaethau**
Cyfeiriad strategol i'r Gwasanaeth dros y tymor canolig i hir.

**Rhaglenni/Prosiectau**
Cyflawni newid cymhleth mewn ymateb i'r Strategaeth.

**Achos Busnes Llawn**
Yn manylu ar hyfywedd y newid ac yn nodi'r opsiwn a ffafrir.

**ATODIAD C**

# Sgorio Cyfalaf - Cyllideb 2016/17 : Mehefin 2015

| Adran | Disgrifiad | Sgôr | Pwysoliad | Manylion |
|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaethau Corfforaethol** | Ni fedr unrhyw gynllun fynd ymlaen i gael ei sgorio yn llawn hyd oni fydd y Pennaeth Gwasanaeth yn bendant y bydd y cynllun o gymorth i gyflawni amcanion corfforaethol yr Awdurdod. | 0-10 | 30% | |
| **Risg Gorfforaethol** | Mae'r sgôr hon yn adlewyrchu i ba lefel y bydd gweithredu'r cynllun yn gostwng lefel y risgiau corfforaethol y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu. Lle mae hynny'n bosibl, dylai gyfeirio at y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Rhoddir sylw hefyd i risg i enw da a pharhad busnes. | 0<br>1 - 3<br>4 - 6<br>7 – 10 | 20% | Dim Risg o gwbl<br>Tebygolrwydd lefel isel ac/neu effaith fechan iawn<br>Yn debygol ac/neu cael effaith ganolig<br>Yn debygol iawn o ddigwydd ac/neu effaith lefel uchel. |
| **Cydymffurfio gyda statud a rheoliadau** | Mae gan y Cyngor Sir ymrwymiadau y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â nhw dan statud mewn darparu gwasanaethau a rheoliadau, megis Iechyd a Diogelwch, Gwahaniaethu ar sail Anabledd a gofynion y Comisiynydd Gwybodaeth. | | 15% | |
| **Cyllido'r Cynllun** | Lle ystyrir bydd yn debygol y bydd angen cyllid allanol neu rannu cyllid (a risg) i gyflawni'r cynllun yna rhoddir sgôr sy'n amodol ar y tebygolrwydd o sicrhau'r cymorth a'r cyllid sydd eu hangen. | 0<br>1 – 5<br>6 – 10 | 10% | Dim cyllid o gwbl, yr arian i gyd yn dod o Gronfa Gyfalaf y Cyngor Sir<br>Hyd at 50% o'r cyllid yn debygol o ddod o ffynonellau allanol neu mae'r cynllun yn brosiect ar y cyd gyda sefydliad arall<br>Lefel uchel o gyllid ac yn debygol iawn o gael ei gyflawni, hyd at 10 ar gyfer cynlluniau a gyllidir yn llawn o ffynonellau allanol |
| Effaith y cynllun ar y gyllideb refeniw | Dylid annog cynlluniau a fedr ddangos y byddant yn lliniaru pwysau yn y dyfodol ar y gyllideb refeniw neu y gallant greu incwm (buddsoddi i arbed) yn yr hinsawdd ariannol gyfredol. | 0 - 10 | 20% | Os oes effaith sylweddol ar y gyllideb refeniw, yna bydd y cynllun yn sgorio 10. Onid oes unrhyw effaith ar y gyllideb refeniw, yna bydd yn sgorio 0.<br>Asesir effaith pob cynllun a rhoddir sgôr berthnasol sy'n adlewyrchu'r effeithiau refeniw. |
| Cadernid Rheolaeth Prosiect | Mae arferion da o ran Rheoli Prosiect yn bwysig i sicrhau y gellir cyflawni prosiectau cyfalaf yn effeithiol. Mae adnoddau sy'n gyfyngedig mewn un ffordd neu'r llall yn rhoi cyfyngiadau ar y gwaith y gellir ei wneud ac yn tanlinellu'r angen am reolaeth arbennig. | 0 - 10 | 5% | |

This page is intentionally left blank

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cadeirydd: Y Cynghorydd R Meirion Jones
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Gwilym O Jones

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o fis Mai, 2015 hyd at fis Mai, 2016. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Anwen Davies (Rheolwr Sgriwtini Dros Dro)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: agdce@ynysmon.gov.uk

[Fersiwn @ 29/06/15]

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad /Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar bob rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriadau**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd**<br>• **Rhaglen Waith - Adolygiad** | | | |
| **6 Gorffennaf 2015** | Enwebiad i'r Panel Rhiant Corfforaethol. | Enwebu un aelod i'r Panel sy'n sicrhau bod gwasanaethau i blant a phobl ifanc mewn gofal o safon uchel | Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp |
| | Trefniadau'r Awdurdod Lleol i Gefnogi Diogelu Plant – Swyddfa Archwilio Cymru | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Perfformiad Blynyddol - Drafft (Cynllun Gwella ) 2014/2015 | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Matrics Cyllideb Gyfalaf 2016/2017 | Monitro perfformiad | |
| | Monitro Perfformiad – Sgorfwrdd Corfforaethol CH4 2014/15:<br>• SCA/018b (Gofalwyr oedolion);<br>• LCL/004 (Deunyddiau llyfrgell a fenthyciwyd);<br>• LCS/002b (Ymweliadau i ganolfannau chwaraeon/hamdden). | Monitro perfformiad | |
| | | | |
| **14 Medi 2015** | Adroddiad Perfformiad Blynyddol ( Cynllun Gwella ) 2014/2015 | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp |
| | Cerdyn Sgorio Corfforaethol CH1 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Refeniw CH1 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Cyfalaf CH1 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Cyllideb 2016-2017 – Cynllun Ymgynghori | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Moderneiddio Ysgolion – Ymgynghoriad Ffurfiol Ardal Rhosyr | Sgriwtini cyn penderfyniad | |



[Fersiwn @ 29/06/15]

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad /Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar bob rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriadau**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd**<br>• **Rhaglen Waith - Adolygiad** | | | |
| | | | |
| **16 Tachwedd 2015** | Opsiynau Cychwynnol Cyllideb 2016/2017 | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 / 3 yp |
| | Cerdyn Sgorio Corfforaethol CH2 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Refeniw CH2 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Cyfalaf CH2 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Rheoli Pobl:<br>A. Montro Perfformiad – Sgorfwrdd Corfforaethol:<br>• Absenoldeb salwch – cyfartaledd diwrnodau/shifftiau gwaith a gollwyd;<br>• Canran y cyfweliadau RTW a gynhaliwyd;<br>• Canran y PDRs a gwblhawyd i amser.<br>B. Panel Canlyniad Sgriwtini: Adolygiad Rheolaeth Absenoldeb Salwch Adroddiad cynnydd. | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Blynyddol Perfformiad Llyfrgelloedd | Monitro perfformiad | |
| | | | |
| **11 Ionawr 2016** | Cyllideb (Ddrafft) y Pwyllgor Gwaith 2016/2017 | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 /<br>10yb - 4yp ( trwy'r dydd) |
| | | | |
| **1 Chwefror 2016**<br>**(N.B. Dyddiad arall i'w drefnu yn y man)** | Ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus ar Gyllideb 2016/2017 y Pwyllgor Gwaith | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp |

[Fersiwn @ 29/06/15]

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad /Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar bob rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriadau**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd**<br>• **Rhaglen Waith - Adolygiad** | | | |
| | Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd [i'w gadarnhau] | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | | | |
| **14 Mawrth 2016 2015** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol CH3 2015/2016 | Monitro perfformiad | Ystafell Bwyllgor 1 / 3yp |
| | Adroddiad Monitro Refeniw CH3 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Cyfalaf CH3 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Cofrestr Risg Corfforaethol | Monitro perfformiad | |
| | | | |
| **11 Ebrill 2016** | Eitemau i'w cadarnhau | | Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp |
| | | | |



[Fersiwn @ 29/06/15]